# 23/24



## Adroddiad blynyddol a chyfrifon

Ar gyfer y cyfnod:
1 Ebrill 2023 i
31 Mawrth 2024

# Y Swyddfa Gyfathrebiadau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

Cyflwynir i'r Senedd yn unol â Pharagraffau 11 a 12 o Atodlen 1 o Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 30 Gorffennaf 2024.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan Weinidogion Cymru.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon gan Conor Murphy ACD,
y Gweinidog dros yr Economi yng Ngogledd Iwerddon.

© Hawlfraint Ofcom (2024)

Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau
Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-Government-licence/version/3**.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/official-documents**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom i **ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk**.

ISBN 978-1-5286-5044-1

E03151595 07/24

SG/2024/129

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Neges y Cadeirydd** | **2** |
| **Adroddiad y Prif Weithredwr** | **3** |
| **Ein pwerau a'n dyletswyddau** | **4** |
| **Adran A: Adroddiad perfformiad** | **7** |
| Uchafbwyntiau 2023/24 | 8 |
| Y prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd | 36 |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 38 |
| Adolygiad Ariannol | 48 |
| Cyfrifoldeb Corfforaethol | 55 |
| Adroddiad ar Gynaliadwyedd | 57 |
| **Adran B: Adroddiad atebolrwydd** | **60** |
| Llywodraethu | 61 |
| Ein gweithwyr | 89 |
| Adroddiad taliadau | 92 |
| Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon - I'w gadarnhau | 101 |
| **Adran C: Datganiadau ariannol** | **105** |
| Datganiad incwm a gwariant | 106 |
| Datganiad o incwm net cynhwysfawr | 106 |
| Datganiad am y sefyllfa ariannol | 107 |
| Datganiad am newidiadau mewn ecwiti | 108 |
| Datganiad am y llifoedd arian parod | 109 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 110 |
| **Adran D: Atodiadau** | **147** |
| A1. Datganiadau rheoleiddio | 148 |
| A2. Gweithgarwch Gorfodi | 158 |
| A3. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu | 159 |
| A4. Sicrwydd Sbectrwm a Chydymffurfedd | 163 |
| A5. Trwyddedu sbectrwm | 164 |
| A6. Cynaliadwyedd | 169 |

# Neges y Cadeirydd

**Yr Arglwydd Grade, CBE**
Cadeirydd



Nod rheoleiddio da yw dod â sicrwydd i fyd ansicr. Yn y sector cyfathrebiadau, fel pob adran arall, mae defnyddwyr am wybod eu bod yn gallu dibynnu ar ddiogelwch, ansawdd, a thegwch.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi ymdrechu i gynnal y gwerthoedd hynny ar ran 67 miliwn o bobl a chwe miliwn o fusnesau yn y DU. Mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o gymorth i esbonio sut.

Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel. Yn 2023, daethom ni'n rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU, ac un o'r rhai cyntaf yn y byd. Symudodd Ofcom yn gyflym o'r cam paratoi i'r cam gweithredu, gan nodi mesurau drafft manwl iawn o fewn wythnosau i'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith.

Wrth i'r rheolau hyn ddod i rym yn ystod y misoedd nesaf, bydd gan filoedd o gwmnïau technoleg ddyletswydd i amddiffyn eu defnyddwyr rhag niwed – yn enwedig plant – yn llawer mwy effeithiol.

Mae ansawdd yn rhywbeth y mae pob cwsmer yn ei ddisgwyl. Dewch i ni sôn am fand eang. Mae chwyldro tawel yn digwydd o dan ein traed, gan ddod â gwibgysylltiadau dibynadwy i filiynau yn fwy o bobl. Eleni, gwelwyd ffrwyth adolygiad Ofcom o'r farchnad hon yn 2021: y DU yw'r cyflymaf yn Ewrop erbyn hyn am gyflwyno band eang ffeibr llawn, a'r ail uchaf o ran y twf mewn tanysgrifwyr.

Mae cynnal safonau yn elfen hanfodol o ansawdd. Eleni, llwyddodd ein tîm gorfodi i nodi methiannau i gwsmeriaid ym maes post a thelegyfathrebiadau, a rhoddwyd dirwyon i'r Post Brenhinol a Shell Energy.

Ac mae tegwch yr un mor bwysig fel gwerth sylfaenol i bobl Prydain. Pan fydd cwsmeriaid yn siopa o gwmpas am wasanaeth, maen nhw'n disgwyl gwerth da a phrisiau tryloyw, yn enwedig os yw cyllideb aelwydydd dan gymaint o bwysau. Felly, rydym wedi gwahardd cynnydd ar ganol contract, a oedd yn gysylltiedig â chwyddiant annisgwyl, yng nghost gwasanaethau ffôn a band eang.

**"Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel. Yn 2023, daethom ni'n rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU, ac un o'r rhai cyntaf yn y byd."**

Mae ein gwaith rheoleiddio bob amser yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r data gorau sydd ar gael, gan ganiatáu i ni dargedu ymyriadau lle maen nhw bwysicaf. Eleni, roedd rhaglen ymchwil Ofcom o'r radd flaenaf yn cwmpasu materion mor amrywiol â pham mae cynulleidfaoedd dosbarth gweithiol yn llai bodlon â'r BBC, a yw gwasanaethau telegyfathrebiadau yn dal yn fforddiadwy, a pha dechnolegau arloesol sy'n gallu gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel.

Rhaid i reoleiddio da fod yn atebol hefyd. I Ofcom, mae sawl ffurf ar hynny. Mae cynrychiolwyr etholedig ym mhrifddinasoedd pob gwlad yn craffu ar ein gwaith. Eleni, fe wnaethom ymddangos mewn dros ddwsin o bwyllgorau dethol, yn ogystal â grwpiau hollbleidiol ledled y DU. Mae'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn archwilio ein penderfyniadau'n rheolaidd mewn proses apeliadau drwyadl. Ac wrth gwrs, rydym yn sicrhau ein bod ar gael i'r cyhoedd ac i'r diwydiant drwy gyfweliadau, ymgynghoriadau, digwyddiadau cyhoeddus, ein gwefan, a'r adroddiad hwn ei hun.

Fel Cadeirydd Ofcom, rwy'n falch o arwain Bwrdd sydd hefyd yn herio'n wrthrychol ac yn diogelu ein hannibyniaeth, fel nad oes dylanwad gwleidyddol neu fasnachol ar ein penderfyniadau. Mae'r egwyddorion hynny'n dal i fod yn bwysig iawn i'r Bwrdd a finnau, wrth i ni gefnogi'r tîm arwain yn eu cenhadaeth hollbwysig o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Prif Weithredwr

O’r ffôn yn eich poced i’r lloerennau sy’n amgylchynu’r Ddaear, mae gwaith Ofcom yn cwmpasu pob dimensiwn ar fywyd modern.

Mae rhywfaint ohono’n hanfodol i fywydau ein cenhedlaeth ieuengaf. P’un ai ydym ni’n archwilio rôl algorithmau wrth gyflwyno cynnwys i blant, neu’n ymchwilio i TikTok ynghylch gwybodaeth am reolaethau rhieni, mae ein gwaith manwl i greu bywyd mwy diogel i bawb yn mynd rhagddo’n dda erbyn hyn. Mae adroddiad eleni yn egluro beth mae hynny’n ei olygu i bobl yn y DU.

Mae cyfathrebiadau’n farchnad fyd-eang hefyd, felly er mwyn sicrhau diogelwch ar-lein, aethom ati i ffurfio grwpiau partneriaeth agos gyda sefydliadau cyfatebol dramor. Mae’r un peth yn wir am sbectrwm, y seilwaith anweledig sy’n pweru ein byd di-wifr. Yng Nghynhadledd Radio’r Byd 2023 yn Dubai, arweiniodd Ofcom ddirprwyaeth y DU i gydlynu tonnau awyr ar gyfer amrywiaeth o ddibenion pwysig, o dderbyniad gwell ar gyfer WiFi a ffonau symudol i loerennau sy’n rhagweld y tywydd ac yn monitro’r newid yn yr hinsawdd.

Mae rhai o’n dyletswyddau’n ymwneud â sefydliadau mwy traddodiadol sy’n cael eu trysori. Mae’r gwasanaeth post cyffredinol yn dal yn ddarpariaeth hanfodol i lawer o bobl. Ond wrth i nifer llythyrau ostwng, mae perygl na fydd yn gynaliadwy yn ei ffurf bresennol.

Felly eleni, fe wnaethom gychwyn trafodaeth genedlaethol ar ddyfodol y post. Fe wnaethom gynnal digwyddiadau ledled y wlad i drafod diwygiadau posibl. Ac fe wnaethom ymchwilio i sut mae pobl yn defnyddio’r post heddiw, beth maen nhw’n ei werthfawrogi, a beth yw eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.

Fel y dengys ein gwaith ar y post, mae Ofcom yn rheoleiddiwr sy’n gwrando ar bobl. Eleni fe wnaethom siarad hefyd â gwylwyr a gwrandawyr teledu, gan edrych ar eu hagweddau at drais a chynnwys rhywiol, disgwyliadau o ran gwasanaethau ffrydio, ac a ddylid caniatáu i wleidyddion gyflwyno rhaglenni.

Aethom ati hefyd i asesu tua 10,000 darn o gynnwys teledu a radio, gan gynnwys bron i 1,500 a oedd yn ymwneud â’r brwydro yn Gaza ac Israel. Mae rhyddid mynegiant, wedi’i gydbwyso gan yr angen am safonau clir, yn parhau i fod wrth galon yr hyn a gredwn. Pan fyddwn yn gweld problemau, byddwn yn parhau i ymyrryd – gyda dwy ddirwy eleni i sianeli sy’n darlledu iaith casineb.

Pan fydd modelau busnes yn cael trafferth, rydym yn edrych ar sut gallai’r sector esblygu i barhau i ddiwallu anghenion pobl. A phan nad yw’r farchnad efallai’n darparu popeth sydd ei angen ar bobl yn y dyfodol – o ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd anghysbell, i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol – rydym yn llunio rheoliadau i helpu i bontio’r bwlch hwnnw.

Rydym yn gwneud hyn i gyd gan annog cystadleuaeth,

**“Fel y dengys ein gwaith ar y post, mae Ofcom yn rheoleiddiwr sy’n gwrando ar bobl”**

buddsoddiad ac arloesedd. Mae'r sylfeini hyn wedi rhoi’r cyfle i'r DU ddatblygu un o’r sectorau cyfathrebu mwyaf creadigol, deinamig a fforddiadwy yn y byd. Wrth i dechnoleg, marchnadoedd ac ymddygiad defnyddwyr esblygu, mae Ofcom yn barod i ddiogelu’r buddion hynny am flynyddoedd i ddod.



# Ein pwerau a’n dyletswyddau

## Cenhadaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau’n gweithio i bawb.

Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, darlledu cynnwys radio a theledu, gwasanaethau fideo ar-alw a gwasanaethau ar-lein, y post, a’r sbectrwm radio y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y Deyrnas Unedig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Mae Ofcom yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos sydd wedi’u sefydlu yn y DU, gwasanaethau ar-lein sy’n lletya cynnwys wedi’i gynhyrchu gan ddefnyddwyr (fel cyfryngau cymdeithasol), gwasanaethau negeseua a pheiriannau chwilio.

Rydym yn awdurdod cyhoeddus annibynnol ac yn atebol i'r Senedd Brydeinig a thrwy’r Llysoedd. Er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a’r Llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith o ran rhoi darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang ar waith yn y Deyrnas Unedig) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

### Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae’n gweithredu’n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol. Yn ôl Deddf Cyfathrebiadau 2003, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny’n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu’r gwasanaeth post cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau’n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau, a chystadleuaeth; Mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

### Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yn llywio cyfeiriad ein gwaith

Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y Deyrnas Unedig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o’r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan sefydliadau gwahanol, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, a tharfu diangen ar breifatrwydd ar y radio, teledu ac ar-lein;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol;
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y Deyrnas Unedig; a
- bod seilwaith digidol ar draws y DU yn gryf, yn ddiogel ac yn gadarn.

Ym mis Hydref 2023, daeth y Ddeddf Diogelwch Ar-lein newydd i rym gan roi'r cyfrifoldeb i Ofcom helpu i wneud gwasanaethau ar-lein yn fwy diogel i'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae'n cyflwyno dyletswydd newydd ar Ofcom i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a achosir gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddylunio systemau a phrosesau priodol i leihau'r risg o niwed o'r fath.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau telegyfathrebiadau, gwasanaethau post neu ddiogelwch ar-lein, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) rydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a ddiffinnir yn Neddf Cystadleuaeth 1998; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

Byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau cystadleuaeth neu bwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.


## Ein gwerthoedd

Er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, rydym yn: hyrwyddo dewis, sicrhau safonau, ac atal niwed. Rhagoriaeth, cydweithio, grymuso, hyblygrwydd a pharch yw'r geiriau sy'n egluro orau sut rydym yn gweithio a sut rydym yn gwneud pethau yn Ofcom.


Mae ein gwerthoedd yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn trin ein gilydd, sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd, sut rydym yn uniaethu â'n rhanddeiliaid, sut rydym yn barnu perfformiad a sut rydym yn cydweithio i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym yn awyddus i fod.



Rhagoriaeth



Hyblygrwydd



Cydweithio



Parch



Grymuso

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Cefnogi 20 mlynedd o ragoriaeth ym maes cyfathrebu



Mae cyfathrebu'n gwneud i'n byd droi – ac yn Ofcom rydym wedi bod yn gwneud yn siŵr nad oes dim yn rhwystro hynny ers 20 mlynedd.

Ers ein sefydlu yn 2003, mae'r byd cyfathrebu deinamig wedi golygu bod llawer o newid wedi bod i awdurdod fel ni ddelio ag ef. O fand eang i wasanaethau symudol a darlledu byw i ffrydio, mae graddfa'r esblygiad yn golygu bod rheoleiddio'n daith barhaus, gyda sawl tro yn y ffordd.

Rydym yn frwd dros gadw ar y blaen i'r newidiadau i wneud yn siŵr bod cyfathrebiadau'n parhau i weithio i bawb dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt.

Mae ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon ar gyfer 2023/24 yn dangos effaith ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn edrych ymlaen at lywio'r hyn sy'n digwydd nesaf.

# ADRODDIAD PERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn egluro sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gwaith Ofcom. Rydym yn edrych ar effaith ein gwaith ar ran pobl a busnesau yn y Deyrnas Unedig.

ADRAN

A

# Uchafbwyntiau 2023/24

## Bywyd mwy diogel ar-lein

### Trefn newydd

Fe wnaethom ymgymryd yn ffurfiol â'n rôl fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, a mynd ati ar unwaith i nodi cynlluniau i fynd i'r afael â chynnwys niweidiol anghyfreithlon a diogelu plant pan fyddan nhw ar-lein.

### Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos

Bydd pobl sy'n defnyddio llwyfannau rhannu fideos yn cael eu hamddiffyn yn well, diolch i'n hymchwil i'r llwyfannau a'n hymgysylltiad â darparwyr.

### Gweithio gyda'n gilydd

Mae angen ateb byd-eang ar gyfer her fyd-eang. Rydym wedi parhau i weithio gyda sefydliadau cyfatebol ledled y byd i gael y canlyniadau gorau o'n hymdrechion ar y cyd.

## Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni

### Gwell bargeinion i gwsmeriaid

Bydd cwsmeriaid telegyfathrebiadau yn ei chael hi'n haws rheoli eu costau, diolch i'r gwaharddiad y gwnaethom ei gynnig ar godi prisiau ar ganol contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant, a rheolau newydd sy'n mynnu bod darparwyr yn gwneud contractau'n gliriach.

### Marchnad sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Bydd cwsmeriaid yn elwa o fuddsoddiad a chystadleuaeth barhaus mewn telegyfathrebiadau, ar ôl i ni lansio ein hadolygiad mawr nesaf o'r farchnad.

### Adolygu marchnadoedd digidol

Roedd ein hastudiaeth marchnad o wasanaethau cwmwl yn y DU, ac adolygiad o niwtraliaeth y rhyngrwyd, wedi nodi gwelliannau a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

## Diogelu gwasanaethau post

### Y post, yn awr ac yn y dyfodol

Nod ein hadolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol, a'r cynigion ar gyfer ei ddyfodol, yw sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu ei ddefnyddwyr yn ogystal â sicrhau ei fod yn gynaliadwy.

### Monitro'r Post Brenhinol

Roedd ein canfyddiadau bod y Post Brenhinol wedi methu ei dargedau danfon ar gyfer gwasanaethau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth yn golygu ein bod wedi gorfod rhoi dirwy sylweddol.

### Fforddiadwyedd i ddefnyddwyr

Gall cwsmeriaid barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth post am brisiau fforddiadwy ar ôl i ni roi cap prisiau ar stampiau ail ddosbarth.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

### Tonnau awyr ar gyfer y dyfodol

Fe wnaethom nodi cynlluniau i ddarparu mwy o sbectrwm, a fydd yn golygu bod mwy o bobl yn gallu defnyddio'r cysylltiadau a'r dechnoleg rydym yn dibynnu arnyn nhw bob dydd.

### Strategaeth sbectrwm y gofod

Mae ein strategaeth gofod wedi helpu i wella cysylltiadau band eang a symudol, yn ogystal â sicrhau buddion o ran teledu sy'n cael ei ddarlledu, cyfathrebu mewn argyfwng, a monitro'r hinsawdd.

### Gweithio'n rhyngwladol

Mae ein gwaith parhaus gyda sefydliadau cyfatebol rhyngwladol wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod y DU yn cael ei chynrychioli'n dda mewn penderfyniadau byd-eang a thrafodaethau ar sbectrwm.

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

### Cefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Mae Deddf Cyfryngau'r Llywodraeth yn cynnig newidiadau i'r dirwedd cyfryngau a fydd yn dwyn budd i gynulleidfaoedd a darlledwyr. Mae ein map, a gyhoeddwyd eleni, yn nodi sut byddwn yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

### Edrych ymlaen i weld beth fydd dyfodol teledu

Rydym wedi edrych ar sut mae'r defnydd o deledu yn newid. Bydd ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn helpu darlledwyr i ddelio â datblygiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd.

### Rheoleiddio'r BBC

Bydd ein hadolygiadau o'r BBC yn helpu i sicrhau ei fod yn gwasanaethu ei gynulleidfaoedd – gan gynnwys gwelliannau i gynulleidfaoedd sy'n teimlo nad yw ei allbwn yn diwallu eu hanghenion ar hyn o bryd.

# Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

### Diogelu cynulleidfaoedd

Mae rhyddid mynegiant darlledwyr yn bwysig, ac mae diogelu gwylwyr yn bwysig hefyd. Fe wnaethom asesu degau o filoedd o gwynion gan bobl am bethau roedden nhw wedi'u gweld neu wedi'u clywed ar y teledu a'r radio, yn ogystal â pharhau â'n hymchwil i agweddau gwylwyr at gynnwys a allai fod yn sarhaus neu achosi trallod i rai pobl.

### Hygyrchedd i bawb

Bydd ein canllawiau a'n hadroddiad ar wasanaethau mynediad ac Amserlenni Rhaglenni Electronig yn helpu pobl sy'n fyddar, sy'n colli eu clyw, sy'n ddall neu sy'n rhannol ddall, i allu cael gafael ar raglenni teledu sydd ar gael i bawb a'u mwynhau.

### Rheoleiddio hysbysebion

Fe wnaethom adolygu rheolau hysbysebu ar adeg o her fasnachol i ddarlledwyr. Fe wnaethom barhau hefyd â'n paratoadau ar gyfer cyflwyno rheolau llymach o ran hysbysebu cynnyrch bwyd a diod sy'n llai iachus.

# Cynnydd i gyflawni ein Cynllun Gwaith

**Mae'r adran hon yn egluro'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ein meysydd blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, a'r effaith ar bobl a busnesau.**

Rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwaith Ofcom bob mis Mawrth. Mae'r Cynllun hwn yn egluro'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn ariannol i ddod, er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb ar draws y Deyrnas Unedig a'i gwledydd.

Roedd y meysydd gwaith a bennwyd ar gyfer 2023/24 yn ystyried yr hyn a oedd yn digwydd yn y farchnad gyfathrebu ac anghenion newidiol pobl a busnesau, yn erbyn cefndir o sectorau deinamig sy'n parhau i fuddsoddi ac arloesi, yn ogystal â lefelau uchel o chwyddiant. Roedd ein cynllun yn cydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar rwydweithiau cyfathrebu'r DU o ran y ffordd rydym yn byw, yn gweithio, yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ymgynghori ar ein cynllun bob blwyddyn i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r adborth a gawn gan bartïon sydd â diddordeb, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau Ofcom. Mae'r Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys ein rhaglen waith, sy'n egluro prif weithgareddau'r flwyddyn.




**Nodiadau i'r darllenydd:** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Drwy'r testun, mae "eleni" yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol honno. Yn yr un modd, oni nodir hynny, mae misoedd yn cyfeirio at y mis perthnasol yn y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, mae "Awst" yn golygu Awst 2023, mae "Ionawr" yn golygu Ionawr 2024.

# Bywyd mwy diogel ar-lein

**Mae Ofcom wedi dechrau gweithio i wneud y byd ar-lein yn fwy diogel i bawb. Ar ôl dod yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU ym mis Hydref, fe aethom ati'n gyflym i ddatgelu cynlluniau manwl a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau technegol ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon – a diogelu plant rhag cynnwys niweidiol gan gynnwys pornograffi.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- O fewn wythnosau i'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod i rym, fe wnaethom nodi rheoliadau manwl a oedd yn mynnu bod cwmnïau technoleg yn defnyddio amrywiaeth o fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon fel deunydd cam-drin plant yn rhywiol, meithrin perthynas amhriodol, a thwyll.
- Fe wnaethom lansio ymgynghoriad arall ynghylch ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau pornograffi ar-lein atal plant rhag cael gafael ar eu cynnwys.
- Rydym wedi gweithio gyda gwasanaethau ar-lein i sicrhau effeithiolrwydd yr adnoddau defnyddwyr sydd ganddynt ar waith i wella diogelwch, yn enwedig i blant.
- Wrth i Ofcom ymgynghori ar fesurau manwl, mae newid yn digwydd. Rydym eisoes wedi sicrhau mesurau diogelwch newydd gan nifer o wasanaethau pornograffi, ac mae Meta yn gwneud newidiadau i Facebook ac Instagram y gwnaethom ni eu cynnig i ddiogelu plant rhag meithrin perthynas amhriodol â phobl.

### Pam mae hyn yn bwysig

- Mae gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel yn flaenoriaeth i lywodraeth y DU, i gymdeithas, ac i Ofcom. Mae ein hymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o oedolion a phlant sy'n mynd ar-lein yn cael profiadau niweidiol ar-lein, ac mae'r rhan fwyaf yn cefnogi rheolau llymach. Bydd ymgyngoriadau Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf yn sail i reoleiddio diogelwch ar-lein yn y DU.
- Plant yw ein blaenoriaeth gyntaf. Rhaid i safleoedd ac apiau sy'n dangos neu'n cyhoeddi pornograffi sicrhau nad yw plant yn gallu dod ar draws pornograffi ar eu gwasanaeth fel rheol. Rhaid iddyn nhw gyflwyno mesurau profi oedran sy'n gywir, yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn deg, ac sy'n effeithiol iawn o ran penderfynu a yw defnyddiwr yn blentyn.



# Ein gwaith eleni



## Cefnogi cychwyn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein

Ym mis Hydref, cafodd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ei phasio, deddfwriaeth bwysig a luniwyd i wneud y rhyngrwyd yn fwy diogel i bawb. Cafodd Ofcom ei wneud yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn sgil y Ddeddf. Nid yw'r rôl newydd bwysig hon yn golygu ein bod yn gwneud penderfyniadau am fideos, postiadau, negeseuon neu gyfrifon unigol, nac yn ymateb i gwynion unigol. Yn hytrach, ein gwaith ni yw gorfodi cwmnïau i fynd i'r afael ag achosion o niwed ar-lein drwy wneud eu gwasanaethau'n fwy diogel yn y bôn.

Wrth i'r Bil Diogelwch Ar-lein fynd drwy'r Senedd, fe wnaethom ymgysylltu ag Aelodau Seneddol ac Arglwyddi, gan ddatblygu ein Map Diogelwch Ar-lein ein hunain i gyfleu ein blaenoriaethau a'r amseru ar gyfer gweithredu'r cyfreithiau newydd.

Cafodd ein paratoadau eu hadolygu gan y **Swyddfa Archwilio Genedlaethol** a'r **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**. Daeth y ddau i'r casgliad bod llawer o waith i'w wneud eto ond bod Ofcom wedi gwneud dechrau da i'r paratoadau ac wedi cymryd y camau y gallem fod wedi'u cwblhau'n rhesymol erbyn yr adeg hon.

Hefyd, fe wnaethom ymgysylltu â'r Adran Gwyddoniaeth, Diwydiant a Thechnoleg fel bod modd cynnwys gwybodaeth a phrofiad Ofcom yn y broses o ddatblygu polisïau a phenderfyniadau'r llywodraeth.

## Cychwyn arni: mynd i'r afael â niwed anghyfreithlon

Ym mis Tachwedd, dim ond pythefnos ar ôl i'r Bil ddod i rym fel y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, fe wnaethom lansio ymgynghoriad pwysig ar niwed anghyfreithlon ar-lein. Fe wnaethom osod **cynigion manwl** a oedd yn mynnu bod cwmnïau technoleg yn defnyddio amrywiaeth o fesurau i ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon ar-lein – o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol a meithrin perthynas amhriodol, i dwyll, yn ogystal â mathau eraill o gynnwys anghyfreithlon. Gall cyfryngau cymdeithasol, gemau, pornograffi, safleoedd chwilio a rhannu gyflawni eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf drwy ddilyn Codau Ymarfer, a gyhoeddwyd gennym ar ffurf drafft.

Mae mesurau enghreifftiol yn ein Codau drafft yn cynnwys mynnu bod gwasanaethau ar-lein mwy a rhai risg uwch yn sicrhau nad yw gosodiadau diofyn plant yn golygu eu bod yn cael ceisiadau diofyn i fod yn ffrind, na negeseuon uniongyrchol gan bobl y tu allan i'w rhestr cysylltiadau. Mae ein Codau drafft hefyd yn argymell y dylai rhai gwasanaethau ddefnyddio technoleg hefyd o'r enw 'cyfateb hashnodau' i helpu i ganfod a chael gwared ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob gwasanaeth o fewn y cwmpas yn asesu'r risg o niwed i'w ddefnyddwyr. Felly, ym mis Tachwedd hefyd, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar sut gallant yn gyntaf fesur risgiau i ddefnyddwyr o ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon niweidiol ar eu llwyfannau, ac yna cymryd camau priodol i'w diogelu.

## Diogelu plant rhag pornograffi

Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i safleoedd ac apiau sy'n cyhoeddi ac yn dangos pornograffi sicrhau nad yw plant yn gallu dod ar ei draws ar eu gwasanaethau fel rheol, drwy ddefnyddio dulliau hynod effeithiol o sicrhau oedran. Mae hwn yn faes gwaith sy'n flaenoriaeth i Ofcom, gan fod ein hymchwil yn dangos bod plant yn gweld pornograffi ar-lein am y tro cyntaf pan maen nhw'n 13 oed ar gyfartaledd – ac mae bron i chwarter yn dod ar ei draws erbyn iddyn nhw fod yn 11 oed.

Felly, ym mis Rhagfyr, ar ôl ein hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon, fe wnaethom lunio canllawiau drafft manwl ar gyfer gwasanaethau pornograffi ar sut gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau. Mae'r canllawiau drafft yn cynnig y dylai'r mesurau profi oedran fod yn dechnegol gywir, yn gadarn, yn ddibynadwy, ac yn deg. Hefyd, fe wnaethom egluro bod yn rhaid i wasanaethau, yn ogystal ag amddiffyn plant, ddiogelu hawl oedolion i breifatrwydd, a'u gallu i gael mynediad at bornograffi cyfreithiol. Rydym yn disgwyl cadarnhau ein canllawiau terfynol yn y maes hwn yn 2025.

Rhaid i Ofcom ymgynghori ar yr holl fesurau hyn. Ond nid ydym yn aros i gwblhau'r rhaglenni gwaith pwysig hyn er mwyn sicrhau canlyniadau, mae newid eisoes yn digwydd. Er enghraifft, rydym wedi sicrhau mesurau diogelwch newydd gan nifer o wasanaethau pornograffi o dan ein rhaglen Llwyfannau Rhannu Fideos, ac mae Meta yn gwneud newidiadau pwysig i Facebook ac Instagram y gwnaethom ni eu cynnig i ddiogelu plant rhag meithrin perthynas amhriodol â phobl.



## Llwyfannau rhannu fideos

Mae Ofcom wedi rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos yn y DU – fel Snapchat a TikTok – ers 2020. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cyflwyno newidiadau gan y cwmnïau hyn mewn meysydd pwysig fel polisïau defnyddwyr, cymedroli, sicrhau oedran, ac offer defnyddwyr.

Ym mis Awst, fe wnaethom **daflu goleuni newydd** ar hygyrchedd telerau ac amodau chwe llwyfan rhannu fideos poblogaidd y mae pobl yn cofrestru ar eu cyfer. Gwelsom fod angen amser a sgiliau darllen da i ddeall y rhain, a bod hynny yn eu gwneud yn anaddas i ddefnyddwyr fel plant. Nid oedd rhai llwyfannau rhannu fideos yn ddigon clir ynghylch pa gynnwys sy'n cael ei ganiatáu, ac nid oedd gan gymedrolwyr cynnwys y canllawiau na'r hyfforddiant angenrheidiol i orfodi'r rheolau bob amser. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn 2024 i sicrhau bod y llwyfannau rhannu fideos yn gweithio i wella eu telerau a'u hamodau.

Rydym wedi parhau â'n **rhaglen orfodi** i asesu a gwella mesurau sicrhau oedran ar lwyfannau rhannu fideos i oedolion. O ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen hon, rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024 cyflwynodd nifer o wasanaethau i oedolion fesurau dilysu oedran. Hefyd, fe wnaethom gychwyn **ymchwiliad** i wasanaeth fideo ar-lein MintStars i oedolion ym mis Chwefror 2024 am fethu ag amddiffyn plant rhag cynnwys pornograffig.

Canfu ein **Hadroddiad ar Ddiogelwch Plant** ym mis Rhagfyr fod llwyfannau rhannu fideos nad ydynt ar gyfer oedolion yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i orfodi cyfyngiadau oedran gofynnol ar eu gwasanaethau, ond nid yw eu heffeithiolrwydd wedi cael ei asesu. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ymgysylltu rhyngwladol, yn enwedig gyda sefydliadau rheoleiddio cyfatebol mewn Gweithgor Rhyngwladol ar Sicrhau Oedran.

Yn dilyn ein gwaith ar yr adnoddau sydd ar gael i ddefnyddwyr, aeth OnlyFans, y gwasanaeth mwyaf yn y DU sy'n gartref i gynnwys pornograffig, ati i ehangu ei gategorïau adrodd i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr roi gwybod am ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar y llwyfan.

Yn ystod ein gwaith, mae Ofcom wedi cyhoeddi nifer o alwadau am wybodaeth gan lwyfannau rhannu fideos sydd o fewn cwmpas y drefn. Mae hyn yn caniatáu i Ofcom hyrwyddo tryloywder ynghylch y mesurau mae gwasanaethau'n eu cymryd i ddiogelu eu defnyddwyr a sicrhau gwelliannau. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom lansio **ymchwiliad** i gydymffurfedd TikTok â'i ddyletswyddau i ddarparu gwybodaeth o'r fath. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn nes ymlaen yn 2024.

## Dull seiliedig ar ddata i reoleiddio ar-lein

Drwy gydol y flwyddyn, mae Ofcom wedi parhau i ddatblygu ei allu a'i arbenigedd ym meysydd peirianneg data, gwyddor data a dadansoddi data. Fe wnaethom ddatblygu seilwaith, adnoddau a phrosesau i roi data wrth galon ein gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein.

Un enghraifft yw Systemau Argymell – offer awtomataidd sy'n cynnig cynnwys penodol i ddefnyddwyr. Maen nhw'n cyflawni hyn drwy ddadansoddi data, a allai gynnwys gwybodaeth am ddefnyddwyr a'r cynnwys maen nhw wedi'i weld o'r blaen. Aeth Canolfan Data ac Arloesi Ofcom ati i arwain gwaith penodol, fel rhan o'n hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon, i archwilio sut gellid gwneud y nodweddion hyn yn fwy diogel i ddefnyddwyr.

Maes arall sy'n cael effaith gynyddol ar ddefnyddwyr yw deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (AI). Rydym wedi dechrau gweithio gyda chwmnïau sy'n datblygu ac yn defnyddio'r adnoddau hyn, i edrych ar y risgiau a'r manteision o gadw defnyddwyr yn ddiogel.

## Gwaith partner gyda rheoleiddwyr eraill

Fe wnaethom barhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr partner fel rhan o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae'r fforwm yn dod â phedwar o reoleiddwyr y DU at ei gilydd i gyflwyno dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein. Aelodau'r Fforwm yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac Ofcom.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, tair blaenoriaeth y Fforwm oedd cydlyniaeth rhwng cyfundrefnau, cydweithio ar faterion trawsbynciol, a meithrin gallu rhwng rheoleiddwyr. Aeth y fforwm ati i gydweithio mwy ar lywodraethu deallusrwydd artiffisial gan gyhoeddi cynlluniau i dreialu gwasanaeth cynghori aml-reoleiddiwr newydd, sef 'Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol' y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Bydd hyn yn rhoi cyngor anffurfiol i arloeswyr. Hefyd, bu'n cydweithio ar dechnoleg hysbysebu a thechnoleg diogelwch – fel pensaernïaeth dewis ar-lein a chwcis, sicrhau oedran a chymedroli cynnwys. Ac fe sefydlodd y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, i feithrin trafodaethau rhyngwladol ar gydlyniaeth ym maes rheoleiddio. Mae rhagor o fanylion am yr holl waith hwn ar gael yn **adroddiad blynyddol** y Fforwm ei hun.

Hefyd, ymunodd Ofcom â rheoleiddwyr rhyngwladol i wella ymdrechion byd-eang i wneud y byd ar-lein yn lle mwy diogel. Mae'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang yn fforwm sy'n ymroi i gefnogi cydweithio rhwng rheoleiddwyr diogelwch ar-lein. Mae'n anfon neges gadarn am ein hymrwymiad, gyda'n gilydd, i reoleiddio diogelwch ar-lein. Mae rhagor o fanylion am sut rydym yn cydweithio gyda sefydliadau rhyngwladol ar gael yn yr adran ymgysylltu â rhanddeiliaid, ar dudalen xx.

## Ymgorffori arbenigedd technegol

Mae Ofcom wedi bod yn datblygu ei arbenigedd technegol ym maes diogelwch ar-lein ers sawl blwyddyn, ac fe wnaeth hynny barhau yn 2023/24. Cynhyrchodd ein rhaglen sganio'r gorwel 20 o bapurau technegol mewnol ar faterion hanfodol mewn technolegau presennol a thechnolegau datblygol.

Fe wnaethom hefyd greu'r Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein – cyfleuster mewnol sy'n canolbwyntio ar ymchwilio, profi a gwerthuso gwahanol ddulliau technegol o ymdrin ag ymddiriedaeth a diogelwch ar-lein. Fe wnaethom feithrin cysylltiadau cryf â'r sector academaidd i ddylanwadu ar gyfeiriad ymchwil yn y dyfodol tuag at yr heriau technolegol mwyaf o ran diogelwch ar-lein - fel deallusrwydd artiffisial, preifatrwydd, a lleihau niwed.

## Rhyddid Gwybodaeth a phreifatrwydd

Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Wrth arfer ein swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, rydym wedi ceisio sicrhau, yn benodol, ein bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson ag Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n cynnal yr hawl i ryddid mynegiant, ac Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n diogelu'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol. Mae'r ddau yn hawliau amodol, a rhaid i unrhyw gyfyngiadau gael eu nodi'n glir mewn cyfraith, dilyn nod cyfreithlon, a bod eu hangen mewn cymdeithas ddemocrataidd.

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, fe wnaethom gyhoeddi dau ymgynghoriad: diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein a chanllawiau i ddarparwyr gwasanaeth sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig. Wrth gynhyrchu'r ymgyngoriadau hyn, fe wnaethom ystyried yn ofalus effaith bosibl ein cynigion ar hawliau dynol i sicrhau bod unrhyw ymyrryd â'r hawliau hynny yn gymesur â nodau cyfreithlon y cynigion. Er enghraifft, yn ein hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, fe wnaethom nodi asesiadau o'r effeithiau ar hawliau dynol. Roedd hyn yn egluro ein dull o ddadansoddi faint o ymyriadau a allai godi mewn perthynas â'r mesurau sy'n cael eu cynnig yn y Codau Ymarfer drafft, a pham roeddem o'r farn na fyddai angen mwy nag ymyriadau o'r fath i sicrhau'r manteision disgwyliedig. Wrth wneud hynny, fe wnaethom ystyried pwysigrwydd diogelu hawl defnyddwyr i ryddid mynegiant o fewn y gyfraith a diogelu preifatrwydd defnyddwyr yn benodol, ac mae mesurau diogelu priodol wedi cael eu cynnwys yn y Codau Ymarfer drafft at y diben hwnnw. Fe wnaethom gysylltu hefyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'n cynigion a oedd yn effeithio ar hawliau preifatrwydd. Mae ein hasesiadau o'r effaith ar hawliau dynol wedi'u nodi'n llawn yn ein hymgynghoriadau sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan[1].

[1] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/protecting-people-from-illegal-content-online
https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/guidance-service-providers-pornographic-content

# Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni


**Mae pobl heddiw yn dibynnu ar fand eang fforddiadwy a dibynadwy. Dyma sut rydym yn byw, yn siopa, yn gweithio, yn chwarae ac yn cysylltu. Gwaith Ofcom yw sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau manteision rhwydweithiau cyflym a diogel sydd hefyd yn pweru economi ddigidol y DU.**

## Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Mae Ofcom wastad wedi canolbwyntio ar gadw gwasanaethau telegyfathrebiadau yn fforddiadwy, ac mae hyn yn arbennig o bwysig gyda chyllidebau aelwydydd o dan bwysau o hyd. Eleni, fe wnaethom gynnig gwahardd contractau telegyfathrebiadau sy'n codi bob blwyddyn yn ôl chwyddiant. Byddai cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol yn cael ei nodi mewn punnoedd a cheiniogau, er mwyn i bobl wybod yn iawn beth yw eu biliau.
- Fe wnaethom gadw'r pwysau ar ddarparwyr i sicrhau bod tariffau cymdeithasol ar gael a bod cwsmeriaid yn ymwybodol ohonynt. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y bargeinion rhatach hyn yn parhau i gynyddu, er y gallai miliynau yn fwy o bobl gymwys elwa.
- Mae mynediad at wasanaethau band eang gwell a mwy dibynadwy yn dal i gynyddu'n gyflym, o dan reolau'r farchnad a sefydlwyd gennym yn 2021. Mae rhyngrwyd ffeibr llawn gwibgyswllt ar gael yn awr i oddeutu 60% o gartrefi, ac mae rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits ar gael i bron 80% o eiddo.
- Rydym yn defnyddio pwerau a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 i sicrhau bod cwmnïau ffôn a band eang yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch eu gwasanaethau a rhwydweithiau cyhoeddus. Rhaid iddyn nhw fod yn gryf, yn ddiogel ac yn gadarn yn erbyn cyfnodau segur ac ymosodiadau seiber.

## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl yn cael gafael ar amrywiaeth gynyddol o wasanaethau ar-lein ar draws gwasanaethau cyfathrebiadau, gemau, gofal iechyd, bancio, gweithio o bell, e-fasnach, fideo ar-alw, newyddion, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, a mwy.
- Mae angen i ddefnyddwyr deimlo'n ffyddiog bod y farchnad yn gweithio yn y ffordd y dylai. Dylen nhw allu cael gafael ar fargeinion fforddiadwy a deall beth y gallan nhw ddisgwyl ei dalu dros oes contract newydd. Yn ystod gwanwyn 2023, i bobl a oedd ar gontractau lle bu cynnydd mewn prisiau a oedd yn gysylltiedig â chwyddiant, bu cynnydd o 14-17% yn eu biliau. Gallai hyn olygu cannoedd o bunnoedd y flwyddyn i deulu sydd â chontract band eang a sawl ffôn symudol. Yn y dyfodol, bydd angen i gontractau sy'n cynnwys cynnydd mewn prisiau nodi'r rheini'n glir i gwsmeriaid mewn punnoedd a cheiniogau.
- Mae'r DU yn cael gwell band eang. Mae'r rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits oddeutu 30 gwaith yn gyflymach – ac yn llawer mwy dibynadwy – na'r hen linellau copr maen nhw'n eu disodli.



# Ein gwaith eleni

### Bargeinion cliriach ar gyfer defnyddwyr ffonau a band eang

Mae'r DU yn elwa o wasanaethau ffôn a band eang cystadleuol, lle nad oes gan ddim un o'r gweithredwyr gyfran flaenllaw o'r farchnad adwerthu – ac mae hyn yn helpu i gadw prisiau'n isel. Er bod rhai biliau yn uwch eleni, dros y pum mlynedd diwethaf mae'r prisiau, ar gyfartaledd, ar gyfer gwasanaethau band eang a symudol yn y DU wedi gostwng mewn termau real. Ar yr un pryd, mae cwmnïau wedi bod yn buddsoddi mewn uwchraddio eu rhwydweithiau, ac mae'r defnydd o ddata a chyflymderau cyfartalog ill dau wedi cynyddu.

Mae eglurder ynghylch prisiau yn bwysig hefyd, os yw cystadleuaeth i lwyddo a chwsmeriaid yn gallu siopa o gwmpas gyda hyder. Roedd Ofcom yn poeni bod darparwyr wedi codi prisiau'n flynyddol yn gysylltiedig â chwyddiant yn y dyfodol nad oedd modd ei ragweld – ynghyd ag swm ychwanegol, fel arfer 3.9%.

Gallai'r telerau contractiol hyn, a oedd wedi dod yn gyffredin, achosi niwed sylweddol drwy danseilio dealltwriaeth pobl o'r hyn y bydden nhw'n ei dalu dros gyfnod. Gallent gymhlethu'r broses o siopa am fargen, cyfyngu ar yr ymgysylltu â defnyddwyr, a gwneud cystadleuaeth yn llai effeithiol.

Felly, ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gynnig gwahardd codiadau mewn prisiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn y dyfodol. Fe wnaethom osod rheolau newydd a oedd yn mynnu bod yn rhaid i unrhyw godiad mewn pris, sydd wedi'i ysgrifennu yng nghontract cwsmer, gael ei nodi mewn punnoedd a cheiniogau, a'i nodi'n glir ac yn dryloyw, ar adeg prynu'r gwasanaeth. Mae hynny'n cynnwys bod yn glir ynghylch pryd y bydd unrhyw newidiadau'n digwydd i brisiau. Rydym wedi cyhoeddi ein rheolau terfynol ar hyn, a rhoi cyfnod byr i gwmnïau ffôn a band eang roi unrhyw newidiadau gofynnol ar waith.

Ar wahân, fe wnaethom gyflwyno canllawiau newydd i sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth glir i gwsmeriaid am y dechnoleg sylfaenol sy'n cefnogi'r gwasanaeth maen nhw'n ymrwymo iddo – gan wahaniaethu rhwng cysylltiadau cebl, copr, ffibr llawn a ffeibr rhannol, sy'n perfformio'n wahanol o ran cyflymder a dibynadwyedd. Daw'r canllawiau newydd i rym o fis Medi 2024 ymlaen.

Rydym yn gwybod o'n hymchwil bod tua dau o bob pum cwsmer yn dewis peidio â newid darparwr os yw'r broses yn cymryd gormod o amser neu'n ormod o drafferth. Felly, rydym yn parhau i bwyso ar gwmnïau i roi proses 'Newid Un Cam' ar waith. Yn y broses Newid Un Cam, am y tro cyntaf, bydd darparwyr gwasanaeth yn rheoli'r holl broses symud i gwsmeriaid newydd sy'n symud rhwng gwahanol rwydweithiau neu dechnolegau. Ar ôl rhywfaint o oedi, cyhoeddodd y diwydiant ddyddiad arall i'r system Newid Un Cam fynd yn fyw, sef 12 Medi 2024. Bydd hyn yn gwneud y broses o newid darparwr band eang yn gyflymach, yn haws ac yn fwy dibynadwy.



**Mae eglurder ynghylch prisiau yn bwysig hefyd, os yw cystadleuaeth i lwyddo a chwsmeriaid yn gallu siopa o gwmpas gyda hyder.**

### Band eang rhatach i gartrefi cymwys


Yn ogystal â bod yn dryloyw, dylai prisiau fod yn fforddiadwy – gan gynnwys i bobl ar incwm isel. Canfu ein hymchwil fod miliynau yn colli allan ar 'dariffau cymdeithasol' band eang – cysylltiadau â disgownt arbennig ar gyfer cartrefi sy'n cael budd-daliadau penodol. Mae'r bargeinion hyn ar gael am gyn lleied â £12 y mis, ac yn cynnig arbedion nodweddiadol o tua £200 y flwyddyn. Yn hollbwysig, nid yw'r pris yn codi ganol contract, sy'n golygu bod y gost yn cael ei rhewi i bob pwrpas. Ond nid yw rhai darparwyr yn gwneud digon o hyd i gynnig na hysbysebu'r cymorth hwn.

Nid yw dros hanner (55%) o aelwydydd cymwys yn ymwybodol o dariffau cymdeithasol, ac er bod y nifer sy'n manteisio ar hyn yn cynyddu – i fyny o 5% flwyddyn yn ôl – mae'n parhau i fod yn isel, ar y cyfan, fel cyfran o'r holl aelwydydd cymwys (8.3%). Am y tro cyntaf eleni, fe wnaethom gyhoeddi ffigurau ar gyfer y niferoedd sydd wedi manteisio ar hyn ar gyfer pob un o'r darparwyr band eang mwyaf sy'n cynnig tariffau cymdeithasol. BT sydd â'r gyfran fwyaf o gwsmeriaid band eang sy'n cymryd tariff cymdeithasol (72%), ac yna Sky (13%), Virgin Media (6%), Vodafone (4%).

Rydym yn dal i bwyso ar gwmnïau telegyfathrebiadau i hyrwyddo tariffau cymdeithasol yn ehangach. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a sefydliadau defnyddwyr i wneud yn siŵr bod mwy o aelwydydd cymwys yn ymwybodol o'r cymorth y gallant ei gael. Mae ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyngor ac awgrymiadau i helpu unrhyw un sy'n cael trafferth talu eu biliau.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i fonitro ac adrodd ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu. Canfu ein hadroddiad diweddaraf ar y Patrymau Prisiau – sy'n ymdrin â gwasanaethau band eang, llinell dir, symudol a theledu drwy dalu – fod bargeinion da ar gael o hyd i bobl sy'n siopa o gwmpas. Mae dewis yn y farchnad o hyd, a gall llawer o gwsmeriaid sydd bron â dod i ddiwedd eu contract – neu heb gontract o gwbl – arbed arian drwy symud at ddarparwr newydd neu negodi bargen newydd gyda'u darparwr presennol.

### Ffigur 1: cyflwyno band eang




Ffynhonnell: FTTH-B Market Panorama Diweddariad 2023

### Rhwydweithiau cyflymach a mwy dibynadwy

Mae chwyldro tawel yn digwydd yn nhirwedd band eang Prydain. Yn dilyn y fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio y rhoddodd Ofcom ar waith yn 2021, mae data o Gyngor Ewrop FTTH yn dangos mai'r DU yw'r cyflymaf ar draws Ewrop erbyn hyn am gyflwyno band eang gwibgyswllt ffeibr llawn (EU27 + DU)– a'r ail o ran y twf mewn tanysgrifwyr ar ôl Ffrainc.

Mae ffigurau Ofcom yn dangos bod 62% o adeiladau'r DU (18.7m) yn gallu cael ffeibr llawn, i fyny o 50% flwyddyn yn ôl. Ym mis Ebrill 2024, roedd gan 80% (24.0m) o gartrefi fynediad at fand eang sy'n gallu delio â gigabits, o'i gymharu â 70% (20.8m) yn 2022.

Rydym yn disgwyl i'r niferoedd hynny barhau i godi. Os bydd cwmnïau'n rhoi eu cynlluniau ar waith ar gyfer gosod rhwydweithiau, gallai darpariaeth ffeibr llawn gyrraedd hyd at 91% o adeiladau erbyn 2026, a darpariaeth sy'n gallu delio â gigabits yn cyrraedd hyd at 94%. Os bydd darparwyr llai yn cyflawni eu cynlluniau'n llawn, bydd 41% o eiddo'r DU yn gallu cael gafael ar wasanaethau band eang sy'n gallu delio â gigabits gan dri darparwr neu fwy erbyn mis Mai 2026. Rydym yn cydnabod y bydd cynlluniau cwmnïau llai, yn benodol, yn debygol o newid mewn ymateb i ddatblygiadau gweithredwyr eraill ac amodau ehangach y farchnad, gan gynnwys amgylchedd macro-economaidd mwy heriol.

Ac ystyried y cyd-destun hwn, rydym wedi dechrau gweithio ar ein hadolygiad nesaf o'r brif farchnad telegyfathrebiadau, sydd i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2026. Ni fydd ein hamcanion sylfaenol yn newid, sef cymell buddsoddiad a hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy rhwng rhwydweithiau er budd defnyddwyr. Rydym hefyd eisiau parhau i hyrwyddo gweithgareddau masnachol effeithlon er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ymhellach yn yr ardaloedd sy'n weddill, sy'n anoddach eu cyrraedd.

Mae Openreach, y gangen o BT y mae ei rwydwaith yn cael ei ddefnyddio gan adwerthwyr eraill fel Sky a TalkTalk, yn chwaraewr pwerus yn y farchnad band eang. Rhaid i Openreach wasanaethu'r holl gwmnïau hyn yn gyfartal, felly mae Uned Monitro Openreach Ofcom yn ei fonitro ac yn ei ddal i gyfrif. Mae Uned Monitro Openreach yn parhau i fod yn wyliadwrus o ran sicrhau bod Openreach yn cydymffurfio â'n rheolau, ac mae'n barod i weithredu er mwyn cael cystadleuaeth deg.

Wrth i rwydweithiau newydd ddod yn fwy cyffredin, mae'r diwydiant yn bwrw ymlaen â chynlluniau i symud galwadau ffôn llinell dir o'r hen rwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) i dechnoleg protocol llais dros y rhyngrwyd (VoIP), sy'n defnyddio cysylltiad band eang i gysylltu galwadau ffôn. Rhaid bod yn ofalus wrth symud o un system i'r llall, yn enwedig i gwsmeriaid bregus, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod gan gwsmeriaid o leiaf un dull o gysylltu â'r gwasanaethau brys os bydd toriad yn y pŵer. Eleni, fe wnaethom barhau i archwilio'r broses, gan weithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn cynllunio'n effeithiol ac yn blaenoriaethu anghenion cwsmeriaid.

## Cystadleuaeth ac ansawdd mewn marchnadoedd digidol

### Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cwmwl yn gystadleuol

Mae cyfrifiadura yn y cwmwl yn defnyddio canolfannau data ledled y byd i ddarparu mynediad o bell i fusnesau at wasanaethau fel meddalwedd, storio a rhwydweithio. Mae'r farchnad hon yn allweddol erbyn hyn i lawer o gwmnïau ar draws economi'r DU – gan gynnwys cwmnïau telegyfathrebiadau, darlledwyr a sefydliadau yn y sector cyhoeddus – gan drawsnewid y ffordd maen nhw'n darparu'r gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnyn nhw.

Eleni, fe wnaethom gwblhau astudiaeth marchnad ar gyflenwi gwasanaethau cwmwl yn y DU, i ddeall a yw'r marchnadoedd yn gweithio'n dda. Yn ein hadroddiad terfynol ym mis Hydref, gwelwyd bod rhai arwyddion cadarnhaol o gystadleuaeth, ond bod problemau hefyd.


Fe wnaethom nodi nodweddion o'r farchnad sydd, yn ein barn ni, yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth ac a allai arwain at niwed i gwsmeriaid busnes, ac yn y pen draw i ddefnyddwyr yn y DU. Fe wnaethom gyfeirio'r farchnad at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), sy'n cynnal ymchwiliad manwl i'r farchnad nawr.

### Niwtraliaeth y rhyngrwyd


Mae niwtraliaeth y rhyngrwyd yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr y rhyngrwyd – nid eu darparwr ffonau symudol na band eang – reolaeth dros yr hyn maen nhw'n ei wneud ar-lein. Mae wedi chwarae rhan ganolog i alluogi pobl i gael gafael ar y cynnwys mae arnyn nhw eu heisiau, a galluogi busnesau ar-lein i gyrraedd cwsmeriaid ar-lein.

Yn dilyn adolygiad o'r maes hwn, fe wnaethom ddiwygio ein canllawiau ar sut dylai rheolau fod yn berthnasol yn y DU. Er bod niwtraliaeth y rhyngrwyd yn dal yn bwysig i gefnogi dewis i ddefnyddwyr, rydym wedi darparu mwy o eglurder yn ein canllawiau er mwyn i ddarparwyr band eang a ffonau symudol allu cynnig pecynnau adwerthu ffonau symudol neu fand eang premiwm, datblygu gwasanaethau arbenigol newydd, defnyddio mesurau rheoli traffig, a chynnig data diderfyn ar gyfer rhai gwasanaethau yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.

Fe wnaethom hefyd gynhyrchu canllawiau i sicrhau bod darparwyr band eang a symudol yn gallu diogelu eu cwsmeriaid a sicrhau manteision cyhoeddus drwy flaenoriaethu gwasanaethau brys, cynnig rheolaethau rhieni, ac atal mynediad at sgamiau a chynnwys niweidiol arall. Mae'r newidiadau hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd, gan helpu i gefnogi arloesedd a buddsoddiad gan ddarparwyr cynnwys – yn ogystal â chwmnïau band eang a ffonau symudol.







**Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth ac wedi gostwng ein trothwyon adrodd am ddigwyddiadau**

## Diogelwch a chadernid telegyfathrebiadau

Roedd Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 yn cynnwys dyletswyddau newydd i Ofcom sicrhau bod rhwydweithiau telegyfathrebiadau a gwasanaethau'r DU yn ddiogel.

Fe wnaethom ddechrau casglu gwybodaeth gan ddarparwyr cyfathrebiadau am sut maen nhw'n cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd, gan gyfeirio at y canllawiau sydd wedi'u nodi yng nghod ymarfer y Llywodraeth. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn nes ymlaen yn 2024.

Rydym yn parhau i wneud yn siŵr bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch yn briodol ac yn monitro eu profion hacio sy'n seiliedig ar wybodaeth (a elwir yn TBEST). Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth ac wedi gostwng ein trothwyon adrodd am ddigwyddiadau. Hefyd, fe wnaethom ddarparu canllawiau cyffredinol ar ba gyfaddawdau diogelwch y byddem fel arfer yn disgwyl i ddarparwyr adrodd yn ôl i Ofcom, a'r broses ar gyfer rhoi gwybod amdanynt.

Rydym yn parhau i hyrwyddo rhwydweithiau mwy cadarn, gan gynnwys ystyried sut bydd y dyletswyddau sy'n berthnasol i rwydweithiau telegyfathrebiadau traddodiadol, yn berthnasol i'r rhwydweithiau rhithwir mwy newydd sy'n prysur gael eu mabwysiadu. Fe wnaethom ymgynghori ar ddiweddaru ein canllawiau presennol ar gadernid a osodwyd ym mis Hydref 2022, gan gynnwys darpariaethau newydd ar bŵer wrth gefn ar gyfer rhwydweithiau mynediad radio symudol (RAN).

## Amrywio telegyfathrebiadau

Ar ôl i Lywodraeth y DU nodi bod gwerthwyr risg uchel yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwasanaethau symudol 5G, cyflwynodd y llywodraeth gynlluniau yn 2020 i gynyddu nifer y gweithgynhyrchwyr. Y nod oedd sicrhau bod y farchnad cyflenwi yn gystadleuol, yn arloesol, yn ddiogel ac yn gadarn.

Ym mis Mehefin 2023, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Ofcom adrodd ar y cynnydd a wnaed gan y darparwyr i dynnu gwerthwyr risg uchel o'u rhwydweithiau. Fe wnaethom gyhoeddi tri adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Hydref, mis Ionawr a mis Mawrth.

Gwnaethom barhau i gefnogi rhaglen Lab Telegyfathrebiadau'r DU (UKTL), a sefydlwyd i gefnogi amcanion y Llywodraeth. Fe wnaethom hefyd ddatblygu ein menter Labordai SONIC (Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN), sy'n darparu amgylchedd masnachol niwtral i werthwyr newydd brofi sut gall eu cynnyrch Open RAN (Rhwydwaith Mynediad Radio) weithredu ac integreiddio â'r rhwydweithiau presennol.

**Mae ffigurau Ofcom yn dangos bod**

# 62%

**o adeiladau'r DU (18.7m) yn gallu cael ffeibr llawn, i fyny o 50% flwyddyn yn ôl.**



# Diogelu gwasanaethau post

**Mae gwasanaethau post yn dal yn ddull cyfathrebu hanfodol i lawer o bobl a busnesau, ond mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio gwasanaethau post wedi newid. Mae Ofcom yn goruchwylio'r gwasanaeth post cyffredinol, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion defnyddwyr ar yr un pryd ag ystyried ei gynaliadwyedd ariannol a'i effeithlonrwydd.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno


- Rydym wedi cychwyn trafodaeth genedlaethol ar ddyfodol gwasanaeth post y DU, gan ofyn am farn am ystod o opsiynau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth post cyffredinol er mwyn diogelu ei ddyfodol, a sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn ei ddefnyddio.
- Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi cynnal digwyddiadau i drafod y dystiolaeth sy'n sail i'r angen am newid a'r opsiynau posibl, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o bobl a sefydliadau sydd â safbwyntiau gwahanol.
- Fe wnaethom gynnal ymchwil i sut mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth heddiw, beth maen nhw'n ei werthfawrogi fwyaf yn y fanyleb bresennol, a beth yw eu disgwyliadau yn y dyfodol.
- Fe wnaethom gwblhau adolygiad ynghylch a ddylid parhau i gapio prisiau stampiau, gan barhau i ddiogelu cost llythyrau ail ddosbarth.
- Fe wnaethom roi dirwy o £5.6m i'r Post Brenhinol am fethu â chyrraedd rhwymedigaethau targed ar gyfer 2022/23.
- Fe wnaethom wella ein gwaith monitro'r marchnadoedd post i gynnwys effaith canllawiau a rhwymedigaethau newydd yn y farchnad parseli o ran delio â chwynion, a thrin cwsmeriaid anabl – yn ogystal â monitro cynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn fwy manwl a chynaliadwyedd cyffredinol y gwasanaeth post cyffredinol.

### Pam mae hyn yn bwysig

- I lawer o bobl, yn enwedig yr henoed a'r rheini nad ydynt yn gallu symud gymaint, mae post yn adnodd gwerthfawr i gysylltu â'r byd y tu allan a chadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd. I lawer, mae gweithwyr y Post Brenhinol yn cael eu hystyried yn ymwelwyr rheolaidd a chyfarwydd.
- Mae wyth o bob 10 person yn dweud y bydd angen anfon rhai pethau drwy'r post o hyd. Ac mae tri chwarter o'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau post yn dweud eu bod yn dibynnu ar y post am lythyrau.
- Ond, nid yw manyleb y gwasanaeth post cyffredinol wedi newid ers 2011. Yn y cyfamser, mae nifer y llythyrau wedi haneru, ac mae danfon parseli wedi dod yn fwyfwy pwysig. Mae'r gost sylweddol i'r Post Brenhinol o ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol yn golygu bod risg gynyddol y bydd yn dod yn anghynaliadwy yn ariannol ac yn weithredol yn y tymor hir.
- Yn ogystal ag edrych tua'r dyfodol, rydym am wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n dal yn fforddiadwy heddiw. Mae ein cap ar gost llythyrau ail ddosbarth yn sicrhau bod hyn yn digwydd.

**8/10**

**Mae wyth o bob 10 person yn dweud y bydd angen anfon rhai pethau drwy'r post o hyd.**



# Ein gwaith eleni

## Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

Mae ein hymchwil yn datgelu pa mor bwysig yw gwasanaeth post dibynadwy i bobl sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau a pharseli.

O dan y gwasanaeth post cyffredinol, rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos - a pharseli bum niwrnod yr wythnos - i bob cyfeiriad yn y DU, am bris unffurf. Gwaith Ofcom yw sicrhau'r gwasanaeth hwnnw, sy'n golygu cydbwyso anghenion defnyddwyr post a, lle y bo'n ymarferol, rhoi'r rhyddid angenrheidiol i'r Post Brenhinol gystadlu'n effeithiol yn y farchnad.

Nid yw rhwymedigaethau'r Post Brenhinol wedi newid ers 2011, ac mae perygl y bydd y gwasanaeth post cyffredinol yn dod yn anghynaliadwy gan fod pobl yn anfon llai o lythyrau ac yn derbyn mwy o barseli. Mae angen diwygio er mwyn sicrhau ei ddyfodol hirdymor.

Ym mis Ionawr, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth ar yr angen am newid, gan ofyn am safbwyntiau ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth post cyffredinol. Fe wnaethom sylweddoli hefyd, ni waeth a oes unrhyw ddiwygio neu beidio, bod yn rhaid i'r Post Brenhinol foderneiddio ei rwydwaith, a dod yn fwy effeithlon a gwella lefelau ei wasanaeth.

### Fe wnaethom nodi dau brif opsiwn:

1. Gwneud newidiadau i'r cynnyrch busnes, a'r cynnyrch Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth presennol, fel bod y rhan fwyaf o lythyrau'n cael eu danfon drwy wasanaeth sy'n cymryd hyd at dri diwrnod (neu hirach i rai gwasanaethau busnes), gyda gwasanaeth diwrnod nesaf ar gael o hyd ar gyfer unrhyw lythyrau brys.
2. Lleihau nifer y diwrnodau danfon llythyrau o chwech i bump neu dri. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth a'r Senedd newid deddfwriaeth.

Rydym yn amcangyfrif y gallai'r Post Brenhinol arbed costau sylweddol o dan y naill opsiwn neu'r llall, neu gyfuniad ohonynt. Yr hyn sy'n amlwg yw nad yw israddio targedau danfon a dibynadwyedd yn opsiwn ar gyfer diwygio. Mewn gwirionedd, bydd yn bwysig ystyried a oes angen mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n llawn.

Gallai llai o ddiwrnodau danfon ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr post o hyd, yn ôl yr hyn maen nhw wedi'i ddweud wrthym ni. Mae naw o bob 10 o bobl (88%) yn dweud bod dibynadwyedd yn bwysig ar gyfer danfon llythyrau, o'i gymharu â 58% ar gyfer danfon ar ddydd Sadwrn (i lawr o 63% yn 2020).

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ein hymchwil hefyd yn agored i leihau rhai gwasanaethau a safonau – yn enwedig ar gyfer llythyrau – er mwyn cadw prisiau'n isel a thalu am yr hyn oedd ei angen yn unig. Yn yr un modd, roedd cydnabyddiaeth gref nad oedd y rhan fwyaf o lythyrau'n rhai brys, ond roedd dal angen i bobl gael gwasanaeth cyflymach ar gyfer eitemau brys achlysurol, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu talu premiwm.



Nid y DU yw'r unig un sydd angen ymateb i'r heriau hyn. Ar draws Ewrop ac yn ehangach, mae rhwymedigaethau gwasanaeth post cyffredinol wedi cael eu diwygio neu wrthi'n cael eu diwygio. Mae gwledydd eraill wedi lleihau pa mor aml maen nhw'n danfon neu wedi ymestyn yr amseroedd danfon ar gyfer llythyrau – gan gynnwys Sweden yn 2018, Gwlad Belg ddwywaith ers 2020, a Norwy a Denmarc ddwywaith ers 2016.

Ers cyhoeddi ein dogfen drafod ym mis Ionawr, rydym wedi cynnal digwyddiadau ar draws pob un o wledydd y DU i drafod y dystiolaeth a'r opsiynau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n allanol ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau, gan geisio cael amrywiaeth eang o safbwyntiau gwahanol a rhagor o opsiynau posibl ar gyfer diwygio. Ar ôl ystyried y safbwyntiau a'r adborth yn ofalus, rydym yn bwriadu rhoi diweddariad yn ystod haf 2024.

Wrth i'r llwybr at ddiwygio gael ei fapio, bydd ein gwaith monitro parhaus yn gweithredu fel system rhybuddio cynnar am unrhyw broblemau o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth a pherfformiad ariannol y gwasanaeth post cyffredinol. Rydym yn cynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol ar y sector post, a chyhoeddwyd yr un diwethaf ym mis Rhagfyr.

## Monitro perfformiad y Post Brenhinol

Eleni hefyd, fe wnaethom gwblhau ymchwiliad i fethiant y Post Brenhinol i gyrraedd ei dargedau danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn ystod 2022/23. Hyd yn oed ar ôl addasu perfformiad y Post Brenhinol oherwydd effaith gweithredu diwydiannol, tywydd eithafol, a chau rhedfa Stansted, roedd ei berfformiad o ran danfon gryn dipyn yn is na'r targedau. Achosodd hyn gryn niwed i gwsmeriaid, gyda'r cwmni'n cymryd camau annigonol i atal y methiant. Fe wnaethom roi dirwy o £5.6 miliwn i'r Post Brenhinol, a oedd yn cynnwys gostyngiad o 30% gan fod y cwmni wedi cyfaddef eu bod yn atebol ac wedi cydweithredu'n llawn â'n hymchwiliad.

## Fforddiadwyedd ar gyfer defnyddwyr post

Wrth i bobl gael trafferth â chostau cartrefi yn gyffredinol, fe wnaethom gwblhau gwaith i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn parhau i fod yn fforddiadwy. Y Post Brenhinol yw'r unig gwmni cenedlaethol yn y DU sy'n danfon llythyrau o ddrws i ddrws, ac mae hyn yn golygu na allwn ddibynnu ar gystadleuaeth i sicrhau bod prisiau'n aros yn fforddiadwy. Felly, fe wnaethom gadw cap i ddiogelu llythyrau ail ddosbarth. Ar gyfartaledd, dros y tair blynedd nesaf, ni all y prisiau hyn godi mwy na chwyddiant (CPI) o brisiau heddiw.



Bydd ein gwaith monitro parhaus yn gweithredu fel system rhybuddio cynnar am unrhyw broblemau o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth a pherfformiad ariannol y gwasanaeth post cyffredinol.

# Pweru a diogelu tonnau awyr y DU

**Rydym yn rheoli sbectrwm radio'r DU er budd pawb yn y DU. Ein gwaith ni yw sicrhau bod yr adnodd cenedlaethol, cyfyngedig a gwerthfawr hwn yn cael ei reoli mewn modd effeithlon ac effeithiol, gan gynnwys cefnogi buddsoddi ac arloesi mewn gwasanaethau di-wifr.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom osod y sylfeini i sicrhau bod 6.25 GHz o sbectrwm ar gael ar gyfer defnydd symudol ar draws bandiau sbectrwm tonnau milimetr (mmWave) (26 GHz a 40 GHz).
- Fe wnaethom fwrw ymlaen â chynlluniau i ganiatáu defnydd hybrid o sbectrwm yn y band 6GHz uwch ar gyfer defnydd symudol a WiFi.
- Fe wnaethom helpu i gadw lle'r DU fel arweinydd byd ar reoli sbectrwm, gan weithio gyda Llywodraeth y DU i gynrychioli buddiannau Prydain, gan gynnwys arwain dirprwyaeth y DU i Gynhadledd Radio'r Byd.
- Fe wnaethom weithio i gynyddu capasiti cyffredinol y rhwydwaith lloerennau, gyda chynlluniau i ddarparu mwy o sbectrwm yn y band 28 GHz.

### Pam mae hyn yn bwysig

- Sbectrwm radio yw hanfod gwasanaethau symudol a di-wifr – technolegau sy'n cefnogi bywydau modern, busnesau a'r economi ddigidol. Mae'n adnodd cenedlaethol, cyfyngedig a gwerthfawr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer popeth o ffonau symudol i wasanaethau di-wifr, Bluetooth, radio a theledu sy'n cael ei ddarlledu, rheoli traffig awyr, a gwasanaethau brys.
- Wrth i'r galw cystadleuol am sbectrwm gynyddu, mae gan Ofcom rôl hanfodol o ran ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol, gan sicrhau'r manteision gorau posibl i ddefnyddwyr. Bydd ein gwaith eleni yn cefnogi gwell band eang a WiFi yn y cartref ac yn y swyddfa. Bydd hyn o fudd i sectorau o weithgynhyrchu i drafnidiaeth, i'r gwasanaethau brys a rheilffyrdd y DU.
- Mae technoleg yn symud yn gyflym. Drwy reoli sbectrwm yn y ffordd iawn, gall Ofcom gefnogi gwasanaethau newydd ac arloesol ar gyfer pobl a busnesau.




# Ein gwaith eleni

### Tonnau awyr newydd i gefnogi ffonau symudol a band eang: arwerthiant mmWave

Mae sbectrwm tonnau milimetr (mmWave) yn fand o donnau awyr amledd uchel iawn sy'n gallu cludo llawer iawn o ddata. Gall helpu i wella derbyniad ffonau symudol mewn mannau prysur fel gorsafoedd trenau, stadia pêl-droed, a chyngherddau. Gall hefyd gefnogi rhaglenni di-wifr arloesol sy'n gofyn am lawer iawn o ddata, neu gyflymder uchel iawn, fel mynediad di-wifr sefydlog at wasanaethau band eang i ddefnyddwyr, realiti rhithwir, ac awtomeiddio mewn ffatrïoedd.


Mae Ofcom yn gweithio i awdurdodi defnydd symudol ar draws y bandiau 26GHz a 40GHz. Rydym yn bwriadu sicrhau bod trwyddedau mynediad a rennir ar gael yn y band 26 GHz yn gynnar y flwyddyn nesaf, cyn cynnal arwerthiant o drwyddedau 15 mlynedd ar gyfer 68 o drefi a dinasoedd mawr ledled y DU.

Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom gyhoeddi penderfyniadau terfynol ar amodau trwydded ar gyfer sbectrwm mmWave, a sut bydd yr arwerthiant yn gweithio. Ond er mwyn osgoi'r risg y bydd sbectrwm yn cael ei ddyrannu'n aneffeithlon, fe wnaethom benderfynu gohirio'r arwerthiant nes i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wneud penderfyniad ynghylch y cynnig arfaethedig i uno Three a Vodafone. Er mwyn paratoi, rydym wedi cyhoeddi hysbysiadau dirymu i ddefnyddwyr cysylltiadau sefydlog ar draws y ddau fand, a fydd yn galluogi defnydd symudol heb gyfyngiadau mewn ardaloedd dwysedd uchel o'r dyddiad cynharaf posibl o 2028 ymlaen.




### 1.4 GHz

Rydym yn awyddus i sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael ar gyfer gwasanaethau symudol yn y band 1.4 GHz. Eleni, fe wnaethom ofyn am safbwyntiau ar ymyriant posibl rhwng gwasanaethau symudol a therfynellau lloeren mewn porthladdoedd ac ardaloedd meysydd awyr, sy'n defnyddio'r band 1.5 GHz cyfagos. Fe wnaethom gynnig y gallai'r technolegau hyn gydfodoli, gyda mesurau diogelu penodol ar waith. Ar yr un pryd, fe wnaethom ofyn am farn am sut gellid arwerthu'r tonnau awyr hyn.



### 6 GHz uwch

Mae'r band amledd 6 Ghz uwch yn cael ei ddefnyddio yn y DU ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau fel cysylltiadau sefydlog, dyfeisiau pellter byr, lloerennau archwilio'r ddaear a seryddiaeth radio. Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom ymgynghori ar ddull rhannu hybrid, gan alluogi defnyddio WiFi a ffonau symudol yn y band i helpu pobl i gysylltu â'i gilydd. Rydym hefyd yn pwyso am gysoni rhannu hybrid ar lefel ryngwladol yn y band hwn, er mwyn galluogi arbedion maint ar gyfer offer symudol a band eang.



### 1900 MHz

Rydym yn awyddus i sicrhau bod sbectrwm 2100 MHz heb ei baru yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau – cyfran o'r tonnau awyr a werthwyd yn wreiddiol fel rhan o'r arwerthiant 3G yn 2000, sydd o fewn y band 1900-1920 MHz. Ar ôl ymgynghori, fe wnaethom benderfynu diddymu'r trwyddedau perthnasol oherwydd diffyg defnydd. Bydd hyn yn helpu i ryddhau tonnau awyr ar gyfer sawl defnydd hanfodol yn y dyfodol – fel ymestyn darpariaeth symudol ar gyfer cerbydau gwasanaethau brys, ac uwchraddio technoleg cyfathrebu i gefnogi rheilffyrdd y DU.

## Defnyddio sbectrwm i helpu'r amgylchedd

**Mae ein gwaith sbectrwm yn cyfrannu at gynlluniau'r DU i gyflawni sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Rydym yn cefnogi'r Llywodraeth i sicrhau bod systemau cyfleustodau fel trydan, nwy a dŵr yn addas ar gyfer anghenion y grid clyfar yn y dyfodol.**

**Ym mis Mehefin, fe wnaethom ofyn am safbwyntiau ar y bandiau sbectrwm posibl a allai fod ar gael ar gyfer rhwydwaith cyfleustodau preifat ym Mhrydain Fawr, ac o bosibl yng Ngogledd Iwerddon. Fe wnaethom nodi'r bandiau 400 MHz a 700 MHz fel y bandiau mwyaf tebygol ar gyfer hyn, wrth i'r Llywodraeth ystyried y camau nesaf.**





## Strategaeth sbectrwm gofod Ofcom

Mae'r sector gofod yn cynnig manteision pwysig i bobl a busnesau yn y DU. Mae lloerennau'n cael eu defnyddio ar gyfer band eang, teledu sy'n cael ei ddarlledu, system leoli fyd-eang, cyfathrebu mewn argyfwng, caffael gwybodaeth hanfodol am yr hinsawdd, a chasglu data i roi gwell dealltwriaeth o'r bydysawd i bobl.

Eleni, roedd rhaglen gofod Ofcom yn canolbwyntio ar wasanaethau lloeren newydd sy'n cylchdroi heb fod yn ddaearsefydlog (NGSO), gan gefnogi ein nod ehangach o wella derbyniad ffonau symudol a band eang.

Mae mwy a mwy o bobl yn cael cysylltiadau band eang drwy ddefnyddio lloerennau. Fe wnaeth ein **Hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd** blynyddol gadarnhau bod 43,000 o ddefnyddwyr Starlink yn 2023, sydd wedi codi o 13,000 y flwyddyn flaenorol. Rydym am weld cystadleuaeth yn y sector, ac mae nifer gyffredinol y gweithredwyr NGSO ar gynnydd. Rydym wedi cymeradwyo cais gan **Rivada** ac rydym yn adolygu un o glwstwr **Beetlesat**. Rydym hefyd yn bwriadu cymeradwyo cais gan Kepler am drwydded rhwydwaith gorsafoedd Daear.

Mae lloerennau'n ddelfrydol ar gyfer cysylltu adeiladau a busnesau mewn lleoliadau anghysbell. Gallant hefyd gysylltu cerbydau, llongau ac awyrennau. Mae angen sbectrwm i wneud hyn, ac mae'n rhaid i bob gweithredwr rhwydwaith sy'n darparu'r gwasanaethau hyn i derfynellau yn y DU feddu ar drwydded Rhwydwaith Gorsafoedd Daear (ESN). Yn ein **datganiad ESN** ym mis Medi, lansiwyd terfynellau NGSO yn nyfroedd y DU, gan gefnogi gwell cysylltiadau ar gyfer y diwydiannau morol, llongau, hamdden a physgota a sicrhau hefyd bod defnyddwyr sbectrwm eraill yn cael eu diogelu.

Mae nifer o gwmnïau bellach yn ystyried gwasanaethau lloeren 'uniongyrchol-i-ddyfais' – fel gwasanaeth negeseuon brys Apple, sydd wedi cael ei lansio yn y DU. Gall y mathau hyn o gynnyrch roi hwb i ddarpariaeth symudol a darparu cysylltiadau wrth gefn os bydd trychinebau naturiol. Rydym wedi cynnal adolygiad mewnol o'r gwasanaethau hyn i weld a oes angen addasu ein trwyddedau i awdurdodi'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol, a byddwn yn casglu safbwyntiau yn 2024.

Ein nod yw cynyddu'r capasiti cyffredinol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lloeren hyd at 20 GHz. Roedd ein hymgynghoriad ar 28 Ghz yn cynnig tonnau awyr ychwanegol ar gyfer pyrth gorsafoedd daear – soseri mawr ar y ddaear sy'n cysylltu lloeren â'r rhyngrwyd. Rydym yn gweithio ar gynyddu capasiti ar gyfer y pyrth hyn drwy sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael iddyn nhw.

# Mae ein gwaith sbectrwm yn cyfrannu at gynlluniau'r DU i gyflawni sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050



## Ymgysylltu ar lefel ryngwladol

Rydym wedi parhau i weithio gyda sefydliadau a sefydliadau rheoleiddio cyfatebol ledled Ewrop ac yn fyd-eang i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn trafodaethau a phenderfyniadau rhyngwladol ynghylch sbectrwm.

Arweiniodd Ofcom ddirprwyaeth y DU o 60 o bobl, gan gynnwys 20 o'n cydweithwyr ein hunain, i Gynhadledd Radio'r Byd 2023 (WRC2023) yn Dubai. Yn y digwyddiad hwn, gwnaethpwyd penderfyniadau pwysig ar faterion defnyddwyr fel y band 6 GHz uwch, lle mae rhannu hybrid yn caniatáu i weithredwyr WiFi a gweithredwyr ffonau symudol rannu'r band. Yma hefyd y cafodd syniadau polisi Ofcom eu mabwysiadu yn y penderfyniad terfynol.

Fe wnaethom ganolbwyntio'n helaeth hefyd ar gwestiynau ynghylch y gofod a'r lloerennau. Arweiniodd hyn at donnau awyr yn cael eu nodi ar gyfer monitro tywydd yn y gofod, mwy o sbectrwm ar gyfer cysylltiadau ar longau ac awyrennau, a chapasiti ar gyfer cysylltiadau rhwng lloerennau a fydd yn helpu i gael mynediad cyflymach at ddelweddau arsylwi'r ddaear. Dyrannwyd lle hefyd ar gyfer amleddau a oedd yn cefnogi rhagolygon tywydd gwell a monitro'r hinsawdd.

Yn dilyn y Gynhadledd yn 2023, rydym yn astudio nifer o fandiau sbectrwm newydd posibl cyn y gynhadledd nesaf yn 2027, a allai fod yn addas ar gyfer y genhedlaeth nesaf o fand eang di-wifr, gan gynnwys darpariaeth symudol 6G. Bydd ymgysylltu'n agos â phartneriaid domestig a rhyngwladol yn helpu i sicrhau nad oes tagfeydd yn digwydd yn y sbectrwm wrth i'r cenedlaethau nesaf o systemau di-wifr gael eu rhoi ar waith.

## Mynediad at sbectrwm wedi'i rannu

Un dull pwysig o ddiwallu'r galw cynyddol am donnau awyr yw 'rhannu sbectrwm' – gan ganiatáu i ddefnyddwyr gwahanol gynnig rhaglenni di-wifr gan ddefnyddio'r un amleddau.


Ym mis Tachwedd fe wnaethom ymgynghori ar sut i ddatgloi llawer mwy o gyfleoedd rhannu, yn enwedig yn y band 3.8-4.2 GHz poblogaidd. Bydd hyn yn cefnogi amrywiaeth gynyddol o gynnyrch gan gynnwys rhwydweithiau preifat, gwesteiwyr niwtral a Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) i gefnogi band eang cyflym mewn cymunedau gwledig.

Fe wnaethom hefyd ddechrau gweithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant a byd academaidd i brofi arloesi mewn 'blychau tywod' – gwelyau profi cydweithredol a fydd yn helpu i ddatblygu rhwydweithiau di-wifr mwy hyblyg ac effeithlon. Ym mis Rhagfyr 2023, dechreuodd yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg broses gaffael gyda'r bwriad o ariannu prosiectau profi a arweinir gan y diwydiant.

## Cefnogi defnyddwyr radio amatur

Rydym am symleiddio'r profiad o wneud cais a chael trwydded ar gyfer defnyddwyr radio amatur, yn ogystal ag ehangu nifer y gweithgareddau a ganiateir o dan y drwydded hon. Eleni, fe wnaethom adolygu ein fframwaith trwyddedu amatur, fel rhan o adolygiad ehangach o'n prosesau trwyddedu.

Fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad amrywio i 100,000 o drwyddedeion Radio Amatur, a ymatebodd yn gadarnhaol. Bydd hyn o fudd i'r gymuned amatur drwy lacio'r cyfyngiadau blaenorol a chaniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer eu gweithgareddau. Ac erbyn dechrau 2025, bydd porth trwyddedu ar-lein newydd yn cael ei ddarparu ar gyfer radio amatur, radio llongau ac ysgolion hyfforddi gorsafoedd arfordirol, a bydd trwyddedau presennol yn cael eu symud, gan wella'r profiad i ymgeiswyr a lleihau costau gweinyddu.



# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi


**Fel rheoleiddiwr y cyfryngau, rydym yn cefnogi sector darlledu bywiog y DU – gan gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – gan ei helpu i esblygu a diwallu anghenion newidiol gwylwyr a gwrandawyr.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom ehangu ein gwaith ar ddal y BBC i gyfrif. Yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC, gwelsom, er ei fod yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith yn dda ar y cyfan, mae ganddo benderfyniadau anodd i'w gwneud ynghylch sut mae gwasanaethu cynulleidfa sy'n symud fwyfwy ar-lein.
- Roedd ein Hadolygiad o Gynulledfaoedd y BBC yn edrych ar pam mae cynulleidfaoedd incwm is wastad yn llai bodlon â'r darlledwr cenedlaethol na grwpiau eraill.
- Fe wnaethom hefyd barhau i fonitro perfformiad ehangach y BBC a'i effaith ar y farchnad, yn enwedig ei broses gwyno BBC yn Gyntaf, ei ymrwymiad i 'ddidueddrwydd dyladwy' a'i weithgareddau masnachol.
- Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant ar y Ddeddf Cyfryngau, felly bydd y ddeddfwriaeth newydd yn caniatáu i reoleiddio gyd-fynd â newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a marchnad ddeinamig iawn.

### Pam mae hyn yn bwysig

- Rhaid i'r BBC esblygu i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ei gynulleidfa. Mae hynny'n cynnwys ymateb i bobl sy'n defnyddio mwy a mwy o raglenni ar-alw, ar-lein neu pan fyddan nhw'n symud o un lle i'r llall. Ar yr un pryd, rhaid i ni fonitro sut mae newidiadau'n effeithio ar wylwyr a gwrandawyr sy'n dal yn dibynnu ar wasanaethau traddodiadol fel radio a theledu byw.
- Mae cynulleidfaoedd incwm isel yn cyfrif am bron i chwarter poblogaeth y DU, ac mae eu hadborth yn rhoi neges bwysig i'r BBC. Mae ein canfyddiadau'n gallu annog y BBC i gymryd mwy o risgiau wrth gynhyrchu cynnwys newydd ac arloesol sy'n dwyn budd i ystod ehangach o bobl.
- Mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus o ran newyddion, radio lleol ac allbwn o bob cwr o'r gwledydd. Yr un mor bwysig, mae angen i'r BBC sicrhau bod gan y cyhoedd fwy o hyder yn ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy.
- Mae arferion gwylio wedi newid ac mae'n rhaid i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus addasu gyda nhw. Bydd deddfwriaeth newydd yn sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn amlwg ar-lein, gan fodloni gofynion hefyd o ran is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr sy'n eu defnyddio.



# Ein gwaith eleni

## Dal y BBC i gyfrif

Ym mis Tachwedd, yn ein **Hadroddiad Blynyddol ar y BBC** gwelsom fod y gorfforaeth yn dal i gyflawni ei gylch gwaith yn dda ar y cyfan ac mae wedi parhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Ond fe wnaethom hefyd dynnu sylw at yr angen i'r BBC herio ei hun wrth iddo roi mesurau didueddrwydd ar waith. Fe wnaethom nodi, wrth i gynulleidfaoedd barhau i symud ar-lein, fod y BBC yn gorfod gwneud dewisiadau anodd wrth iddo addasu i ddiwallu eu hanghenion. Wrth iddo wneud hynny, byddwn yn monitro effaith y newidiadau hyn yn agos. .

Fe wnaethom gyhoeddi **Adolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC**, gan gynnwys ymchwil newydd i ddeall yn well pam mae cynulleidfaoedd incwm is wastad wedi dangos lefelau is o fodlonrwydd â'r BBC na grwpiau eraill. Roedd llawer o'r bobl y buom yn siarad â nhw yn y grwpiau hyn – sy'n cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y DU – yn teimlo bod rhaglenni'r BBC yn gallu bod yn rhy sych neu ddifrifol o'u cymharu â gwasanaethau eraill. Dywedodd ein hymatebwyr yn glir hefyd eu bod am i'r BBC roi portread mwy dilys o'u bywydau go iawn, a chymryd mwy o risgiau wrth gynhyrchu cynnwys newydd ac arloesol.



## Monitro perfformiad y BBC ac effaith ar y farchnad

Fe wnaethom barhau i fonitro gwaith y BBC yn y meysydd pwysig hyn:

- Cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus: fe wnaethom fonitro newidiadau i sianel BBC News, radio lleol, a newidiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Cwynion: rydym wedi cyfarwyddo'r BBC i fod yn fwy tryloyw mewn perthynas â chwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.
- Didueddrwydd: rydym wedi monitro sut mae'r BBC yn gweithredu canfyddiadau Adolygiad Serota, a ddaeth yn sgil ymchwiliad yr Arglwydd Dyson i gyfweliad Martin Bashir gyda Diana, Tywysoges Cymru ar y rhaglen Panorama ym 1995) . Fel rhan o hynny, rydym ar ddeall bod y BBC wedi cymryd camau amrywiol yn ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol i gynyddu hyder y cyhoedd yn ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy. Ond, rydym yn parhau i annog y BBC i drin hyn fel maes blaenoriaeth. Ar bwynt perthnasol, eleni fe wnaethom ymgysylltu mwy â Phwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC a dechrau mynychu rhai o'i gyfarfodydd. Rydym yn cael diweddariadau rheolaidd gan dîm golygyddol y BBC yn y maes hwn erbyn hyn.
- Cystadleuaeth: fe wnaethom ddiweddaru ein canllawiau a'n gofynion yn ymwneud â **Gweithgareddau Masnachol a Phrynu a Gwerthu'r BBC**. Rydym hefyd ym monitro a ellir cyfiawnhau unrhyw newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, a all gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth, yng ngoleuni'r gwerth posibl i'r cyhoedd. Yn 2023 fe wnaethom benderfynu y gallai'r BBC weithredu ei **gynigion ar gyfer Radio Cymru 2**.

**Dywedodd ein hymatebwyr yn glir hefyd eu bod am i'r BBC roi portread mwy dilys o'u bywydau go iawn, a chymryd mwy o risgiau wrth gynhyrchu cynnwys newydd ac arloesol.**

## Dyfodol gwaith rheoleiddio'r BBC

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei Hadolygiad Canol Tymor o waith rheoleiddio a llywodraethu'r BBC. Roedd hyn yn seiliedig ar adolygiad Ofcom ei hun yn 2022 a thystiolaeth ehangach ar reoleiddio'r BBC. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud **argymhellion** ar gyfer newidiadau i reoleiddio a llywodraethu'r BBC, a byddwn yn ceisio rhoi'r rhain ar waith cyn gynted â phosibl.

Yn 2023, fe wnaethom hefyd:

gyhoeddi ein **Datganiad ar Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023**, gan roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ymateb i anghenion cynulleidfaoedd;

ymgynghori ar **Fframwaith Mesur Perfformiad y BBC** a oedd wedi'i ddiweddaru, a'i gyhoeddi. Mae hyn yn nodi sut byddwn yn mesur perfformiad y BBC ac yn ei ddal i gyfrif o dan y Drwydded Weithredu newydd; a

diweddaru ein **canllawiau ar gystadleuaeth a gofynion i'r BBC**. Bydd y rhain yn annog ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y BBC a'i gystadleuwyr ynghylch newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC.

## Cefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

- Ym mis Tachwedd 2023, cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Cyfryngau i'r Senedd Brydeinig. Roedd y ddeddfwriaeth hon yn cynnig nifer o ddiwygiadau i'r ffordd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu rheoleiddio. Cafodd y Ddeddf Cyfryngau Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024.
- Mae'r newidiadau'n helpu i ddosbarthu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus drwy lwyfannau digidol, gan sicrhau ei fod ar gael ac yn amlwg ar-lein. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnig diwygiadau i reoleiddio gwasanaethau radio daearol a ffrydiau radio ar-lein.
- Bydd rhai gwasanaethau ffrydio, a elwir hefyd yn wasanaethau fideo ar-alw, yn cael eu rheoleiddio'n fwy tebyg i sianeli teledu traddodiadol. Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion hygyrchedd ar wasanaethau fideo ar-alw ac mae angen Cod fideo ar-alw newydd ar safonau sy'n debyg i God Darlledu Ofcom.

Ym mis Chwefror, fe wnaethom gyhoeddi map ar gyfer sut a phryd y byddem yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Rydym yn parhau i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio presennol yn gweithio mor effeithiol â phosibl, gan sicrhau bod yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni eu cylch gwaith a rhwymedigaethau eu trwydded. Rydym hefyd wedi edrych ar sut mae'r farchnad yn gyffredinol yn gwasanaethu buddiannau plant.

## Dyfodol dosbarthu teledu

Ym mis Mawrth fe wnaethom lansio **cais am dystiolaeth** ac adrodd ar ddyfodol dosbarthu teledu, gan edrych ar newidiadau tymor hir o ran sut mae teledu a sain yn cael ei ddosbarthu drwy lwyfannau darlledu a dros y rhyngrwyd. Gwnaethom hefyd rywfaint o waith cychwynnol i ystyried rôl llwyfannau teledu cysylltiedig, seinyddion clyfar a chynorthwywyr digidol fel cyfryngwyr rhwng darparwyr cynnwys a chynulleidfaoedd, gan ystyried eu heffaith bosibl ar gystadleuaeth a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Mae'r gwaith hwn yn parhau, gan ganolbwyntio nawr ar lwyfannau teledu wedi'u cysylltu.

## Adolygiad o gyfryngau lleol

Rydym yn cynnal adolygiad eang o'r farchnad cyfryngau lleol yn y DU, gan ymdrin â phrint, radio, teledu, ac ar-lein. Fel rhan o'n hadolygiad, byddwn yn ystyried y newidiadau diweddar y mae'r BBC wedi'u gwneud i wasanaethau radio lleol.

## Channel 3, Channel 4 a Channel 5

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol – ITV, STV, Channel 4, S4C a Channel 5 – yn chwarae rôl bwysig yn nhirwedd cyfryngau'r DU. Bydd trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol Channel 3 a Channel 5 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adnewyddu'r trwyddedau hyn ar gyfer cyfnod deng-mlynedd nesaf y drwydded (hyd at 31 Rhagfyr 2034).

Yn ein **hymateb blynyddol** i gynlluniau a dyletswyddau cynnwys cyfryngau Channel 4 am y flwyddyn i ddod, fe welsom fod y darlledwr wedi llwyddo i gyflawni ei gylch gorchwyl a'i ddyletswyddau. Fe wnaethom ddatgan y dylai osod ei gynlluniau tymor hwy wrth iddo symud i fod yn ddarlledwr digidol-yn-gyntaf.

Mae trwydded Channel 4 yn dirwyn i ben hefyd ar 31 Rhagfyr 2024. Ym mis Rhagfyr fe wnaethom ymgynghori ar **adnewyddu trwydded Channel 4**, gan gynnwys newidiadau i amodau'r drwydded i gefnogi'r newid hwnnw i ddigidol-yn-gyntaf. Fe wnaethom lansio ymgynghoriad pellach ar hyn ym mis Gorffennaf, a fydd yn dod i ben ym mis Awst. Byddwn yn cwblhau'r newidiadau ac yn adnewyddu eu trwydded cyn i'w telerau presennol ddod i ben.

# Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

**Rydym yn gosod ac yn gorfodi safonau ar deledu, radio a rhai gwasanaethau ar-alw. Drwy ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol a chynnal didueddrwydd dyladwy, rydym yn cynnal ymddiriedaeth yn ein cyfryngau darlledu ac yn sicrhau safonau uchel i wylwyr a gwrandawyr.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom barhau i ddiogelu safonau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau teledu, radio ac ar-alw. Eleni, gwnaethom asesu 69,807 o gwynion (9,957 o achosion), cwblhau 48 o ymchwiliadau a chanfod 39 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu.
- Wrth i ni baratoi ar gyfer pwerau newydd posibl i reoleiddio gwasanaethau ffrydio, fe wnaethom gomisiynu ymchwil newydd i'n helpu i ddeall disgwyliadau pobl o'r llwyfannau hyn. Fe wnaethom hefyd edrych ar agweddau esblygol gwylwyr at ryw a thrais ar y teledu.
- Fe wnaethom ddiweddaru ein pecyn cymorth casglu data ar gyfer darlledwyr i fesur tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad, gan gynnwys model newydd ar gyfer casglu data a chanllawiau newydd i ddarlledwyr ar ehangu eu gweithlu.

### Pam mae hyn yn bwysig

- Dylai cynulleidfaoedd gael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol ar y teledu a'r radio. Dylen nhw allu ymddiried yn yr hyn maen nhw'n ei weld a'i glywed, a theimlo eu bod yn gallu cwyno wrthym am rywbeth ar y teledu neu'r radio sy'n peri pryder iddyn nhw. Rydym yn asesu pob cwyn a dderbyniwn ac yn ymchwilio pan fydd pethau wedi mynd o chwith. Rydym bob tro yn ystyried rhyddid mynegiant.
- Mae mwy a mwy o bobl yn symud i ffwrdd oddi wrth deledu wedi'i amserlennu i wasanaethau ffrydio. Byddai cyfreithiau newydd arfaethedig yn rhoi pwerau i Ofcom ddal y gwasanaethau hyn i safonau tebyg y mae pobl yn eu disgwyl gan deledu traddodiadol. Ac mae ymchwil Ofcom yn helpu i sicrhau bod ein rheolau'n adlewyrchu anghenion a disgwyliadau newidiol y gwylwyr.
- Mae Ofcom yn helpu'r diwydiant darlledu i ymestyn cyfleoedd swyddi i bobl dalentog o'r ystod ehangaf bosibl o gefndiroedd. Nid mater o degwch yn unig yw hyn, mae hefyd yn ymwneud â chreu rhaglenni sy'n adlewyrchu profiadau amrywiol bywyd modern.



# Ein gwaith eleni

## Cynnal safonau ar deledu a radio

Rydym yn parhau i osod a gorfodi safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio sy'n cael ei ddarlledu, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Cod Darlledu. Mae'r llyfr rheolau manwl hwn yn cynnwys yr holl sianeli 'llinol' sydd wedi'u hamserlennu sy'n darlledu o'r DU.

Rydym hefyd yn gwneud yn siŵr bod darparwyr fideo ar-alw yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol mwy cyfyngedig ynghylch cynnwys niweidiol. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu darlledu (a elwir yn aml yn wasanaethau 'dal i fyny', fel ITVX a My5), a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (a elwir fel arfer yn wasanaethau 'ffrydio', fel Amazon Prime Video).

Bydd y Ddeddf Cyfryngau yn rhoi pwerau i Ofcom ddrafftio a gorfodi Cod Fideo ar Alw newydd, sy'n debyg i'r Cod Darlledu ond wedi'i lunio i gynnal safonau ar gynnwys dal i fyny a ffrydio. Byddai hyn yn arwain at set fwy cyson o reoliadau ar draws y gwahanol wasanaethau y mae pobl nawr yn eu defnyddio i wylio'r teledu.

Mae gan ddarlledwyr hawl i drosglwyddo gwybodaeth, barn a syniadau, ac mae gan wylwyr a gwrandawyr hawl i'w derbyn heb ymyrraeth ddiangen. Yn ein holl waith safonau, mae Ofcom yn rhoi ystyriaeth lawn i ryddid mynegiant.

Eleni, fe wnaethom asesu 69,807 o gwynion (9,960 o achosion), cwblhau 48 o ymchwiliadau, a chanfod 39 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu.

Roedd ychydig dros un o bob deg o'r cwynion a gafodd Ofcom eleni yn ymwneud â'r sylw i'r gwrthdaro yn Israel a Gaza. Rydym yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu uniondeb rhaglenni newyddion a materion cyfoes sy'n cael eu darlledu, drwy gynnal safonau didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni o'r fath a chywirdeb dyladwy mewn newyddion. Ac felly, rhoddodd Tîm Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd Ofcom flaenoriaeth i gwynion am y cynnwys hwn ar amrywiaeth o sianeli. Yn dilyn y cwynion yn ymwneud â'r gwrthdaro cafodd 1,442 o achosion eu hasesu yn ystod trydydd a phedwerydd chwarter y flwyddyn, sef ychydig o dan bymtheg y cant o'r holl achosion a aseswyd. Ar ôl ystyried pob achos yn ofalus, daeth Ofcom i'r casgliad nad oedd yr un ohonyn nhw'n cyfiawnhau ymchwiliad pellach o dan y Cod Darlledu.

Fe wnaethom hefyd gomisiynu dau ddarn pwysig o ymchwil cynulleidfa, a chyhoeddwyd y ddau ym mis Hydref. Roedd yr un gyntaf yn edrych ar **agweddau gwylwyr teledu at drais a chynnwys rhywiol**, gan ganolbwyntio ar yr angen i amddiffyn plant a chynnal y safonau a dderbynnir yn gyffredinol ar ddeunydd sy'n tramgwyddo. Dywedodd gwylwyr wrthym fod y portread o ryw mewn rhaglenni wedi gwella a'i foderneiddio, ond ei bod yn ymddangos bod lefelau trais ar y teledu wedi cynyddu a dwysáu.

Roedd yr ail adroddiad yn canolbwyntio ar **ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o wasanaethau llinol ac ar-alw**. Roeddem am ddeall a yw gwylwyr yn disgwyl safonau gwahanol ar draws gwasanaethau teledu llinol traddodiadol, gwasanaethau dal i fyny a gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifio. Gwelsom fod gan wylwyr ddisgwyliadau tebyg o ran teledu llinol a dal i fyny, ond eu bod yn teimlo llai o angen am fesurau diogelu ar lwyfannau ffrydio.

## Rheoleiddio hysbysebion

Wrth i ddarlledwyr wynebu pwysau cynyddol o ran cystadleuaeth, fe wnaethom edrych ar a ddylid diwygio ein rheolau ar uchafswm hyd yr egwyliau ar gyfer hysbysebion ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus. Ym mis Ebrill, fe wnaethom ymgynghori ar y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (COSTA), sy'n ymwneud â'r maes hwn. Yn ein **hymgynghoriad a'n datganiad dilynol**, fe wnaethom benderfynu peidio â newid y rheolau nawr, ond fe wnaethom ddweud y byddem yn adolygu ein sefyllfa ochr yn ochr â newidiadau eraill i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf.

Fe wnaethom barhau â'r paratoadau ar gyfer y cyfyngiadau cyfreithiol newydd ar hysbysebu cynnyrch bwyd a diod llai iach a ddaw i rym ym mis Hydref 2025. Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i hysbysebion teledu, ar-alw ac ar-lein. Fe wnaethom nodi **sut byddem yn gweithredu'r** cyfyngiadau, gan gynnwys **dynodi'r** Awdurdod Safonau Hysbysebu yn gyd-reoleiddiwr ar gyfer darpariaeth ar-lein. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch ei Rhaglen Hysbysebu Ar-lein, gan ddefnyddio ein profiad o reoleiddio ar draws gwahanol gyfryngau.

# Yn y cyfnod dan sylw, derbyniwyd cyfanswm o

# 69,807

# o gwynion.



Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o'r un cyfnod yn 2022-2023 pan dderbyniwyd 36,908 o gwynion.

## Amrywiaeth mewn darlledu

Mae gan deledu a radio y pŵer i siapio a chynrychioli hunaniaeth a gwerthoedd ein gwledydd. Er mwyn cyflawni hynny, rhaid i ddarlledwyr adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw. Ond mae nifer o grwpiau – fel pobl anabl, a'r rheini o gefndiroedd dosbarth gweithiol neu leiafrifoedd ethnig – yn dal yn ei chael hi'n anoddach ymuno â'r diwydiant a symud ymlaen yn y diwydiant.

Mae Ofcom yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau cyfle cyfartal ym maes darlledu. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi **adroddiad wedi'i ddiweddaru a'i ddiwygio ar ddata amrywiaeth** ar weithluoedd yn y sectorau, gan adrodd am y tro cyntaf fesul ardal ddaearyddol. Fe wnaethom dynnu sylw at yr angen i gwmnïau teledu a radio barhau i ganolbwyntio ar gasglu data, a'r angen i uwch arweinwyr sicrhau newid – gan gynnwys ehangu cyfleoedd ar lefelau uwch reolwyr.

## Cefnogi cynhyrchu ledled y DU

Rydym yn gorfodi rheolau i sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn gallu cael gafael ar gynnwys gwreiddiol, gwasanaeth cyhoeddus, o'r DU gan gyfuniad da o gwmnïau cyhoeddus a chwmnïau masnachol, cynhyrchwyr annibynnol ac integredig. Ym mis Awst, fe wnaethom gyflwyno'r darlun diweddaraf o'r diwydiant a rhai o'r cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu hwynebu dros y degawd nesaf. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod Ofcom mewn sefyllfa dda o hyd i gefnogi economi greadigol ffyniannus yn y DU a deall effaith ehangach ein penderfyniadau yn y dyfodol.

## Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio

Gall gwrandawyr radio fwynhau mwy o ddewis nag erioed, diolch i DAB ar raddfa fach — technoleg arloesol, a ddatblygwyd yn Ofcom, sy'n cynnig ffordd rad i orsafoedd masnachol, cymunedol ac arbenigol lleol ddarlledu ar radio digidol daearol i ardal fach. Eleni, fe wnaethom drwyddedu amlblecsau DAB newydd sy'n darparu gwasanaethau ledled gwledydd y DU, ac adnewyddu trwyddedau ar gyfer yr amlblecsau sy'n darparu gorsafoedd DAB lleol. Ers i ni ddechrau'r rhaglen drwyddedu hon yn 2021, mae 55 o wasanaethau amlblecs DAB ar raddfa fach wedi cael eu lansio, pob un yn darparu 10-11 o orsafoedd radio ar gyfartaledd. Mae'r rhain yn wasanaethau unigryw, dim cyd-ddarllediadau o sianeli FM neu AM.

Eleni hefyd, fe wnaethom barhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ei **hymgynghoriad** ar ddyfodol y sector teledu lleol, a'i **hymgynghoriad** ar reoleiddio amserlenni rhaglenni electronig ychwanegol.

## Sicrhau bod teledu ar gael i bawb

Mae angen i bobl sy'n fyddar, sy'n colli eu clyw, sy'n ddall neu sy'n rhannol ddall allu cael gafael ar raglenni teledu sydd ar gael i bawb a'u mwynhau. Dyna pam mae darlledwyr yn cyflenwi 'gwasanaethau mynediad', fel isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.

Fe wnaethom barhau i orfodi gofynion sylfaenol ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno rheolau ychwanegol. Ym mis Mawrth, fe wnaethom ddiweddaru ein **canllawiau arferion gorau** mewn perthynas â hygyrchedd, gan gynnwys canllawiau sy'n benodol i wasanaethau ar-alw. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein **hadroddiad blynyddol** ar hygyrchedd amserlenni rhaglenni electronig, gan ystyried sut mae ymddygiad cynulleidfaoedd yn newid, a thynnu sylw at gynnydd y rhan fwyaf o ddarparwyr EPG o ran cynnig nodweddion hygyrchedd.

# Y prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

**Mae rheoli risg yn effeithiol wrth galon cenhadaeth Ofcom, ac mae'n elfen allweddol o gyflawni ein hamcanion. Yn yr adran hon yn ein Hadroddiad Blynyddol, rydym yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r chwe phrif risg sy'n wynebu ein sefydliad a'r strategaethau a ddefnyddir i fynd i'r afael â nhw.**

Mae ein hymrwymiad i ddulliau llywodraethu risg cadarn yn sicrhau bod gennym agwedd ragweithiol wrth nodi bygythiadau posibl, defnyddio rheolaethau priodol, a monitro ein tirwedd risg i addasu'n gyflym i heriau sy'n dod i'r amlwg. Drwy wreiddio egwyddorion rheoli risg yn ein prosesau gwneud penderfyniadau a meithrin diwylliant o atebolrwydd a thryloywder, rydym yn ymdrechu i wella hyder rhanddeiliaid yn ein gallu i lywio drwy sefyllfaoedd o ansicrwydd yn effeithiol.

## Y prif risgiau yn fanwl

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau ac wedi ail-lunio ein cofrestr risg strategol. Mae hyn wedi arwain at nodi chwe phrif risg. Mae'r tablau canlynol yn amlinellu ein chwe risg strategol yn fwy manwl, gan gynnwys disgrifiad o'r risg a chrynodeb o'r asesiad risg a sut mae ei reoli.

| Risg | Disgrifiad | Crynodeb o'r Asesiad Risg a Rheoli |
|---|---|---|
| **1** **Rheoli ein Hamgylchedd Rheoleiddio** | Gall methu â rhagweld, dylanwadu neu baratoi ar gyfer newidiadau yn y cylch gwaith rheoleiddio, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, maint yr amcanion rheoleiddio newydd, neu sicrhau'r ffordd orau o addasu i newidiadau yn y ffordd y mae ein sectorau'n gweithredu, arwain at gostau sylweddol, oedi, neu hyd yn oed anallu i gyflawni amcanion rheoleiddiol a sefydliadol yn effeithiol. | Drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Llywodraeth, rheoleiddwyr eraill, y Diwydiant ac ymgysylltu â defnyddwyr/dinasyddion, yng ngwledydd y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gallwn fod yn well o ran gallu rhagweld, dylanwadu a pharatoi ar gyfer unrhyw newidiadau. Mae ein strategaeth gorfforaethol a'n rheolaethau llywodraethu yn sicrhau ein bod yn rheoli'r risg hon yn effeithiol. Er mwyn parhau i lwyddo, mae gofyn ein bod yn wybodus, yn hyblyg, ac yn ymatebol, oherwydd hyd yn oed gyda fframwaith rheoli effeithiol iawn, mae potensial y risg hon yn dal yn bosibl a bydd angen ei monitro a'i rheoli'n ofalus |
| **2** **Rheoleiddiwr Dibynadwy** | Colli ymddiriedaeth yn Ofcom fel rheoleiddiwr o ganlyniad i fethiannau i wneud, neu gael ei weld ei fod yn gwneud, penderfyniadau annibynnol, diduedd, amserol, effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er budd dinasyddion a defnyddwyr y DU, a ccc y DU yn ehangach. | Mae ymddiriedaeth yn Ofcom yn ganolog i'n gallu i weithredu'n effeithiol er budd dinasyddion a defnyddwyr. Yng ngoleuni hyn, mae gennym fesurau rheoli cadarn ar waith ar gyfer pobl, prosiectau a llywodraethu i sicrhau bod gan Ofcom y sgiliau a'r arbenigedd i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, i gyfleu'r hyn rydym yn ei wneud yn dryloyw ac yn glir i'n rhanddeiliaid, ac i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r hyn y mae ein rhanddeiliaid yn ei ddweud wrthym sy'n bwysig iddyn nhw yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. |

| Risg | Disgrifiad | Crynodeb o'r Asesiad Risg a Rheoli |
|---|---|---|
| **3** **Ymateb i newidiadau mewn Technoleg, Marchnadoedd ac Ymddygiad Defnyddwyr** | Methiant i fonitro, deall a gweithredu ar newidiadau technolegol cyflym, annisgwyl sy'n tarfu neu dueddiadau a datblygiadau yn y diwydiant yn y dyfodol sy'n effeithio ar ymddygiad y diwydiant neu ddefnyddwyr. Gallai hyn gyfyngu ar ein gallu i weithredu'n rhagweithiol mewn marchnadoedd cyfathrebiadau, gan arwain at heriau o ran diogelu defnyddwyr, llai o fanteision i ddefnyddwyr a dinasyddion, neu lai o arloesi. | Mae ein sectorau'n symud yn gyflym ac yn cael eu sbarduno gan newidiadau mewn buddsoddiad mewn technoleg, arloesi ac ymddygiad defnyddwyr. Mae natur y newidiadau hyn yn ansicr ac yn tarfu, ac mae eu rhagweld yn heriol yn eu hanfod. Mae ein mesurau rheoli presennol yn cynnwys buddsoddi mewn dulliau sganio'r gorwel, dadansoddi tueddiadau, monitro ymddygiad defnyddwyr yn rhagweithiol ac ymgysylltu allanol, yn enwedig er mwyn bod yn ymwybodol o newidiadau mewn technoleg. |
| **4** **Rheolaeth Ariannol Gadarn** | Gall methu â rheoli ein harian a'n materion ariannol yn effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio arwain at ansefydlogrwydd ariannol, gan beryglu ein heffeithiolrwydd a'n henw da. | Mae cynllunio ariannol a rheolaeth ariannol effeithiol yn hanfodol i lwyddiant Ofcom, ac mae hyn yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion a darparu gwerth am arian a rhoi hyder i'n rhanddeiliaid. Mae mesurau rheoli ariannol cadarn ar waith, ac rydym yn parhau i gryfhau ein cynllunio ariannol. |
| **5** **Pobl a Diwylliant** | Gallai methu â gweithredu strategaeth pobl sy'n galluogi Ofcom i ddenu, cymell, datblygu, a chadw talent ragorol gyfyngu'n sylweddol ar ein gallu i gyflawni ein cenhadaeth a'n strategaeth. | Mae'r risg hon yn ystyried newidiadau yn yr amgylchedd allanol a allai effeithio ar ddenu a chadw talent. Rydym yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol heriol ar gyfer sgiliau allweddol mewn meysydd seiber, technoleg, TGCh, a Data a Deallusrwydd Artiffisial. Mae'r rhain yn cael sylw drwy ein strategaethau talent ac adnoddau a chynllunio gweithlu strategol. |
| **6** **Gwybodaeth a Seiberddiogelwch** | Gall methu â chynnal trefniadau gwybodaeth a seiberddiogelwch effeithiol sy'n diogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd ein data a'n systemau arwain at ddigwyddiadau maleisus a/neu ddamweiniol yn ymwneud â data, mynediad heb awdurdod at systemau, tarfu ar weithrediadau, a cholli ymddiriedaeth yn ein gallu i ddiogelu gwybodaeth sensitif. | Mae lefel hanfodol sylweddol o risg yn datblygu yn y maes hwn, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn trefniadau gwybodaeth a seiberddiogelwch i ddiogelu Ofcom. Mae mesurau a dulliau rheoli diogelwch TGCh cadarn, gan gynnwys achrediad ISO 27001, monitro parhaus a gwybodaeth am fygythiadau, a hyfforddiant cynhwysfawr ar ymwybyddiaeth ynghylch diogelwch gwybodaeth ar waith i sicrhau ein bod yn cael ein diogelu'n dda ac yn gallu ymateb ac adfer yn gyflym ar ôl bygythiadau. |

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

### Gwaith yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

Wrth gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni ystyried yr holl wahanol wledydd, rhanbarthau, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.

Bydd ein swyddfeydd yn Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Llundain, Warrington a Manceinion yn rhoi cyfle i ni ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol, a sicrhau ein bod yn ystyried safbwyntiau, buddiannau ac anghenion pobl ledled y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae gennym Bwyllgorau Cynghori statudol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac aelodau Bwrdd ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a benodir gan Lywodraethau Cymru a'r Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn y drefn honno, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y DU. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Er bod llawer o'n gwaith yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, rydym wedi tynnu sylw at waith penodol a wnaed ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig dros y flwyddyn diwethaf.



## Gogledd Iwerddon

- Gyda'r Llywodraeth Ddatganoledig yn dychwelyd ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom symud yn gyflym i adeiladu ar ein cysylltiadau yn Stormont, yn unol â'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, y Cynulliad a Llywodraeth y DU.
- Fe wnaethom barhau i weithio gyda rhanddeiliaid i helpu i ddarparu gwell darpariaeth 4G a 5G ar draws Gogledd Iwerddon drwy ein rôl yng ngweithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Gogledd Iwerddon a Thasglu Chwalu Rhwystrau Cynllun Gweithredu Symudol newydd Llywodraeth Gogledd Iwerddon.
- Fe wnaethom arwain y gwaith ymgysylltu yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer dau ymgynghoriad cyntaf Ofcom ar ddiogelwch ar-lein, gan gyflwyno ein cynigion i wleidyddion a rhanddeiliaid perthnasol eraill mewn sectorau gan gynnwys VAWG (trais yn erbyn menywod a merched), diogelu plant, ymarferwyr gwrth-dwyll, a dioddefwyr a goroeswyr terfysgaeth.
- Fe wnaethom barhau i weithio'n agos gyda sefydliadau cyfatebol yng Ngweriniaeth Iwerddon – ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon – ar ystod o faterion yn ymwneud â thelegyfathrebiadau, sbectrwm, darlledu a diogelwch ar-lein – er budd pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon.
- Fe wnaethom gwblhau'r broses o benodi dau aelod newydd i'r Pwyllgor Cynghori, Jackie Neill a Paul Wickens. Ac fe wnaethom ymestyn tymor Cadeirydd ein Pwyllgor Cynghori, Carrie Matchett, am flwyddyn ac ail-benodi Michael Wilson i ail dymor ar y Pwyllgor.



## Yr Alban

- Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr Alban drwy gydol y llynedd ar faterion allweddol. Er enghraifft, rydym yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol yr Alban (gan gynnwys drwy fynychu rhwydwaith awdurdodau lleol 'Pwynt Cyswllt Unigol Digidol' Llywodraeth yr Alban) i drafod cysylltedd digidol, cadernid rhwydwaith, diffodd 2G/3G a PSTN.
- Fe wnaethom ymgysylltu â Scottish Futures Trust drwy archwilio'r defnydd o dechnoleg ddi-wifr a mapio'r ddarpariaeth a Chanolfan 5G yr Alban ar sbectrwm mynediad a rennir. Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gyflwyno yng nghynhadledd Digital Scotland ar dechnoleg lloeren a'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio sbectrwm gofod.
- Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â BBC Scotland, Channel 4, MG ALBA ac STV i drafod pynciau darlledu sy'n benodol i'r Alban. Mae ein Pwyllgor Cynghori ar gyfer yr Alban wedi cael cyflwyniadau gan BBC Scotland, Channel 4 ac MG ALBA yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Fe wnaethom gynnal y sioe deithiol Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) yn Dundee ym mis Mehefin 2023 i drafod y cysylltiad rhwng chwarae gemau ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom gyflwyno dyletswyddau diogelwch ar-lein newydd Ofcom yn Wythnos Gemau'r Alban.
- Fe wnaethom gwblhau'r broses o ailbenodi Rhoda Macdonald i Fwrdd MG ALBA ym mis Rhagfyr 2023. Fe wnaethom hefyd benodi dau aelod newydd i Bwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban, Cameron Spiers a Caroline Di Stefano.

## Cymru

- Rydym wedi cwblhau ein hadolygiad o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig yn ymrwymo Ofcom i gwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru ddechrau'r hydref i drafod blaenoriaethau strategol perthnasol pob sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Ar ôl rhoi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith, rydym wedi ceisio datblygu cysylltiadau newydd â sefydliadau perthnasol, gan gynnwys tîm Cadernid Digidol mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Yng Nghynadleddau Cadw'n Ddiogel Ar-lein Llywodraeth Cymru yn Llandudno a Chaerdydd, fe wnaethom gyflwyno ar ddyletswyddau a dull gweithredu newydd Ofcom, ac rydym wedi ymuno â'i Symposiwm Cadernid Digidol a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2023. Fe wnaethom hefyd gynnal sesiwn briffio ar y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'n gwaith ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Fe wnaethom ymgysylltu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i drafod materion a blaenoriaethau yng Nghymru. Mae BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales, S4C a Channel Four i gyd yn edrych ymlaen at weld Bil Cyfryngau'r Llywodraeth yn cael ei basio, a fydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i'w gwasanaethau ar lwyfannau digidol. Yn dilyn prawf budd y cyhoedd, cafodd cynnig BBC Cymru Wales i ehangu ei wasanaeth Radio Cymru 2 ei gymeradwyo a'i lansio wedyn.
- Rydym wedi parhau i adolygu ein harferion a'n gweithdrefnau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, gan gynnwys ein darpariaeth o wasanaethau i'r rheini mae'n well ganddyn nhw gyfathrebu â ni yn Gymraeg.
- Buom yn gweithio â Llywodraeth Cymru i benodi Syr Clive Jones CBE yn Aelod o'r Bwrdd ar gyfer Cymru. Fe wnaethom benodi Rachel Burr fel Aelod ar gyfer Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl. Fe wnaethom hefyd benodi tri aelod newydd i'r Pwyllgor Cynghori, Karen Lewis, Amanda Rees, a Geraint Strello.

## Lloegr

- Wrth i'r Llywodraeth ddatganoli mwy o bwerau i arweinwyr sydd wedi'u hethol yn uniongyrchol ledled Lloegr drwy gytundebau datganoli ychwanegol a 'manylach', rydym wedi cymryd camau i ymgysylltu'n agosach ag Awdurdodau Cyfun a'u timau arwain.
- Fe wnaethom ddarparu cymorth ar gyfer cydymffurfio ac ar gyfer peirianneg sbectrwm mewn digwyddiadau mor amrywiol â Choroni'r Brenin a Chyngerdd Windsor, yn Llundain, a'r Uwchgynhadledd Diogelwch Deallusrwydd Artiffisial ym Mharc Bletchley ac Eurovision yn Lerpwl. Bu peirianwyr sbectrwm yn helpu defnyddwyr sbectrwm pwysig i ddefnyddio eu hoffer heb fawr o broblemau, ac i ganfod a delio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio.
- Fe wnaeth y Pwyllgor Cynghori ar gyfer Lloegr barhau i ymgysylltu â materion amrywiaeth, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n agored i niwed, yn enwedig ynghylch tariffiau cymdeithasol, y newid i brotocol llais dros y rhyngrwyd, a diffodd 2G a 3G, a chysylltedd ar gyfer cymunedau gwledig.
- Cyfarfu'r pwyllgor â Channel 4 a thrafod y cynnydd o ran ei dargedau cynhyrchu y tu allan i Lundain. Fe wnaeth ymgysylltu â Deloitte ar ei arolwg Tueddiadau Defnyddwyr Digidol a gyda TechUK ar ei safbwyntiau ar y sector telegyfathrebiadau. Cynhaliodd y Pwyllgor un o'i gyfarfodydd yn Bradford, lle cyfarfu â myfyrwyr Astudiaethau Cyfryngau o Brifysgol Bradford a gwrando ar eu barn am ragolygon gyrfaoedd yn y sector cyfryngau i bobl ifanc yng ngogledd Lloegr. Bu hefyd yn ymgysylltu â chynrychiolydd o sector creadigol Bradford.
- Fe wnaethom gwblhau'r broses o benodi tri aelod newydd i'r Pwyllgor Cynghori, Edleen John, Grant Davis a Mauro Mortali.



# Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

**Mae ymgysylltu rhyngwladol yn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn y Deyrnas Unedig.**

Mae ein meysydd cyfrifoldeb yn fyd-eang ac yn gyd-ddibynnol, ac felly mae'n rhaid i ni gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid rhyngwladol ar draws ein sectorau sydd wedi'u rheoleiddio (gan gynnwys rheoleiddwyr rhyngwladol, diwydiant, cymdeithas sifil a'r byd academaidd) i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr yn y DU. Rydym yn defnyddio ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol i ddod â gwybodaeth i lywio sut rydym yn dylunio ac yn gweithredu rheoliadau yn y DU ac fel rhan o'n gweithgarwch sganio'r gorwel. Rydym hefyd yn rhannu ein harbenigedd â phartneriaid rhyngwladol ac yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiadau rheoleiddiol yn y sectorau sy'n bwysig i ni. Mae'r cydweithrediad rheoleiddiol hwn yn helpu i greu cyd-ddealltwriaeth o'r adnoddau sydd ar gael i reoleiddwyr a, lle bo hynny'n bosibl, osgoi gwahaniaethau diangen rhwng trefniadau rheoleiddio tebyg yn y DU a thramor.

## Yn Ewrop a thu hwnt

Ar draws ein sectorau, o ran y farchnad a rheoleiddio, rydym yn wynebu tueddiadau a heriau tebyg i lawer o'r sefydliadau cyfatebol, yn enwedig o ran rheoleiddio llwyfannau digidol. Mae ymgysylltu â phartneriaid yn yr UE yn dal yn rhan bwysig o'n gwaith rhyngwladol, yn enwedig lle mae ein pwerau'n deillio'n wreiddiol o ddeddfwriaeth yr UE.

Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn deialogau rheoleiddio ar lefel Ewropeaidd, gan gynnwys drwy ein haelodaeth o'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol, sy'n grŵp o 37 awdurdod rheoleiddio cyfathrebiadau Ewropeaidd, a Llwyfan Ewropeaidd yr Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA) sef rhwydwaith o 55 o reoleiddwyr cyfryngau Ewropeaidd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Gweithgor Rhyngwladol ar Ddilysu Oedran gyda chymheiriaid Ewropeaidd i helpu i sicrhau bod rheolau yn cael eu rhoi ar waith yn gyson sy'n mynnu bod llwyfannau rhannu fideos yn diogelu pobl ifanc dan oed rhag cynnwys cyfyngedig ar y gwasanaethau hyn.

Hefyd, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein cysylltiadau y tu hwnt i Ewrop, lle rydym wedi cael nifer o drafodaethau adeiladol gyda rheoleiddwyr a llywodraethau o bob cwr o'r byd, ar draws ein holl feysydd gwaith, gan gynnwys cydweithio ym maes rheoleiddio (lle rydym wedi rhannu ein profiad o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol), cyfrifiadura yn y cwmwl, deallusrwydd artiffisial ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymorth gan gymheiriaid, gan rannu ein harbenigedd yn rheolaidd.

O ran diogelwch ar-lein, rydym yn ymwybodol bod llawer o'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio – a'r heriau diogelwch ar-lein rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw – yn rhai byd-eang, ac na ddylem gyfyngu ein hymgysylltiad rhyngwladol i Ewrop.

Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi cael sawl ymgysylltiad ynghylch ein gwaith diogelwch ar-lein gydag ystod fyd-eang o bartneriaid, gan gynnwys gyda'r Unol Daleithiau, Awstralia, Canada, Brasil a Singapore. Bydd datblygu ac ehangu rhwydweithiau a chysylltiadau rhyngwladol cryf yn y maes rheoleiddio newydd hwn yn hanfodol i lwyddiant ein gwaith rheoleiddio yng ngwledydd y Deyrnas Unedig. Yn ystod 2024, rydym yn gwasanaethu fel Cadeirydd y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang. Mae'r rhwydwaith yn ei ail flwyddyn erbyn hyn, a'i nod yw ceisio gwella cysondeb o ran rheoleiddio diogelwch ar-lein drwy alluogi rheoleiddwyr i rannu gwybodaeth, profiadau, a datblygu arferion gorau ar y cyd. Fel Cadeirydd, rydym yn parhau i dyfu a datblygu'r Rhwydwaith.

Yn olaf, rydym yn parhau i gymryd rhan hefyd mewn rhwydweithiau a gweithgorau rheoleiddwyr rhyngwladol ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, rhai ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â chynulliadau a fforymau aml-randdeiliaid fel Fforwm Llywodraethu'r Rhyngrwyd (IGF) neu Sefydliad Cyfathrebiadau Rhyngwladol (IIC).



## Sefydliadau Rhynglywodraethol

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU), asiantaeth arbenigol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer telegyfathrebiadau a TGCH. Eleni, fe wnaethom arwain dirprwyaeth y DU i Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yr ITU (WRC23), y prif gyfarfod a gynhelir bob pedair blynedd lle penderfynir ar y rheolau byd-eang ar gyfer sbectrwm radio (gan gynnwys ar gyfer darpariaethau symudol, Wi-Fi a lloeren).

Mae Ofcom hefyd yn cynrychioli'r DU ar Gyngor llywodraethu'r ITU. Cafodd y DU ei hethol i'r Cyngor hwn yn 2022 am y tro cyntaf ers 20 mlynedd, a bydd Ofcom yn arwain dirprwyaeth y DU i Gynulliad Safoni Telegyfathrebiadau'r Byd (WTSA) yr ITU ddiwedd 2024.

Mae Ofcom yn parhau i ddal sawl rôl arwain yng Nghynhadledd Ewropeaidd y Gweinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT), sy'n gyfrifol am ddatblygu rolau Ewropeaidd ar gyfer negodiadau ITU. Mae'r rhain yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (ECC), y grŵp sbectrwm ar y lefel uchaf yn CEPT, Cadeirydd Grŵp Paratoi Cynhadledd (CPG) ar gyfer cylch Astudiaeth nesaf WRC27, ac Is-gadeirydd Com-ITU, Pwyllgor Polisi'r ITU.

Rydym hefyd yn cefnogi Llywodraeth y DU yn yr Undeb Post Cyffredinol (UPU), y corff rhynglywodraethol sy'n rheoli prisiau post rhyngwladol rhwng Darparwyr Gwasanaeth Post Cyffredinol, ac yn gweithio'n agos â chyd-weinidogion a rheoleiddwyr post rhyngwladol, gan gynnwys yn y Pwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Post Ewropeaidd.

Yn olaf, mae Ofcom yn parhau i gymryd rhan yng ngwaith datblygu polisi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan eistedd ar y Pwyllgor Seilwaith a Gwasanaethau Cyfathrebu (CSI) ac yn cymryd rhan yng ngwaith y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Economaidd (NER) a'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio (RPC), yn ogystal â chymryd rhan yn y cynllun Rheoleiddio Gwell yn yr Oes Ddigidol (BRIDGE).



# Ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill

## Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall buddiannau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth, gan helpu i lywio ein gwaith a rhoi gwybodaeth i ni am dueddiadau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu, ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Yn benodol, mae Ein Gwlad Ar-lein, Cyfryngau'r Genedl, Cysylltu'r Gwledydd, Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt, Defnydd Plant o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt – pob un ohonyn nhw'n adroddiadau blynyddol – yn tynnu sylw at y tueddiadau hyn ac yn eu dadansoddi.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom 58,316 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost, a llythyrau yn uniongyrchol gan aelodau o'r cyhoedd yn 2023/24. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan ddefnyddwyr yn ein helpu ni i lywio ein gwaith o lunio polisïau a gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Fodd bynnag, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y Deyrnas Unedig yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y Deyrnas Unedig. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom.

## Diwydiant a'r Llywodraeth

Mae Ofcom yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig, Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, ac rydym yn gweithio gydag amryw o gyrff rheoleiddio a sefydliadau rhyngwladol.

## Cyd-reoleiddwyr

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alw. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, gall yr ASA gyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm (PRS), sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA) sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom, drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn er mwyn trosglwyddo ei ddyletswyddau i Ofcom o bosibl. Disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Hydref 2024 ac mae'n ddibynnol ar gymeradwyaeth bellach gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

Mae gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth benodol i ddiogelu defnyddwyr, ac o fewn fframwaith cyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i sicrhau bod dulliau gweithredu cyson a chydgysylltiedig yn cael eu defnyddio mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol, ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

# Egwyddorion rheoleiddio Ofcom

## Pryd rydym yn rheoleiddio

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd, ond yn barod i ymyrryd yn syth ac yn effeithiol os bydd angen.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd pan fo dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at nod na all marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

## Sut rydym yn rheoleiddio

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol i gyflawni ei amcanion.
- Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol, ac yn dryloyw o ran ystyriaeth a chanlyniad.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, gydag amcanion penodedig.

## Sut rydym yn cefnogi rheoleiddio

- Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol..
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Rheoleiddio gwell

Rydym yn credu bod ‘rheoleiddio gwell’ yn golygu sicrhau bod rheolau’n cael eu targedu’n briodol, ddim yn rhoi gormod o faich ar fusnesau, na chreu rhwystrau diangen rhag arloesi, buddsoddi a datblygu dewis a chystadleuaeth yn y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ond mae nifer y dogfennau a gyhoeddwn wedi aros yn weddol debyg. Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o’r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2023/24.

Mae golwg gyffredinol ar y prif ddatganiadau a phenderfyniadau rydym wedi’u gwneud yn ystod y flwyddyn, ar gael yn Atodiad 2.

### Ffigur 2: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2023/24

| O’r 34 Prif Ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn: | Nifer | % |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/ rheoleiddio newydd | 6 | 11% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 26 | 82% |
| Llai o reoleiddio | 0 | 2% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 2 | 4% |

## Ymgyngoriadau

Drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol. Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i’w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghori, mae angen i ni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth yma. Mae Ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgynghoriadau fesul sector.

### Ffigur 3: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2023/24

| | Cyfnod ymgynghori sydd o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori o lai na 10 wythnos |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 3 | 8 |
| Darlledu | 3 | 13 |
| Sbectrwm | 4 | 9 |
| Post | 1 | 0 |
| Y Cod Cyfathrebiadau Electronig | 0 | 7 |
| Diogelwch Ar-lein | 2 | 0 |
| Arall | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **13** | **40** |
| **% Cyfanswm** | **25%** | **75%** |
| **% Cyfanswm (22/23)** | **19%** | **81%** |

## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 2). Yn 2023/24, cafodd 100% o'n penderfyniadau eu cyhoeddi o fewn pymtheg wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi ein hasesiad o effaith gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosib ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud.

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom ddiweddaru ein canllawiau ar asesu effaith  a oedd yn ail-bwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses o lunio polisïau, a datgan ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith[2] yn y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi. Yn benodol, fe wnaethom gydnabod rôl bwysig effeithiau ansoddol wrth asesu ein penderfyniadau ac fe wnaethom ddiweddaru sut rydym yn cyflwyno ein hasesiadau effaith i randdeiliaid. Mae asesiadau effaith mwy diweddar wedi cynnwys crynodebau clir o effeithiau tebygol cynnig ac maen nhw'n cyfeirio'r darllenydd at adrannau penodol yr ymgynghoriad sy'n cynnwys dadansoddiad pellach.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r asesiadau effaith rydym wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr lawn wedi'i chyhoeddi yn Atodiad 1.

### Ffigur 4: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfath-rebiadau | 11 | 10 |
| Darlledu | 16 | 11 |
| Sbectrwm | 13 | 11 |
| Post | 1 | 1 |
| Y Cod Cyfathrebiadau Electronig | 7 | 7 |
| Diogelwch Ar-lein | 2 | 2 |
| Arall | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **53** | **43** |

Dengys Ffigur 4 fod 75% o ymgyngoriadau yn 2023/24 (2022/23: 80%) wedi cynnal asesiad effaith, a bod cyfeiriad penodol ato mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd yn ofynnol nac yn briodol cynnal asesiad effaith, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

2 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/255560/Impact-Assessment-Guidance.pdf

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

Mae gennym rwymedigaethau statudol hefyd sy'n mynnu ein bod yn ystyried yr effaith ar grwpiau penodol o bobl fel rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ein canllawiau sydd wedi'u diweddaru ar asesu effaith yn esbonio y byddwn, fel arfer, yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn cysylltiad â pholisïau a phrosesau newydd neu ddiwygiedig. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau'n deg o ran eu dyluniad, ac yn sicrhau canlyniadau cymesur i grwpiau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o'n hymgynghoriadau'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n crynhoi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol posibl rydym wedi'u nodi, yn ogystal â ffyrdd rydym yn bwriadu lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl.

Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn ystyried yr effeithiau posibl ar grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli neu sydd dan anfantais, rydym yn parhau i adolygu ein setiau data presennol a nodi lle gallai fod angen i ni gynnal ymchwil ychwanegol i edrych ar brofiadau grwpiau penodol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosesau ymgynghori mor agored a chynhwysol â phosib er mwyn i ni gasglu amrywiaeth eang o safbwyntiau, a rhoi cyfle i wahanol grwpiau rannu eu safbwyntiau cyn i ni newid dim.[3]

## Ymchwil Diogelwch Ar-lein

Er mwyn paratoi ar gyfer ein dyletswyddau diogelwch ar-lein yn 2023/24 a'u cyflawni, rydym wedi buddsoddi mewn rhaglen ymchwil gynhwysfawr ac amlddisgyblaeth, gan ddarparu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'n gwaith rheoleiddio. Mae gan Ofcom dimau amrywiol sy'n gyfrifol am waith ar ddata ac ymchwil mewn gwahanol feysydd.

a) Mae ein tîm Ymchwil a Gwybodaeth yn arwain y gwaith o ddeall profiadau ac agweddau defnyddwyr drwy gynnal ymchwil feintiol ac ansoddol ymysg defnyddwyr a defnyddio offer monitro goddefol, yn ogystal â deall y diwydiant ar-lein drwy ddadansoddi setiau data'r diwydiant.

b) Yn ein tîm Deall Ymddygiad mae gennym arbenigedd ym meysydd economeg ymddygiadol a seicoleg, yn enwedig wrth ddefnyddio hap-dreialon rheoli (RCTs) ar-lein.

c) Mae ein tîm ymchwilio i Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ymwybyddiaeth oedolion a phlant o'r cyfryngau, yn ogystal â dadansoddiad manwl o bynciau perthnasol.

d) Mae ein tîm Economeg a Dadansoddeg yn ein helpu i ddeall nodweddion busnesau ar-lein a'u cymhellion i ymddwyn mewn ffyrdd penodol, ochr yn ochr â gwerthuso effaith mesurau diogelwch gwasanaethau.

e) Mae ein timau Ymddiriedaeth a Diogelwch, Polisi Technoleg ac Arloesi Data yn darparu arbenigedd technegol wrth asesu technolegau presennol a rhai datblygol a ddefnyddir gan wasanaethau ar-lein.

Mae rhestr o'r ymchwil rydym yn ei chynnal yn ystod y flwyddyn ar gael yn Atodiad 1 ar dudalennau 152-156.

3 Hefyd, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth a chynhwysiad yn ein gwaith rheoleiddio ar gael yn ein **diweddariadau cynnydd**.



# Adolygiad Ariannol

Er bod Ofcom yn uniongyrchol atebol i'r Senedd Brydeinig, daw ein cyllid gan randdeiliaid yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio (edrychwch ar Ffigur 6 ar dudalen 53).

Dros y degawd diwethaf, mae ein ffioedd cyffredinol wedi bod yn gyson i raddau helaeth o ran arian, sy'n golygu bod cost ein gwaith rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real. Mae hybu ymwybyddiaeth o gostau a gwerth am arian yn ein holl weithgareddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Rydym wedi gorfod sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol, gan ymdopi â phwysau chwyddiant drwy arbedion, gan gynnwys lleihau ein hôl troed yn Llundain a gwneud buddsoddiadau effeithlonrwydd ym maes TGCh. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngallu Ofcom i gadw cyllidebau'n wastad ers 2015/16, ar sail debyg am debyg (gyda dim ond cynnydd chwyddiant un-tro yn 2020/21).

Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys casglu a throsglwyddo ffioedd trwyddedau a gesglir o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol gan drwyddedeion darlledu, a chodi dirwyon a chosbau ar randdeiliaid (mae'r rhain i gyd wedi'u nodi yng nghyfrifon Adran 400 ac nid ydynt yn rhan o'n cyfrifon blynyddol).

O ganlyniad i hyn, rydym yn gyfrannwr net i Drysorlys EF. Casglodd Ofcom £518.5 miliwn o ffioedd a chosbau yn 2023/24, ac rydym wedi cadw £126.7 miliwn o'r arian hwnnw i ariannu ein gwaith rheoli sbectrwm a dyletswyddau perthnasol eraill. Trosglwyddwyd y balans i Drysorlys EF a'r Cronfeydd Cyfunol.

### Perfformiad ariannol[4]

Yn 2023/24, roedd ein halldro arian parod o £184.9m 1.4% yn is na'n cap gwariant a'n cyllideb o £187.6m.

Cynyddodd ein cyllideb £6.9m o 2022/23 i 2023/24, gan adlewyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer dyletswyddau newydd, gan gynnwys Diogelwch Ar-lein (£5.4m), Deddf Diogelwch Telegyfathrebiadau (£1.0m) a Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (£0.6m) gyda gostyngiad bach i Hysbysebu Cynhyrchion sy'n Uchel mewn Siwgr Braster a Halen (£0.1m).


Roedd ein cyllideb a'n cap gwariant ar gyfer y dyletswyddau presennol yn aros yn gyson ar £131.9m.

**Ffigur 5 Dadansoddiad cyllidebol**

| | Cyllideb £m | Alldro £m | Amrywiant £m | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | 187.6 | 184.9 | 2.7 | 1.4% |
| 2022/23 | 180.7 | 176.4 | 4.3 | 2.4% |

[4] Mae alldro'r flwyddyn gyfredol a blaenorol yn yr adran hon i'w weld yn y cysoniad ar waelod Nodyn 2 ar tudalen 121.

**Alldro arian parod 2023/24 yn ôl math o wariant allweddol (£m)**




**Alldro arian parod**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Staff | £127.0 | **69%** |
| | TGCh | £20.4 | **11%** |
| | Ystâd | £14.6 | **8%** |
| | Gwasanaethau Proffesiynol ac Ymchwil | £11.4 | **6%** |
| | Recriwtio, hyfforddiant a staff dros dro | £5.0 | **3%** |
| | Teithio a Cherbydau | £4.1 | **2%** |
| | Arall | £2.4 | **1%** |

Nid yw costau sy'n ymwneud â Chlirio a Dyfarnu Sbectrwm yn dod o fewn cap gwariant a chyllideb Ofcom, ac o'r herwydd, maen nhw'n cael eu hadrodd ar wahân er mwyn gwahaniaethu rhyngddyn nhw a gweithgareddau craidd Ofcom. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar dudalen 50.

## Incwm gweithredu a gwariant

Mae incwm gweithredu o £189.0m yn 2023/24 (2022/23: £179.4m) yn cynnwys cyfrifoldebau craidd Ofcom (heb gynnwys clirio a dyfarnu sbectrwm). Gweler nodyn 3 y cyfrifon (tudalen 122) am ddadansoddiad o incwm yn ôl y sector perthnasol sy'n cael ei reoleiddio.

Roedd 69% o'r gwariant gweithredu yn ymwneud â chostau staff a gynyddodd £19.1m. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn staffio sy'n ymwneud â'n dyletswyddau newydd ym maes Diogelwch Ar-lein. Gweler nodyn 4 y cyfrifon (tudalen 123) am fanylion ynghylch cyfanswm y bobl sy'n cael eu cyflogi gan Ofcom a sut mae hyn wedi newid rhwng blynyddoedd.

Yn 2023/24, gwelwyd gostyngiad o £4.5m i £62.6m (2022/23 £67.2m) mewn mathau eraill o wariant gweithredu (ac eithrio clirio sbectrwm a dyfarnu). Gweler Nodyn 6 i'r cyfrifon am fanylion yn ymwneud â gwariant gweithredol arall.

Mae'r prif amrywiadau gweithredu ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r canlynol:

- Gwelwyd gostyngiad o £2.5m yn y gwasanaethau proffesiynol, roedd y flwyddyn flaenorol yn cynnwys gwaith un-tro yn ymwneud â pharatoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein a Strategaeth Data;
- Gwelwyd gostyngiad o £2.1m mewn costau staff dros dro a recriwtio, roedd mwy o adnoddau contractwyr yn cael eu defnyddio yn 2022/23 i baratoi ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein;
- Gwelwyd gostyngiad o £1.7m mewn costau ymchwil oherwydd gwariant ar brosiectau un-tro yn 2022/23, gan gynnwys gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau Diogelwch Ar-lein ac ymchwil sy'n ymwneud â Darlledu;
- Gwelwyd gostyngiad o £0.5m yng nghostau'r ystâd. Roedd y flwyddyn flaenorol yn cynnwys gwariant un-tro ar uwchraddio dulliau hygyrchedd ac addasu ein hystâd i gefnogi ein gweithlu mwy, yn unol â'n fframwaith gweithio cysylltiedig;
- Gwelwyd gostyngiad o £0.5m mewn treuliau eraill oherwydd gwariant trawsnewid un-tro yn 2022/23;
- Bu cynnydd o £2.6m mewn costau TGCh, wedi'i sbarduno gan fuddsoddiad mewn systemau, (gan gynnwys disodli'r system Monitro Darlledu, gwefan Ofcom, Blwch Tywod AI), a dyletswyddau newydd Diogelwch Ar-lein.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

### Adennill gormod/dim digon o'r costau

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ein dyletswyddau a chyflawni ein rhaglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a geir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol, neu leihad yn y derbynebau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) a gedwir.

Mae Nodyn 2 y cyfrifon yn Adran C yr Adroddiad Blynyddol yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredu yn ôl y sector a reoleiddir, fel y cyflwynir yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i alldro costau gweithredu terfynol Ofcom.

Mae'r incwm gohiriedig ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, ac yn dod i gyfanswm o £3.3m (2022/23 £2.9m o warged).

### Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae Ofcom yn cael incwm gan randdeiliaid a derbyniadau WTA i dalu am gostau ariannol profi'r gwasanaethau hynny heb gynnwys incwm anweithredol. Mae'r costau hyn yn cynnwys prynu asedau anghyfredol. Yn y flwyddyn gyfredol, mae costau anariannol yr asedau, gan gynnwys dibrisiant ac amorteiddiad, yn uwch nag ychwanegiadau asedau anghyfredol eleni. Mae hyn wedi cyfrannu at greu diffyg cyfrifyddu. Ond, yn y flwyddyn flaenorol, roedd yr ychwanegiadau'n uwch na'r costau anariannol a arweiniodd at warged cyfrifyddu.

Y gwarged/(diffyg) cyfrifyddu ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn, a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant, oedd diffyg o £1.1m (2022/23: £3.9m o warged).

## Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm

Mae'r holl gostau sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu sbectrwm yn cael eu cofnodi ar wahân i gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

Gwariwyd £1.2m ar glirio sbectrwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon (dim yn 2022/23). Ail-gychwynnodd y gwaith datgomisiynu Mast Dros Dro yn Emley Moor yn 2023/24 a bydd y taliadau grant cysylltiedig yn dod i ben yn 2024/25.

Ar 1 Ebrill 2023, fe wnaethom ddwyn ymlaen £1.4m o Gymorth Grant gohiriedig a ddaeth i law yn 2021/22. Cafodd hyn ei ddefnyddio i ariannu'r £1.2m o wariant clirio sbectrwm ar gyfer 2023/24, ac mae £0.2m o'r Cymorth Grant wedi cael ei ohirio eto ar ddiwedd y flwyddyn ac mae ar gael i ariannu costau clirio sbectrwm yn y dyfodol.


## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EF

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau. Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar gyfer y trafodion hyn. Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill nad oes modd iddo godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gasglwyd yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EF, yr Adran Gyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 a 1709 yn y drefn honno, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn Nodyn 24 i'r cyfrifon. Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 casglodd Ofcom £518.5m (2022/23: £1,163m) ar ran Trysorlys EF. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghyfrifon Adran 400. Cadwodd Ofcom £126.7m (2022/23: £112.1m) i ariannu rhai o'i gyfrifoldebau craidd, gan gynnwys Rheoli Sbectrwm a gwaith paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein. Trosglwyddwyd cyfanswm o £353.4m i gyfrifon y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ariannol.





## Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24

**£370m**
Taliadau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr

**£139m**
Ffioedd y Llywodraeth

**£0.3m**
Taliadau Ychwanegol

**£7m**
Cosbau Ariannol

**£1.5m**
Rhifau Daearyddol

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio. Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr pan gafodd Ofcom ei sefydlu, yr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun ar gau i newydd-ddyfodiaid, a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu cael mynediad at gynllun Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae nodiadau 1(k) ac 20 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd ar gyfer y naill gynllun a'r llall ar ddyddiad y prisiad ffurfiol diwethaf, sef 31 Mawrth 2021, a wneir pob tair blynedd, yn dangos diffyg o £0.6m mewn cyllid cyfun. Mae prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio yn dangos diffyg o £0.6m. Disgwylir i'r prisiad ffurfiol â'r dyddiad 31 Mawrth 2024 gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2025. Mae holl rwymedigaethau prisiadau cynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) wedi cael eu prynu i mewn, ac felly nid oes gwarged na diffyg.

Mae'r gwarged o £10.6m yn y cynllun pensiwn wedi'i ddiffinio a rhifau eraill y fantolen yn y cyfrifon yn cael eu paratoi o dan y Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS 19). Mae hwn yn brisiad cyfrifyddu yn hytrach na phrisiad actiwaraidd, ac mae'n cael ei baratoi ar sail wahanol. Un o'r prif wahaniaethau yw bod yr atebolrwydd yn cael ei ddisgowntio yn unol â'r arenillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, o dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad y prisiadau actiwaraidd ym mis Mawrth 2021.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol i Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac i gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Mae taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredu fel y'u cyfrifir o dan IAS19, yn cael eu cynnwys yn alldro'r gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar gyfranddeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, ac Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol. Mae cynllun prynu yn cyfeirio at bolisi yswiriant a brynir yn enw'r Ymddiriedolwr ac sy'n cael ei ddal fel ased o fewn y cynllun. Bydd Ofcom yn parhau i reoli'r broses weinyddol a'r taliadau parhaus i aelodau. Ar ben hynny, mae Ofcom yn penderfynu pa rwymedigaethau a buddion y dylid eu cynnwys yn y cynllun prynu.




## Tariffau

Cyhoeddodd Ofcom Dablau Tariff 2023/24 ar 28 Mawrth 2023. Mae cyllideb graidd Ofcom yn aros ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sef £131.9m. Cynyddwyd y cap gwariant cyffredinol ymhellach £55.7m er mwyn cynnwys gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau rheoleiddio newydd, hynny yw, Diogelwch Ar-lein a'r Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch). Roedd y gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu drwy gadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) ac nid drwy incwm rhanddeiliaid. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Nhablau Tariff 2023/24** ar ein gwefan.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 6 isod, ac eithrio costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau newydd a'r sector Telegyfathrebiadau, mae'r tariffau cyffredinol ar gyfer pob sector rheoleiddio yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd 3 blynedd.

### Ffigur 6: Golwg tair blynedd ar gyllid fesul sector




Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r gofyniad cyllido ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y siart uchod yn cynrychioli addasiadau i'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'u hymgorffori yn ein ffioedd.



**Cynyddodd ein cyllideb**

# £6.9m

**o 2022/23 i 2023/24**

gan adlewyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer dyletswyddau newydd gan gynnwys Diogelwch Ar-lein, Deddf Diogelwch Telegyfathrebiadau a Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

# Cyfrifoldeb Corfforaethol

## Ymrwymiad ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol

Rydym yn gryfach fel sefydliad pan fyddwn ni'n gysylltiedig â'r cymunedau rydym yn gweithio ynddyn nhw. Rydym hefyd yn ceisio lleihau effaith ein gweithrediadau ar yr amgylchedd.

**Er mwyn cyflawni hyn:**

- Rydym wedi ymrwymo i helpu i leihau allyriadau carbon cyffredinol y DU a byddwn yn mabwysiadu ac yn hyrwyddo arferion cynaliadwy lle bynnag y gallwn.
- Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion a sefydliadau i egluro ein gwaith a'r cyfleoedd sydd ar gael yn Ofcom, yn ogystal â chynnig rhaglenni y mae galw mawr amdanynt i brentisiaid a graddedigion.
- Rydym yn gweithredu i feithrin cysylltiadau agosach â chymunedau lleol yn y dinasoedd lle mae ein prif swyddfeydd - Llundain, Manceinion, Caeredin, Caerdydd a Belfast.

### Polisi Amgylcheddol

Mae Ofcom yn cydnabod ein bod yn byw mewn cyfnod heriol i'n hamgylchedd yn fyd-eang. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i fynd i'r afael â bygythiadau i systemau naturiol a bioamrywiaeth ein planed. Mae Ofcom wedi ymrwymo i asesu, deall a gwella ei berfformiad amgylcheddol. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym wedi datblygu, gweithredu, a pharhau i gynnal System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015 sy'n cydymffurfio, gan ein helpu i fabwysiadu dull mwy systematig o wella ein perfformiad amgylcheddol.

### Ysgolion a sefydliadau

Yn ogystal â chynnig lleoliadau profiad gwaith rheolaidd yn Ofcom, fe wnaethom barhau â'n gwaith maes gydag ysgolion yn 2023/24, gan estyn allan at fyfyrwyr o 10 ysgol gyda sefydliad symudedd cymdeithasol arbenigol i'n helpu i adnabod, hyfforddi a chefnogi pobl ifanc i gymryd y cam cyntaf yn eu gyrfa, gan gynnwys gwneud cais am ein rhaglenni prentisiaeth. Rydym wrthi'n paratoi hefyd i gefnogi 10 o fyfyrwyr o gartrefi incwm is i gymryd rhan yn y rhaglen profiad gwaith â thâl Smart Futures gan Sefydliad EY ym mis Ebrill 2024. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd, profiadau a chymorth i bobl ifanc i'w helpu i feithrin amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn rhoi dechrau da i'w gyrfa yn ein diwydiant.

Yng Nghaeredin, rydym wedi lansio partneriaeth yn yr Alban gyda menter gymdeithasol nid-er-elw, sy'n helpu i chwalu rhwystrau i'r rheini sy'n awyddus i gael gwaith. Mae ei bartneriaid cyflogaeth yn gweithio gydag ymgeiswyr i gefnogi ceisiadau ac rydym yn hyrwyddo holl swyddogaethau byw Ofcom yng Nghaeredin gyda nhw.

Manceinion yw'r lleoliad a agorwyd fwyaf diweddar gennym, ac yno rydym wedi creu cyfleoedd cyflogaeth newydd sylweddol yn rhanbarth gogledd-orllewin Lloegr, gan gynyddu nifer ein staff i dros 115 o gydweithwyr. Mae ein tîm newydd wedi ymgymryd â nifer o fentrau sy'n cael eu harwain yn lleol, gan gynnwys cefnogi banc bwyd cyfagos gydag ymgyrchoedd tymhorol, ymuno â digwyddiadau rhwydweithio'r diwydiant technoleg, a datblygu ein partneriaeth â Manchester Digital. Mae'r olaf yn cynnwys ein cyfranogiad yn yr ymgyrch 'Her Ddigidol'. Mae cydweithwyr Ofcom wedi cofrestru i fod yn fodelau rôl i helpu i ysbrydoli a grymuso merched a menywod i ystyried gyrfa ym maes technoleg.

Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth ag Evenbreak (gwasanaethau arobryn sy'n hysbysebu swyddi ac yn rhoi cymorth gyrfa i bobl anabl) ym mis Tachwedd 2023 i greu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol a theg i bobl anabl yn y diwydiant cyfathrebu. Fe wnaethom hefyd lansio partneriaeth â JobOppo ym mis Ionawr 2024 i gefnogi cyn-aelodau'r lluoedd arfog i ddychwelyd i weithio.

Mae partneriaethau cymunedol ychwanegol yn cynnwys y cwmni Growth a Phartneriaeth Mudo Strategol gogledd-orllewin Lloegr – sydd â'r bwriad o gael gwared ar rwystrau i gyflogaeth yn ein swyddfeydd rhanbarthol.

### Graddedigion

Mae rhaglen graddedigion Ofcom yn croesawu carfan o raddedigion bob blwyddyn, ac ymunodd 34 o raddedigion ym mis Medi 2023 - ein carfan fwyaf erioed. Gan weithio gyda sefydliad arbenigol sy'n recriwtio graddedigion, fe wnaethom lwyddo i recriwtio graddedigion o safon uchel o gefndiroedd amrywiol. Mae ein rhaglen i raddedigion yn cynnig dewis o lwybrau gan gynnwys polisi, technoleg, seiberddiogelwch, sbectrwm, economeg, gwyddor data ac ystadegau. Gall y graddedigion ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau technegol ac ymddygiadol yn eu dewis faes, gan adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes.

## Prentisiaethau ac interniaethau

### Prentisiaethau

Fe wnaethom barhau â'n partneriaeth strategol gyda Visionpath i ddarparu rhaglen gyrfaoedd cynnar o'r dechrau i'r diwedd sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc sydd dan anfantais gymdeithasol. Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom gynnal canolfan asesu ar gyfer 35 o fyfyrwyr o 23 o ysgolion gyda'r nod o lenwi 24 rôl prentisiaeth ar draws meysydd data, cyfreithiol, economeg, seiber, gorfodi a pholisi. Roedd y canlyniadau'n llwyddiannus ac ym mis Medi fe wnaethon ni gofrestru 24 prentis newydd – ein carfan fwyaf erioed – ar wyth safon prentisiaeth wahanol o lefel 4 i lefel 6.

Ym mis Hydref, fe wnaethom lansio'r rhaglen am y drydedd flwyddyn, gan weithio mewn 10 ysgol lle buom yn ymgysylltu â dros 200 o fyfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Fel rhan o'r rhaglen hon, fe wnaethom gyflwyno sesiynau sgiliau dros ddeuddydd i feithrin sgiliau yn y gweithle a helpu ein hymgeiswyr i adnabod a harneisio eu cryfderau. Roedd gan bob ymgeisydd fentor yn Ofcom am dri mis i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfa, gyda sgiliau i gefnogi eu llwyddiant yn Ofcom neu mewn mannau eraill. O'r rhaglen waith hon, ein nod yw recriwtio o leiaf bedwar prentis polisi a fydd yn ymuno â ni ym mis Medi 2024.

Yn ogystal â phrentisiaid sydd newydd adael yr ysgol, mae gennym nifer o gydweithwyr sydd eisoes wedi cofrestru ar gyfer prentisiaethau i ennill sgiliau ychwanegol fel cymwysterau proffesiynol CIMA (cyfrifeg), CIPD (Proffesiwn Pobl neu Adnoddau Dynol) a MBA Uwch Arweinwyr.

### Interniaethau

Ym mis Medi 2023, ffurfiodd ein tîm Cyfreithiol bartneriaeth â rhaglen 'Careers Extra' yr UCL i dderbyn tri myfyriwr ar brofiad gwaith â thâl. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi myfyrwyr israddedig yr UCL o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.


Yn 2023, roeddem yn falch o gymryd rhan yn y rhaglen 10,000 Black Interns am yr ail flwyddyn. Nod y cynllun yw cynnig 10,000 o interniaethau i bobl ifanc Ddu, gyda dros 700 o gwmnïau yn rhan o'r cynllun. Fe wnaethom gynnig interniaeth wyth wythnos â thâl dros yr haf gydag Ofcom i 22 o fyfyrwyr o'r rhaglen hon yn ogystal â thair interniaeth ychwanegol mewn economeg. Yn ystod y rhaglen, mae interniaid yn cael eu cefnogi i wneud cais am swyddi parhaol, ac mae dau o'n hinterniaid yn 2022 wedi ymuno wedyn â'n rhaglen i raddedigion.

## Gwirfoddoli

Mae'r cyfnod absenoldeb i wirfoddoli yn rhoi cyfle i gydweithwyr wirfoddoli mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys gweithio fel ynadon, cefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau academaidd, a gwirfoddoli yn y gymuned, er enghraifft fel ymddiriedolwyr neu arweinwyr sgowtiaid.

## Caethwasiaeth fodern

Mae Ofcom wedi ymrwymo i wella ein polisïau ac arferion yn barhaus er mwyn chwarae ein rhan i fynd i'r afael â phroblem ddifrifol caethwasiaeth fodern. Nid ydym yn goddef caethwasiaeth na masnachu pobl yn ein busnes na'n cadwyni cyflenwi. Rydym yn asesu ein contractau i ganfod risgiau ac os byddwn yn dod o hyd i rai, byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i'w monitro a'u rheoli'n effeithiol. Rydym yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar gaethwasiaeth fodern i ddangos sut rydym yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn.



# Adroddiad ar Gynaliadwyedd


**Adrodd ar ein Hallyriadau ar gyfer 2023/24**

## Yn unol ag Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth 2021-2025, mae Ofcom wedi ymrwymo i leihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd.

Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd cyfleoedd a risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac mae wedi ymrwymo i ddatgelu mewn modd tryloyw sut mae ystyriaethau ynghylch yr hinsawdd yn cael eu hintegreiddio yn ein prosesau llywodraethu. Rydym wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dilyn canllawiau Trysorlys EF ar gyfer ceisiadau am ddatgeliadau. Maen nhw'n ganllawiau sy'n cyd-fynd â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD), ac maen nhw'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Rydym wedi cydymffurfio ag argymhellion TCFD a datgeliadau o argymhellion ynghylch:

- Llywodraethu (pob datgeliad a argymhellir)
- Metrigau a Thargedau (datgeliadau (b))

Mae hyn yn unol ag amserlen gweithredu'r llywodraeth ganolog ynghylch datgeliadau sy'n cyd-fynd â TCFD. Rydym yn bwriadu gwneud datgeliadau ar gyfer Strategaeth, Rheoli Risg a Metrigau a Thargedau (a) ac (c) mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol yn unol ag amserlen gweithredu'r llywodraeth ganolog.



Ar hyn o bryd, mae perchnogaeth a chyfrifoldeb dros ystyriaethau hinsawdd a chynaliadwyedd yn cael eu cyflawni ar lefel weithredol gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (HSEC) a'r Bwrdd Gweithrediadau. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a'r Bwrdd Gweithrediadau yn adolygu'r System Reoli Amgylcheddol sydd â'r achrediad ISO 14001:2015 sy'n nodi perfformiad amgylcheddol Ofcom, gan gynnwys newidiadau mewn allyriadau carbon, gwastraff, defnydd dŵr. Wrth symud ymlaen, bydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio, gyda mewnbwn gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, yn ystyried ac yn cymeradwyo ein targedau amgylcheddol yn flynyddol ac yn monitro cynnydd ar y targedau hynny.

Fel rhan o'n proses cynllunio busnes, mae ystyriaeth briodol i'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd a chynaliadwyedd yn cael ei rhoi a'i hadlewyrchu (lle bo hynny'n berthnasol) yn ein cynigion ar gyfer cynlluniau gwaith. Wrth ystyried risgiau i strategaeth Ofcom, byddwn yn nodi a oes risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd neu gynaliadwyedd, ac i ba raddau.

Rydym wedi mabwysiadu Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth, sydd â thargedau heriol o ran cynaliadwyedd. Yn 2023/24, gostyngodd ein hallyriadau $CO_2$ cyffredinol 33% o'i gymharu â llinell sylfaen 2017/18, er gwaethaf cynnydd o ddwy ran o dair yn nifer y staff a sbardunwyd gan ddyletswyddau rheoleiddio ychwanegol dros yr un cyfnod. Ond, mae allyriadau $CO_2$ fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (FTE), ar sail tebyg am debyg, wedi gostwng 60% o'i gymharu â llinell sylfaen 2017/18, fel y dangosir yn y tabl isod.

| Ofcom | 2017/18 | 2023/24 | % newid |
|---|---|---|---|
| $tCO_2e$ | 1,728 | 1,162 | **(33%)** |
| Aelod Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) | 893 | 1,483 | **66%** |
| $ttCO_2e$ fesul FTE | 1.93 | 0.78 | **(60%)** |

Nid ydym wedi lleihau ein hallyriadau cyffredinol i gyfradd darged Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth, sef 58%; mae hyn yn bennaf oherwydd bod Ofcom wedi trawsnewid o ran cwmpas a dyletswyddau dros y cyfnod o chwe blynedd. Yn unol â'n strategaeth leoli, mae gennym 8% yn fwy o bobl yn ein swyddfeydd cenedlaethol a rhanbarthol o'i gymharu â chwe blynedd yn ôl, ac mae hyn wedi cynyddu teithio o fewn y gwledydd. Ar ben hynny, mae sefydlu cyfundrefnau newydd gan gynnwys Diogelwch Telegyfathrebiadau a Diogelwch Ar-lein yn gofyn am fwy o deithio rhyngwladol gan fod y cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y deddfwriaethau hyn wedi'u lleoli y tu allan i'r DU i raddau helaeth.

Mae ein cynnydd yn erbyn y targedau ar gyfer 2023/24 yn cael ei nodi isod. Rydym yn falch o adrodd bod ein hallyriadau carbon o ddefnyddio tanwydd ac ynni yn yr ystâd (cwmpas 1 a 2) wedi gostwng 63%, gan gyrraedd ein targed ar gyfer y flwyddyn. Mae ein data llawn ar gynaliadwyedd yn Atodiad 7 yr adroddiad hwn.

## Tabl metrigau Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth

| | | Targed | Cynnydd 2023/24 |
|---|---|---|---|
| **Lliniaru newid yn yr hinsawdd:** gweithio tuag at sero net erbyn 2050 | **Prif darged:** Targed Lleihau Allyriadau Cyffredinol | 58% | 33% |
| | **Prif darged:** Targed Lleihau Allyriadau Uniongyrchol (cwmpas 1 yn unig) | 33% | 63% |
| | **Is-darged:** ceir fflyd y llywodraeth i fod yn gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 31 Rhagfyr 2022 | 25% | 7% |
| | **Is-darged:** fflyd ceir a faniau'r llywodraeth i fod yn gerbydau allyriadau sero yn y bibell ôl erbyn 31 Rhagfyr 2027. | 100% | Nid yw'n ymarferol ar hyn o bryd i Ofcom gael fflyd â sero allyriadau yn y bibell ôl. |
| | **Is-darged:** Lleihau'r allyriadau o hediadau busnes domestig | 30% | 0.3% |
| | **Is-darged:** adrodd am y pellter a deithiwyd mewn hediadau busnes rhyngwladol | | Mae adroddiad am hyn yn Atodiad 7 yr adroddiad hwn. |
| **Lleihau gwastraff a hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau** (ar draws holl leoliadau Ofcom) | **Prif darged:** Lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir | | 22% |
| | **Is-darged:** Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i lai na 5% o'r gwastraff cyffredinol | 5% | 100% |
| | **Is-darged:** Cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu i 70% o'r gwastraff cyffredinol o leiaf | 70% | 39% |
| | **Is-darged:** Cael gwared ar blastig un-tro gan ddefnyddwyr (CSUP) | | Mae Ofcom wedi cael gwared ar gytleri a chwpanau coffi un-tro ac wedi rhoi mygiau a chytleri y gellir eu hailddefnyddio yn eu lle. |
| | **Is-darged:** Mesur ac adrodd ar wastraff bwyd erbyn 2022, ar gyfer ystadau sydd â mwy na 50 o staff cyfwerth ag amser llawn a neu dros 500m2 o arwynebedd llawr sy'n cynnig gwasanaeth bwyd | | Mae gwastraff bwyd yn cael ei fesur yn Riverside House. Darperir cadi bwyd ym mhob swyddfa. |
| | **Is-darged:** Lleihau faint o bapur mae'r llywodraeth yn ei ddefnyddio o leiaf | 50% | 95% |
| **Lleihau ein defnydd o ddŵr** (ar draws holl leoliadau Ofcom) | **Prif darged:** Lleihau defnydd dŵr | 8% | -1% |
| | **Is-darged:** Sicrhau bod yr holl ddŵr a ddefnyddir yn cael ei fesur | | Dim ond ar y safleoedd nad ydynt yn cael eu gweithredu gan landlord y mae modd mesur faint o ddŵr mae Ofcom yn ei ddefnyddio. |

## Adrodd ar gynaliadwyedd yn y dyfodol

Ers 2007, mae Ofcom wedi parhau i leihau ôl troed carbon y gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd. Rydym bellach yn gweithio i sefydlu fframwaith achredu ffurfiol, gan gynnwys polisi amgylcheddol, a fydd yn gwella ein gwaith adrodd ar draws ein saith safle, ac rydym yn sicrhau bod y gwaith cynaliadwyedd ar draws y sefydliad yn fwy amlwg.

Fel sefydliad cyhoeddus, rydym am arwain drwy esiampl. Rydym yn parhau i gadw at achrediad ISO14001: 2015 ar gyfer System Rheoli Amgylcheddol, gan ein helpu i fabwysiadu dull mwy systematig i wella ein perfformiad amgylcheddol a chyfrifo ein hôl troed amgylcheddol a chwilio am gyfleoedd i wella.

### Rydym yn parhau i wneud y canlynol:

**dilyn y Polisi Amgylcheddol y cytunir arno**, gan ddangos ein hymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol Ofcom;

**dilyn y cylch Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu**, sydd wrth wraidd holl safonau system reoli ISO, i wella ein holl systemau, gweithdrefnau a phrosesau;

**nodi agweddau amgylcheddol[5] ein gweithgareddau y gallwn eu rheoli a dylanwadu arnyn nhw,** a'u heffeithiau posibl ar yr amgylchedd;

**penderfynu sut mae'r holl ddeddfwriaethau a gofynion perthnasol yn berthnasol i'r agweddau hyn.** Drwy weithio o fewn y fframwaith hwn, fe wnaethom asesu'r pethau a oedd yn gweithio'n dda, gan fireinio'r rhai y mae angen i ni eu gwella;

**sefydlu amcanion mesuradwy a thargedau sy'n gyson ag amcanion ein polisi;**

**fe wnaethom bennu camau cynllunio clir i gyflawni ein hamcanion** a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n holl rwymedigaethau; a,

**grymuso cydweithwyr i gyfrannu at gynnydd Ofcom ar yr effaith ar garbon** a dal y sefydliad i gyfrif drwy'r rhaglen Hyrwyddwyr Gwyrdd.

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

25 Gorffennaf 2024

3 Mae'r safon yn diffinio agweddau fel gweithgareddau'r sefydliad sy'n rhyngweithio â'r amgylchedd.

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

ADRAN

B

# Llywodraethu

## Trosolwg llywodraethu, gan yr Arglwydd Grade o Yarmouth, Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol ar gyfer 2023/24, ar ôl cwblhau ychydig dros ddwy flynedd fel Cadeirydd Ofcom. Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut mae Ofcom yn mynd ati i lywodraethu, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu.

Mae Ofcom nawr yn dod i ddiwedd ei Gynllun Tair Blynedd cyntaf. Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn sail i ddull gweithredu Ofcom ar gyfer materion gweithredol gan gynnwys cyllidebu, ac mae'n sail hefyd i flaenoriaethau polisi a'r broses o greu pob Cynllun Gwaith blynyddol. Mae'r Bwrdd yn rhoi sylw nawr i ddatblygu'r ail Gynllun Tair Blynedd.

Eleni, cafodd y Bil Diogelwch Ar-lein Gydsyniad Brenhinol a dechreuodd Ofcom ddefnyddio ei bwerau ffurfiol fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein. Mae'r tri ymgynghoriad cyntaf o dan y Ddeddf newydd wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd, ac rydym wrthi'n monitro cynnydd y rhain a datblygiadau eraill ym maes rheoleiddio diogelwch ar-lein.

Fe wnaethom barhau hefyd i ganolbwyntio ar reoleiddio effeithiol ar gyfer defnyddwyr a sut mae cefnogi cwsmeriaid telegyfathrebiadau y mae costau byw uchel yn effeithio arnyn nhw, yn ogystal â monitro sut mae cystadleuaeth yn y farchnad telegyfathrebiadau yn arwain at fanteision i gwsmeriaid. Rydym wedi ceisio sicrhau bod amgylchedd cyfryngau iach sy'n darparu ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr, ac rydym wedi adolygu ymgynghoriad Ofcom ar Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y Post Brenhinol, a gafodd ei sbarduno gan newidiadau yn y farchnad bost.

Yn ogystal â pharhau i oruchwylio'r gwaith hwn yn annibynnol, mae'r Bwrdd yn hyrwyddo annibyniaeth Ofcom ei hun – agwedd hollbwysig ar ein gwaith rheoleiddio – yn ogystal â'n gwir atebolrwydd, i'r farnwriaeth ac i'r Senedd. Eleni, er enghraifft, rhoddodd Melanie Dawes a minnau dystiolaeth i Bwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi mewn sesiwn graffu un-tro a oedd yn edrych ar waith Ofcom.

Rydym yn rheoleiddio ar ran y Deyrnas Unedig gyfan a'r gwledydd ynddi, ac fe wnaeth y Bwrdd barhau â'i draddodiad o ymweld â Chymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban bob blwyddyn ar gyfer digwyddiad i randdeiliaid a chyfarfod o'r Bwrdd. Eleni, aeth y Bwrdd i Gaerdydd a manteisio ar y cyfle i ymweld ag ITV Cymru, yn ogystal â chwrdd â rhanddeiliaid o'r diwydiant o bob rhan o Gymru mewn derbyniad anffurfiol.

Cynhaliodd y Bwrdd weithdy ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol a chael cyfarfodydd briffio ar amrywiaeth o bynciau yn ystod y flwyddyn er mwyn deall natur newydd ac esblygol y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio. Rhoddodd ein diwrnod strategaeth Bwrdd blynyddol gyfle hefyd i ni gynnal prosesau sganio'r gorwel a'r goblygiadau i strategaeth a blaenoriaethau Ofcom, a chlywed gan arbenigwyr ym maes deallusrwydd artiffisial.

Mynychodd aelodau'r Bwrdd wyth cinio anffurfiol gyda chydweithwyr o bob rhan o Ofcom yn ystod y flwyddyn hon. Mae aelodau'r Bwrdd yn croesawu'r cyfle mae hyn yn ei roi i ni i ddeall mwy am ddiwylliant Ofcom a sut mae ein timau yn cyflawni ein rhaglen waith.

Mae llywodraethu'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel yn Ofcom a chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adolygiad yn adeiladu ar sylfeini cryf ac yn nodi cyfleoedd i fod yn fwy hyblyg drwy symleiddio ein prosesau cymeradwyo cyllid. Fe wnaeth gyflwyno dirprwyaethau penodol hefyd ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, egluro dirprwyaethau sy'n ymwneud â Dyfarnwyr a benodir gan Ofcom, a chynnwys dirprwyaethau ar gyfer Cyfarwyddwyr sy'n delio â phenderfyniadau gorfodi ail gam.

Bob blwyddyn, mae ein Pwyllgor Pobl yn adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth) ein Bwrdd ac yn gwneud argymhellion am y disgrifiadau rôl ar gyfer penodiadau anweithredol sy'n gysylltiedig â hyn. Mae arbenigedd mewn diogelwch ar-lein yn ofyniad clir wrth ystyried dyletswyddau rheoleiddio newydd Ofcom.

Mae'n bleser gennyf groesawu Syr Clive Jones, a benodwyd gan Lywodraeth Cymru fel Aelod o Fwrdd Ofcom ar gyfer Cymru ym mis Chwefror 2024. Mae gan Clive brofiad helaeth o ddarlledu masnachol, gan gynnwys swyddi uwch gydag ITV, Carlton a Central, yn ogystal â chyfnod ar Fwrdd S4C a'i gangen fasnachol, a bydd hyn oll yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar ôl iddo gael ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Cynnwys Ofcom.

Ar ddechrau'r flwyddyn, ymddiswyddodd Kevin Bakhurst, Cyfarwyddwr y Grŵp ar gyfer Darlledu a Diogelwch Ar-lein, o'r Bwrdd i ddilyn gyrfa fel Cyfarwyddwr Cyffredinol RTÉ. Hoffwn ddiolch i Kevin am ei waith yn paratoi Ofcom ar gyfer ei gyfrifoldebau newydd o ran diogelwch ar-lein.

Daeth cyfnod dau aelod anweithredol o'r Bwrdd i ben ym mis Ionawr 2024. Roedd David Jones, aelod ar Fwrdd Ofcom ar gyfer Cymru, yn cynrychioli barn a phryderon ei wlad ar ystod eang o bynciau gydag eglurder a phwrpas. Roedd Maggie Carver yn Gadeirydd Dros Dro Ofcom rhwng mis Ionawr 2021 a mis Ebrill 2022, ac yn fwy diweddar, Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Roedd ei gwybodaeth yn werthfawr mewn sawl maes ond yn enwedig yn y diwydiant darlledu. Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonyn nhw am eu cyfraniad pwysig i waith Ofcom.

Rwy'n ddiolchgar i'r Fonesig Melanie Dawes, y Bwrdd, yr Uwch Reolwyr a'r holl gydweithwyr am eu cefnogaeth i mi yn fy rôl fel Cadeirydd.

**Yr Arglwydd Grade, Cadeirydd**

# Datganiad llywodraethu

Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn crynhoi trefniadau llywodraethu Ofcom, gan gynnwys cyfansoddiad ein Bwrdd, sut mae ein fframwaith llywodraethu'n gweithredu'n ymarferol (gan gynnwys ein strwythur llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd) a'r pethau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2023/24.

### Ein Trefn Lywodraethu

Fel corfforaeth statudol, mae prif ofynion cydymffurfio Ofcom o ran llywodraethu yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth berthnasol (sef Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau (2002), y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003), y Ddeddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017), y Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) (2021), y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (2023 ) ac unrhyw ddeddfwriaethau atodol eraill sy'n berthnasol neu Orchmynion ynddynt) sy'n pennu materion fel dibenion y sefydliad a phenodi ein Haelodau.

Mae Aelodau Bwrdd Ofcom hefyd yn rhwym wrth y **Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus**. Mae ein dull llywodraethu corfforaethol cyffredinol yn seiliedig ar, ond nid yn rhwym wrth **God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018** ("Cod y Deyrnas Unedig") a'i ganllawiau cysylltiedig, yn amodol ar lle ystyrir bod rhai egwyddorion yn anghymesur neu'n llai perthnasol yn achos Ofcom a/neu mae gofynion eraill yn cael eu gosod ar Ofcom drwy statud.

## Sut mae cod llywodraethu corfforaethol y DU 2018 yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Dyma enghreifftiau o sut mae rhai o egwyddorion Cod y Deyrnas Unedig wedi cyfrannu at ein dull gweithredu:

**Arweinyddiaeth a Phwrpas y Bwrdd**
Mae gan ein Bwrdd bwrpas, strategaeth a gwerthoedd clir, ac mae'n gallu bodloni ei hun bod y rhain a'i diwylliant yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ein Bwrdd, y mae'r mwyafrif o'r aelodau yn Aelodau Anweithredol, yn cynnig syniadau a her wrthrychol annibynnol ar sut rydym yn cyflawni ein nodau strategol.

**Rhannu Cyfrifoldebau**
Mae Cadeirydd ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd. Mae ein Haelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu arnyn nhw i raddau helaeth wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.

**Cyfansoddiad, Olyniaeth a Gwerthuso**
Mae penodiadau i'n Bwrdd yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau penodiadau cyhoeddus y DU, gyda'n Cadeirydd a'r rhan fwyaf o Aelodau Anweithredol yn cael eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT), a thri aelod Anweithredol yn cael eu penodi gan Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Wrth i Aelodau newydd gael eu penodi i'r Bwrdd, byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod mwy o amrywiaeth ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Pobl yn ceisio sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth effeithiol, a'n bod yn nodi ac yn rheoli ein llif o dalentau yn briodol.

**Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol**
Mae ein Pwyllgor Risg ac Archwilio yn goruchwylio'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i reoli ein risgiau, ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith.

**Taliadau**
Mae ein Hadroddiad Taliadau yn egluro sut rydym yn sicrhau bod ein harferion a'n polisïau taliadau yn cefnogi ein nodau strategol, a bod ein taliadau i staff yn helpu Ofcom i gyflawni ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion.

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau a Phwrpas

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol ac archwaeth risg y sefydliad, a dyma'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar faterion sydd o arwyddocâd i Ofcom o safbwynt strategol, rheoleiddiol neu enw da. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn helpu i gyflawni diben a strategaeth Ofcom ac mae'n arbennig o hanfodol wrth i gylch gorchwyl Ofcom dyfu. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir yn Ofcom, ac i sicrhau atebolrwydd, gwerth hirdymor a sut rydym yn cyflawni ein pwrpas o hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol pwrpasol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n llywio gweithgareddau'r Bwrdd. Mae'r Fframwaith yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnyn nhw, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo Cynllun Gwaith, amcanion tymor hir a fframwaith polisi strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo cyfrifon ac adroddiad blynyddol Ofcom;
- rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiad; a
- chynnal adolygiad ffurfiol a rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun, a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol

## Penodiadau i'r Bwrdd

Mae Cadeirydd a mwyafrif Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, am gyfnod o bedair blynedd. Mae Aelod yr Alban, Aelod Cymru ac Aelod Gogledd Iwerddon yn cael eu penodi gan Weinidogion yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Economi yn y drefn honno, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol. Pan geisir aelodau'r Bwrdd sydd â phrofiad penodol o ddarlledu, mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros benodi'r aelodau hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan Gadeirydd ac Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, ac mae'n rhaid cael sêl bendith Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wrth benodi'r Prif Weithredwr. Rydym yn cydnabod nad yw cyfansoddiad presennol y Bwrdd yn cynrychioli poblogaeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n hymrwymiad strategol i fod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol. Bydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ein cymdeithas yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y Deyrnas Unedig. Mae ymdrechion yn mynd rhagddynt hefyd i ategu ymhellach yr amrywiaeth bresennol o sgiliau sydd ar y Bwrdd i ystyried ein dyletswyddau rheoleiddio newydd.

# Rolau'r Bwrdd

## Y Cadeirydd

Cadeirydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am gadeirio a rhoi arweiniad i'r Bwrdd. Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:

- arwain y Bwrdd i lunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb;
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol o'r Bwrdd;
- sicrhau bod Bwrdd Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn nodi penderfyniadau yn gywir; a
- chynrychioli barn Ofcom yn allanol.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae'r mwyafrif o aelodau ein Bwrdd yn Aelodau Anweithredol, ac mae gan bob un ohonyn nhw brofiad a sgiliau helaeth i'w cynnig i'r Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod cydbwysedd da o sgiliau ar gael i Ofcom wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, ac wrth bennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol – gan gynnwys y fframwaith adnoddau i weithredu Ofcom.

## Y Prif Weithredwr

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros redeg Ofcom o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'i thîm. Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio. Ar y Bwrdd hwn y mae'r Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Grŵp, a Chyfarwyddwyr Cyllid a Phobl a Diwylliant. Mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn sicrhau bod y strategaethau, y polisïau a'r ymddygiad a bennir ar lefel Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ar draws Ofcom. Mae'r Uwch Dîm Rheoli ehangach yn chwarae rôl arwain ehangach o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad hwn yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.



# Aelodau'r Bwrdd



**Daliadaeth** 2 flynedd

**Aelodaeth**

P

## Arglwydd Grade o Yarmouth, CBE

**Cadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd**
**Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Cadeirydd ar 1 Mai 2022.**

Mae Michael Grade wedi cael gyrfa hir ym maes darlledu, gan gynnwys gyda London Weekend Television, y BBC, ITV a Channel 4. Mae wedi bod yn gadeirydd ar Stiwdios Ffilm Shepperton/Pinewood, y BBC ac ITV. Mae'n gyd-sylfaenydd y cwmni GradeLinnit, sy'n cynhyrchu ar gyfer y theatr.

Mae'n Gadeirydd ar Fwrdd Cynghori Grŵp Arora ar Ehangu Heathrow, ac mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd gydag Ocado, First Leisure Corporation, Camelot, y Rheolydd Codi Arian Elusennol ac Amgueddfa Cyfryngau Bradford, yn ogystal â bod yn aelod o gyn-Gomisiwn Cwynion y Wasg ac yn un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Wyddoniaeth.

Mae Michael Grade yn eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi fel Arglwydd nad yw'n perthyn i unrhyw grŵp seneddol. Cafodd ei gyfnod fel arglwydd ei greu ym mis Ionawr 2011.

---



**Daliadaeth** 2 flynedd

**Aelodaeth**

R

## Karen Baxter

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon)**
**Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 28 Mawrth 2022.**

Mae gan Karen yrfa nodedig dros 30 mlynedd ym maes plismona, gan ymddeol o'i swydd Comander yn Heddlu Dinas Llundain yn 2020. Dechreuodd ei gwasanaeth fel swyddog yng Ngogledd Iwerddon, ac mae ganddi brofiad helaeth mewn ystod eang o ymchwiliadau cymhleth gan gynnwys diogelu, lladdiad, gwrthderfysgaeth, troseddau difrifol a chyfundrefnol. O ganlyniad, mae ganddi ddealltwriaeth gadarn o anghenion unigryw cymunedau sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon.

Fel Comander gyda Heddlu Dinas Llundain, hi oedd y Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Plismona Troseddau Economaidd a hi oedd yn gyfrifol am y portffolio Atal Seiberdroseddu.

Yn 2020 ymunodd Karen ag UK Finance fel Rheolwr Gyfarwyddwr y Strategaeth Wybodaeth, gan adolygu'r defnydd o wybodaeth a'r bygythiadau o niwed ar-lein ar draws y sector ariannol. Ym mis Medi 2022, ymunodd Karen â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, fel Cyfarwyddwr Gorfodi, Gwybodaeth a Gwasanaethau Cymorth.

Mae ei phenodiad yn parhau tan 27 Mawrth 2026.

---

P Pwyllgor Pobl    C Bwrdd Cynnwys    E Pwyllgor Etholiadau    R Pwyllgor Risg ac Archwilio



Daliadaeth 5 mlyneded

Aelodaeth

P R

## Dr Angela Dean

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018.**

Ar hyn o bryd, mae Angela yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog ac yn Gadeirydd ei Bwrdd Prosiectau Cyfalaf. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar nifer o sefydliadau nid-er-elw gan gynnwys Cadeirydd International House Trust, Is-gadeirydd Coleg King Llundain, ymddiriedolwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Roedd gyrfa weithredol Angela ym maes cyllid rhyngwladol, yn bennaf fel Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle bu'n arwain tîm ymchwil ar dechnoleg byd-eang. Roedd yn aelod o Weithgor Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion yng nghyswllt cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes buddsoddi.

---



Daliadaeth 6 mlynedd

Aelodaeth

P C

## Bob Downes

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar gyfer yr Alban), Aelod o'r Bwrdd Cynnwys ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Chwefror 2018.**

Bob oedd cadeirydd Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban hyd at 2023. Mae'n cadeirio Corff Goruchwylio Annibynnol y Comisiwn ar gyfer Rheoleiddio Cyfathrebiadau, sy'n goruchwylio'r gwaith o weithredu gwell Model Llywodraeth Rheoleiddio yn Iwerddon gan Eir. Mae Bob yn gynghorydd i nifer o fusnesau technoleg bach, gan gynnwys Kube Networks yn Glasgow. Mae ganddo gefndir mewn telegyfathrebiadau, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a gyda phrifysgolion busnes a thechnoleg.

---



Daliadaeth 2 flynedd

Aelodaeth

R

## Will Harding

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 3 Hydref 2022.**

Mae gan Will bron i 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant cyfryngau. Treuliodd bum mlynedd yn BBC Worldwide, yna helpodd i lansio ask.com yn y DU cyn dod yn Gyfarwyddwr Masnachol a Gweithrediadau busnes cyfryngau newydd Sky. Ymunodd â Gcap Media plc yn 2006 fel Cyfarwyddwr Strategaeth Grŵp ac yn ddiweddarach daeth yn Brif Swyddog Strategaeth ac yn Aelod o Fwrdd yn Global Media ac Entertainment Ltd, lle sefydlodd y Global Academy, sef ysgol y wladwriaeth ar gyfer pobl ifanc o bob cefndir sydd eisiau dechrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Fe wnaeth roi'r gorau i'w ddyletswyddau ar Fwrdd Global ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Primedia, y prif grŵp cyfryngau a hysbysebion sy'n canolbwyntio ar Affrica, ac mae'n un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Addysg Baker Dearing.

---

P Pwyllgor Pobl   C Bwrdd Cynnwys   E Pwyllgor Etholiadau   R Pwyllgor Risg ac Archwilio



**Daliadaeth** <1 flwyddyn

**Aelodaeth**

E C

## Clive Jones

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd ar gyfer Cymru, Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys, Cadeirydd y Pwyllgor Etholiadau**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 12 Chwefror 2024.**

Cafodd Clive Jones ei eni a'i fagu yng nghymoedd de Cymru, a threuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith yn ITV fel newyddiadurwr, cynhyrchydd a golygydd gyda YTV a TV-AM ac yn ddiweddarach fel Prif Swyddog Gweithredol Central Television a Grŵp Teledu Carlton. Bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr ITV Network hefyd ac ef oedd Prif Swyddog Gweithredol cyntaf ITV News a Regions ar ôl i ITV ccc gael ei greu. Bu'n hyfforddi i fod yn newyddiadurwr gyda'r Yorkshire Post ar ôl graddio o'r LSE.

Clive yw cadeirydd Sightsavers, elusen yn y DU ar gyfer pobl sy'n colli golwg, ac Ymddiriedolaeth Runnymede, sef prif felin drafod cydraddoldeb hiliol y DU, ac ef yw Ombwdsmon y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr. Cadeiriodd y Pwyllgor Argyfyngau Brys, roedd ar fwrdd S4C a'i gangen fasnachol S4C Masnachol am chwe blynedd, ac mae'n gyn-gadeirydd Cronfa Eiddo Deallusol Cymru a National Theatre Wales.

---



**Daliadaeth** 8 mlynedd

**Aelodaeth**

P

## Ben Verwaayen

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2016. Ail-benodwyd ar 1 Ionawr 2020.**

Ar hyn o bryd mae Ben yn Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners, ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akamai yn yr Unol Daleithiau a Renewi Ltd, cwmni blaenllaw yn yr economi gylchol yn y BeNeLux ac yn y DU. Mae'n gyn-Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol ac yn Aelod o Fwrdd AkzoNobel yn yr Iseldiroedd a Bharti Airtel, gweithredwr gwasanaethau symudol, yn India.

---

P Pwyllgor Pobl   C Bwrdd Cynnwys   E Pwyllgor Etholiadau   R Pwyllgor Risg ac Archwilio

# Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd



**Daliadaeth** 3 blynedd

## Y Fonesig Melanie Dawes

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2020**

Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Melanie yn Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o 2015 ymlaen. Mae wedi dal amrywiaeth o swyddi uwch ar draws y Gwasanaeth Sifil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys fel Hyrwyddwr Amrywiaeth a Chynhwysiad y Gwasanaeth Sifil.

Dechreuodd ar ei gyrfa fel economegydd, a threuliodd 15 mlynedd yn y Trysorlys, lle bu'n Gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd rhwng 2002 a 2006. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig yn Swyddfa'r Cabinet rhwng 2011 a 2015, a chyn hynny bu'n aelod o Fwrdd CThEF. Fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Treth Busnes, roedd yn gyfrifol am yr holl drethi a thollau busnes ochr yn ochr ag arwain perthynas yr adran â'r cwmnïau mwyaf.

Mae Melanie wedi ysgwyddo amryw o rolau anweithredol, gan gynnwys gyda'r corff defnyddwyr *Which?* a Patchwork Foundation, sy'n helpu pobl ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i fod yn rhan o ddemocratiaeth.

---



**Daliadaeth** 3 blynedd

## Lindsey Fussell

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebu**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020.**

Ymunodd Lindsey Fussell ag Ofcom yn 2016 ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebu. Mae'n arwain gwaith Ofcom yn y sectorau telegyfathrebiadau a phost, lle rydym yn ceisio diogelu buddiannau defnyddwyr, hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod rhwydweithiau'n ddiogel ac yn gadarn. Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020.

Cyn ymuno ag Ofcom, bu Lindsey yn gweithio mewn amrywiaeth o uwch swyddi arweinyddiaeth yn y Gwasanaeth Sifil. Roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhrysorlys EF, lle bu'n arwain ar ddatganoli, addysg a diwylliant, amddiffyn a chyfiawnder troseddol, ac roedd yn gyfrifol am gyflawni agweddau allweddol ar Adolygiadau Gwariant 2013 a 2015. Mae hi'n gyfarwyddwr anweithredol (Cyfarwyddwr sy'n Ddigon Annibynnol) ar gyfer NGED, rhwydwaith dosbarthu trydan y National Grid ar gyfer Cymru, de-orllewin Lloegr a chanolbarth Lloegr.

---

**P** Pwyllgor Pobl | **C** Bwrdd Cynnwys | **E** Pwyllgor Etholiadau | **R** Pwyllgor Risg ac Archwilio

# Aelodau a adawodd yn ystod y flwyddyn



**Daliadaeth** 3 blynedd

## Kevin Bakhurst

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Darlledu a'r Cyfryngau**

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ebrill 2020. Gadawodd Fwrdd Ofcom ar 19 Ebrill 2023.**

Ymunodd Kevin ag Ofcom ym mis Hydref 2016, ac ef oedd Cyfarwyddwr Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau, gan oruchwylio ein polisïau a'n rheoliadau ar faterion darlledu a chyfryngau. Rhwng 2018 a 2021, Kevin oedd yn arwain y gwaith o gynllunio tîm Diogelwch Ar-lein Ofcom yn strategol a recriwtio i'r tîm hwnnw. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Kevin yn Rheolwr Gyfarwyddwr, Newyddion a Materion Cyfoes, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, ac wedyn yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro gyda darlledwr cenedlaethol Iwerddon, RTÉ. Ar ôl graddio, bu Kevin yn gweithio yn Price Waterhouse cyn ymuno â'r BBC yn 1989. Aeth ymlaen i olygu'r rhaglen Ten O'Clock News, gan ddod yn Ddirprwy Bennaeth Ystafell Newyddion y BBC ac yn Rheolydd sianel BBC News a BBC News at One. Ef yw Cyfarwyddwr Cyffredinol RTÉ ar hyn o bryd.



**Daliadaeth** 4 blynedd

**Aelodaeth**

P R

## David Jones

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar gyfer Cymru)**

**Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl. Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 19 Ebrill 2019. Daeth ei dymor i ben 7 Ionawr 2024.**

Mae David yn arbenigwr ym maes technoleg a seiberddiogelwch ac mae ganddo brofiad helaeth ym maes rheoleiddio a llywodraethu yn y sector cyhoeddus. Treuliodd ddegawd fel Prif Swyddog Technoleg ar gyfer cwmni awyrennau a grŵp hamdden mawr yn Ewrop cyn sefydlu a datblygu busnes meddalwedd teithio llwyddiannus, a werthodd yn ddiweddarach. Yna, treuliodd David ddegawd fel angel buddsoddi, ymgynghorydd a mentor i nifer o fusnesau technoleg. Mae'n darlithio'n rheolaidd ar seiberddiogelwch i sefydliadau ac ef oedd cyd-sefydlydd Enclave, sef busnes meddalwedd seiberddiogelwch. Mae'n Gadeirydd DVLA ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Ofwat. Ar wahân i seiberddiogelwch, ei feysydd arbenigol yw effaith strategol technoleg ar draws yr economi ehangach, gan gynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat.



**Daliadaeth** 4 blynedd

**Aelodaeth**

P E C

## Maggie Carver, CBE DL

**Dirprwy Gadeirydd, Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys, Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Etholiadau, Aelod o'r Pwyllgor Pobl**


**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Dirprwy Gadeirydd ar 30 Medi 2018. Cadeirydd Dros Dro rhwng 1 Ionawr 2021 a 30 Ebrill 2022. Daeth ei thymor i ben 29 Ionawr 2024.**

Mae gan Maggie brofiad helaeth fel cyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau 19 o gwmnïau cyhoeddus, preifat a nid-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r darparwr newyddion a rhaglenni ITN, y gweithredwr aml-blecs SDN, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain a'r RCA, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr ar fyrddau Channel 5 Television, RDF Media plc, Satellite Information Services, darlledwr y lluoedd arfog BFBS, British Waterways ac Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain. Gyrfa weithredol Maggie oedd bancio buddsoddiadau, cynhyrchu teledu, darlledu a manwerthu.

P Pwyllgor Pobl | C Bwrdd Cynnwys | E Pwyllgor Etholiadau | R Pwyllgor Risg ac Archwilio

# Cipolwg ar lywodraethu

**Pwyllgorau'r Bwrdd**




**Bwrdd Rheoli a Pholisi**

Mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi wedi cael ei greu i weithredu fel y pwyllgor gwaith ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio. Y Prif Swyddog Gweithredol yw ei gadeirydd.

## Amrywiaeth Bwrdd Ofcom

ar 1 Ebrill 2024

Rhywedd

**56%** Yn Ddynion

**44%** Yn Fenywod


Ethnigrwydd

**100%** Ethnig Gwyn

Ethnigrwydd

**100%** Ethnig Gwyn

## Deiliadaeth Bwrdd Ofcom mewn rôl




Dan dair blynedd

Rhwng tair a phum mlynedd

Pum mlynedd a mwy

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod Blwyddyn Ariannol 2023/24

| | **Bwrdd Ofcom** (mis Ebrill i fis Rhagfyr - 8 cyfarfod. Cyfarfodydd mis Chwefror a Mawrth i'w hychwanegu) |
|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | **10** |
| Michael Grade | 10 |
| Kevin Bakhurst | 1 (allan o 1) |
| Karen Baxter | 10 |
| Maggie Carver CBE | 8 (allan o 8) |
| Dame Melanie Dawes DCB | 10 |
| Dr Angela Dean | 10 |
| Bob Downes | 10 |
| Lindsey Fussell | 10 |
| Will Harding | 10 |
| Clive Jones | 1 (allan o 1) |
| David Jones | 8 (allan o 8) |
| Ben Verwaayen | 9 |

Ymunodd Clive Jones â'r Bwrdd ar 12 Chwefror 2024. Gadawodd Kevin Bakhurst y Bwrdd ar 19 Ebrill 2023. Daeth tymor David Jones i ben ar 7 Ionawr 2024 a daeth tymor Maggie Carver i ben ar 29 Ionawr 2024.

### Gwybodaeth Reoli

Mae ein Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn gallu adolygu perfformiad a gallu Ofcom. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd, adolygu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom, adolygu'r broses o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gwaith Ofcom, y polisïau risg a'r gofrestr risgiau strategol, statws canlyniadau'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd / y Bwrdd, a data corfforaethol arall.




### Gweinyddu'r Bwrdd

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, ac mae'n cadw ac yn diweddaru prif weithdrefnau a pholisïau'r Bwrdd, cofnodion corfforaethol a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd a materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Bwrdd. Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cynnal ac yn adolygu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom (gan gynnwys Dirprwyaethau Awdurdod a chylch gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd) ac, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Roedd deg o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Roedd y cyfarfodydd a drefnwyd yn cael eu cynnal bob mis, heblaw am fis Awst a mis Ionawr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal Sesiwn Strategaeth ym mis Hydref bob blwyddyn, lle mae strategaethau tymor canolig-tymor hir yn cael eu hystyried, a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar faterion strategol a pherthnasol. Mae papurau'r Bwrdd sy'n berthnasol i agenda holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel y bo'n briodol, tua wythnos cyn y cyfarfod drwy borth digidol diogel.

# Ein Bwrdd: Gweithgareddau

Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae'r Bwrdd wedi neilltuo ei agenda yn ystod y cyfnod adrodd.




- Llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys rheoli risg
- Strategaeth, gan gynnwys cynllunio busnes
- Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni
- Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi
- Byw bywyd mwy diogel ar-lein
- Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach
- Cyflawni ein swyddogaethau sefydlog
- Partneriaethau, gan gynnwys gallu, sgiliau a chryfhau Ofcom

## Enghreifftiau o weithgareddau a wnaed gan y bwrdd

**Llywodraethu Corfforaethol**

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23
- Adolygu a diweddaru Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom
- Penodi aelodau i Fyrddau, Paneli a Phwyllgorau Ofcom
- Diweddariadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl
- Polisïau chwythu'r chwiban a chwynion Ofcom
- Adolygu polisïau risg a'r gofrestr risg strategol
- Adolygiadau misol o berfformiad ac adolygiadau manwl chwarterol o Gyllid a Phobl
- Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern 2023
- Gwerthusiad blynyddol y Bwrdd a'r Pwyllgor 2023/24
- Polisi cyfryngau cymdeithasol
- Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023
- Adolygiad blynyddol o'r rhaglen amrywiaeth a chynhwysiad

**Strategaeth, gan gynnwys cynllunio busnes**

- Adolygiad blwyddyn lawn o gyflawni yn erbyn Cynllun Gwaith 2022/23
- Cynllun Gwaith a chyllideb 2023/24
- Meysydd blaenoriaeth trawsbynciol y Cynllun Tair Blynedd a'r cynnydd hyd yma
- Cynllun ymchwil 2023/24
- Strategaeth Cyfathrebiadau 2023/24
- Diweddariad o Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus

**Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni**

- Astudiaeth o'r farchnad ar gyflenwi gwasanaethau cwmwl yn y DUK
- Datblygiadau yn y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog
- Gwaith i helpu i wella pa mor gadarn yw rhwydweithiau cyfathrebu
- Cefnogi cwsmeriaid telegyfathrebiadau gyda chostau byw uwch
- Rhaglen monitro a chydymffurfio i amddiffyn defnyddwyr telegyfathrebiadau

**Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi**

- Deddf Cyfryngau
- Rhaglen waith y Bwrdd Cynnwys ac adolygiad ohoni
- Rhaglenni'r BBC
- Diweddariadau Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl
- Dyfodol dosbarthu teledu

## Enghreifftiau o weithgareddau a wnaed gan y bwrdd

**Byw bywyd mwy diogel ar-lein**

- Twyll a sgamiau
- Cymharu'r Bil Diogelwch Ar-lein a Deddf Gwasanaethau Digidol yr UE
- Strategaeth diogelwch ar-lein
- Y Bil Diogelwch Ar-lein
- Diogelwch ar-lein: Diweddariad am ba mor barod yw Ofcom
- Ymgyngoriadau ar niwed anghyfreithlon, sicrhau oedran ac amddiffyn plant rhag niwed ar-lein
- Adborth ar ymgyngoriadau
- Y Pwyllgor Camwybodaeth a Thwyllwybodaeth

**Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach**

- Paratoadau ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2023
- Canlyniadau Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2023
- Diweddariad am drosglwyddydd Bilsdale

**Cyflawni ein swyddogaethau sefydlog**

- Diweddariadau ar y farchnad bost
- Adolygu prosesau cyfreitha
- Adolygu prosesau gorfodi

**Partneriaethau, gan gynnwys gallu, sgiliau a chryfhau Ofcom**

- Rhaglen Hyblygrwydd Ofcom
- Strategaeth ystadau
- Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol: ystyriaethau strategol
- Cynllun gwaith 2024/25 y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol
- Ymgysylltu rhyngwladol o ran safonau technegol

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd

Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygiad parhaus Aelodau ei Fwrdd, ac rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae pob Aelod Bwrdd sydd newydd gael ei benodi yn dilyn rhaglen gynefino gynhwysfawr a phwrpasol wrth ymuno ag Ofcom. Mae'r broses gynefino hefyd yn cynnwys dyletswyddau Aelodau a gweithdrefnau'r Bwrdd, prosesau rheoli mewnol, strategaethau a chynllunio, mesurau a ddefnyddir i fonitro perfformiad a'r Polisi Rheoli Risg ynghyd â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cyflwyniadau a chyfarfodydd briffio ar wahanol agweddau ar Gynllun Gwaith Ofcom yn ystod y flwyddyn.

## Adolygiad o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd i werthuso perfformiad y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd. Gan fod adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol wedi cael ei gynnal ym mlwyddyn 2021/22, cafodd adolygiad 2023/24 ei hwyluso'n fewnol.

Ystyriodd y Bwrdd ganlyniadau'r adolygiad a'i argymhellion yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2024, a chytunodd ar brif feysydd blaenoriaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu Ofcom yn parhau i weithio'n dda.

Roedd annog trafodaeth agored, cyfraniadau cytbwys a her adeiladol, cysylltiadau o fewn y Bwrdd a chysylltiadau â'r tîm rheoli ehangach, ansawdd y gefnogaeth gan y sefydliad, a gwybodaeth gan y Bwrdd i gyd yn cael sgôr uchel.

Nododd y Bwrdd fod rhai bylchau yn bodoli mewn arbenigedd anweithredol, gyda diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn flaenoriaeth benodol, er gwaethaf y sesiynau briffio rheolaidd o ansawdd uchel gan y weithrediaeth yn y maes hwn. Rhoddodd y Bwrdd ei sgôr isaf am ba mor dda roedd cyfansoddiad y Bwrdd yn adlewyrchu gofynion y sefydliad, gan gynnwys amrywiaeth yr aelodaeth, a nododd fod proses Llywodraeth y DU i benodi aelodau anweithredol newydd o'r Bwrdd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Dyma feysydd allweddol eraill a nodwyd drwy'r adolygiad:

- cymryd rhan mewn trafodaethau strategol yn gynharach er mwyn i'r Bwrdd allu helpu i lunio penderfyniadau
- papurau byrrach, yn enwedig lle mae'r rhain er gwybodaeth yn unig, gyda'r ffocws trafod ar heriau a dewisiadau
- neilltuo rhywfaint o amser y tu allan i gyfarfodydd misol y Bwrdd ar gyfer trafodaethau strategol ar sectorau/materion penodol lle gallai pwysau o ran amser gyfyngu, fel arall, ar drafodaeth.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel yn ei holl waith. Mae Ofcom yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus ac, i gefnogi hyn, mae Ofcom wedi sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch buddiannau Aelodau. Mae Cod Ymddygiad y Bwrdd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

Mae Ofcom yn mynd ati, mewn ffordd synhwyrol a phriodol, i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau'r Bwrdd, neu a all godi o bryd i'w gilydd, i sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddidueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Rhaid i Aelodau sicrhau hefyd bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'.

Mae Ofcom yn cadw Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol. Rhwng datganiadau blynyddol, mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth pan fydd eu buddiannau'n newid er mwyn i'r Gofrestr gael ei newid yn unol â hynny a, phan fydd angen, codi unrhyw wrthdaro posib gyda'r Cadeirydd a/neu Fwrdd llawn Ofcom. Mae hyn yn sicrhau bod gan Ofcom gofnod cyfredol o fuddiannau Aelodau, a chyhoeddir gwybodaeth berthnasol ar wefan Ofcom.

## Pwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Statudol

Wrth arfer dyletswyddau Ofcom dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag awdurdod a chylch gorchwyl sydd wedi'u diffinio'n glir.

Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyrff eraill sy'n cyflawni rôl lywodraethu neu gynghori i'r Bwrdd. Mae gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau a'r cyrff hyn yn cael eu disgrifio ar dudalennau 78-80.

## Y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol canlynol o'r Bwrdd: Angela Dean (Cadeirydd), Karen Baxter, a Will Harding. Fe wnaeth David Jones roi'r gorau i fod ar Fwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ym mis Ionawr 2024. Gwahoddir Cadeirydd Bwrdd Ofcom, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, y Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant a'r Pennaeth Llywodraethu i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys, ymysg pethau eraill, systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys adolygu effeithiolrwydd y systemau hynny. Mae rôl a chyfrifoldebau llawn y Pwyllgor Risg ac Archwilio, ynghyd â gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, wedi'u nodi yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar dudalen 85-88.

## Y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Prif bwrpas y Pwyllgor Pobl yw darparu safbwynt cynnar, tymor hir a strategol ar feysydd sy'n ymwneud â Phobl a Gweithlu Ofcom, a gwerthuso (drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr) a herio o bryd i'w gilydd y cynnydd a wnaed ar Strategaeth Pobl a Thrawsnewid Ofcom (pan ystyrir bod hynny'n briodol). Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan reolwyr Ofcom bod mesurau a chynlluniau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli talentau, datblygu talentau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli perfformiad, diwylliant a gwerthoedd, ac ymgysylltu â chydweithwyr, ynghyd â meysydd eraill yn ymwneud â phobl i ategu perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn pennu'r egwyddorion cyffredinol a'r paramedrau perfformiad ynghyd â'r polisi taliadau ar draws Ofcom, ac mae'n ystyried ac yn cymeradwyo telerau ac amodau unigol gwasanaethau, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Grŵp a chydweithwyr allweddol eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Grŵp eraill yr Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n cymeradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd Ofcom, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr allweddol eraill. Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl ddwywaith yn ystod 2023/24 yn ogystal ag ystyried a chytuno ar amrywiaeth o faterion drwy ohebiaeth rhwng cyfarfodydd ffurfiol.




## Y Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (hynny yw, masnachol ar draws y Deyrnas Unedig), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol.

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amserlennu darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae gan y Pwyllgor Etholiadau awdurdod dirprwyedig hefyd i wneud penderfyniadau ar gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a osodwyd gan Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni a ddarlledir yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys hyd at bum aelod. Clive Jones yw Cadeirydd y Pwyllgor Etholiadau, ac fe gafodd ei benodi gan Fwrdd Ofcom ym mis Ebrill 2024. Dewisir aelodau pwyllgor o blith y Bwrdd Cynnwys a/neu Ofcom, yn ôl penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor, gyda chworwm o dri aelod (mae angen i ddau ohonynt fod yn Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys).



## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi ei sefydlu o dan Adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyflawni rôl gynghori i Fwrdd Ofcom ar agweddau sy'n ymwneud â chynnwys mewn penderfyniadau neu faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer y Bwrdd.

Yn ystod 2023/24, parhaodd y Bwrdd Cynnwys â'i waith i ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion. Roedd yn edrych ar faterion lle'r oedd buddiannau dinasyddion yn ymestyn y tu hwnt i fuddiannau defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar fudd y cyhoedd. Bu'r aelodau'n ystyried ac yn cyfrannu at ddatblygiad polisi Ofcom yn ei gyfarfodydd ffurfiol, weithiau mewn is-grwpiau neu'n unigol. Ar ben hynny, roedd yr Aelodau'n parhau i helpu Ofcom i osod a gorfodi ansawdd a safonau ar gyfer teledu a radio. Hefyd, fe wnaeth y Bwrdd Cynnwys gyflawni rôl gynghori mewn perthynas â materion diogelwch ar-lein.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma Aelodau Anweithredol y Bwrdd oedd ar y Bwrdd Cynnwys: Clive Jones (Cadeirydd o 12 Chwefror 2024), Dekan Apajee, Simon Bucks, Maggie Cunningham, Bob Downes, Peter Horrocks, Maria McCann, Ruth McElroy, Stephen Nuttall, a Kim Shillinglaw ac Aelodau Gweithredol: Alison Marsden a Cristina Nicolotti Squires. Roedd Maggie Carver yn Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys tan 29 Ionawr 2024.

Cyfarfu'r Bwrdd saith gwaith yn 2023/24.

## Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw rhoi cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post. Yn ychwanegol at Aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori, mae'r Aelod o Fwrdd Ofcom, Aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y gwledydd yn gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori fel sylwedyddion.

Mae rôl y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, ynghyd â rôl Aelodau Gwledydd y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn hynod werthfawr o ran helpu Ofcom i ystyried materion penodol yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig wrth lunio a gweithredu ein polisïau.

Cyfarfu pob un o'r Pwyllgorau Cynghori bedair gwaith yn 2023/24. Mae gwybodaeth am y meysydd allweddol ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau Cynghori yn ystod y flwyddyn ar gael ar dudalennau 39-40. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma oedd Aelodau'r Pwyllgor Cynghori a'r sylwedyddion:

**Pwyllgor Cynghori Lloegr**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Paula Carter (Cadeirydd), Aaqil Ahmed, Grant Davis, Caroline Gardner, Edleen John a Mauro Mortali. |
| Sylwedyddion: | Angela Dean (Bwrdd Ofcom), Dekan Apajee (Content Board) a Richard Spencer (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |

**Advisory Committee for Northern Ireland**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Carrie Matchett (Cadeirydd), Jackie Neill, Aodhan O'Donnell, Colm Murphy, Paul Wickens a Michael Wilson. |
| Sylwedyddion: | Karen Baxter (Bwrdd Ofcom), Maria McCann (Content Board) a Rick Hill (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |

**Advisory Committee for Scotland**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Elizabeth Partyka (Cadeirydd), Ashe Hussein, Jessica McBeath, Stephen Speirs a Polly Tolley. |
| Sylwedyddion: | Bob Downes (Bwrdd Ofcom), Maggie Cunningham (Content Board) a Amanda Britain (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |

**Advisory Committee for Wales**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Robert Andrews (Cadeirydd), Aled Eirug, Angharad Evans, Karen Lewis, Amanda Rees a Geraint Strello. |
| Sylwedyddion: | Clive Jones (Bwrdd Ofcom), Ruth McElroy (Content Board) a Rachel Burr (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |

## Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn ac Anabl

Mae Adran 16 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Mae'n rhoi cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn ymarferol. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ystod y camau cynnar o ddatblygu polisi, er mwyn i ni allu rhoi cyngor i sicrhau bod llais defnyddwyr yn cael ei ystyried o'r cychwyn.

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn ystod 2012. Ond, nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o arbenigwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd â phrofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **www.communicationsconsumerpanel.org.uk**. Dyma Aelodau presennol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl: Rick Hill (Cadeirydd ac Aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon), Kay Allen, Amanda Britain (Aelod ar gyfer yr Alban), Rachel Burr (Aelod ar gyfer Cymru), Yr Athro Judith Clifton, Lenna Cumberbatch, Helen Froud, Dr Michelle Goddard, Robert Hammond, Richard Spencer (Aelod ar gyfer Lloegr) a Michael Wardlow.

Cyfarfu'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn ffurfiol un-ar-ddeg gwaith yn 2023/24. Mae'r Panel a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl wedi parhau â'u gwaith i gryfhau lleisiau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Gan ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau strategol i sicrhau bod gan bawb hawl gyffredinol i gael gwasanaethau cyfathrebu, safonau gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, a gwrando ar lais defnyddwyr, mae'r panel wedi darparu rhaglen eang o gyngor polisi arbenigol, mewnbwn ymchwil ac wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ledled y DU. Mae'r ymyriadau allweddol wedi cynnwys ymgysylltu eang ag Ofcom a chyrff defnyddwyr ynghylch fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, gan weithio'n agos gydag Ofcom, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r diwydiant ar y rhaglen newid i VOIP a chysylltedd yng nghefn gwlad, cynghori Ofcom a'r diwydiant ar y goblygiadau i ddefnyddwyr wrth ddiffodd 3G, ac ymgysylltu ag Ofcom a'r Post Brenhinol ar ddyfodol rheoleiddio'r gwasanaethau post. Mae gan y Panel gylch gwaith nawr i gynghori ar ran defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau o ran Diogelwch Ar-lein ac mae'n gweithio gydag Ofcom a rhanddeiliaid i siapio ei rôl yn y maes hwn.

## Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd yn: **www.osab.org.uk**

Aelodau'r Bwrdd yw Gavin Young (Cadeirydd), Greg Bensberg, Wassim Chourbaji, Yr Athro Mischa Dohler, Peter Hadinger, Alastair Macpherson, David Meyer, Dr Robert Pepper, Peter Pitsch, Ros Singleton, Alastair Davidson, Dr Abhaya Sumanasena, Dimitra Simeonidou, Raj Sivalingham (yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg) (Aelod ex-officio) a Cristina Data (Aelod ex officio).

Cyfarfu'r Bwrdd hwn bedair gwaith yn 2023/24.

### Amrywiaeth

**Roedd amrywiaeth ein haelodau anweithredol ehangach yn y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl ar ddiwedd y cyfnod adrodd fel a ganlyn:**

**Rhywedd**

**59%** Gwryw

**41%** Benyw

**Ethnigrwydd**

**90%** Gwyn

**10%** Lleiafrifoedd Ethnig

**Anabledd**

**91%** Dim Anabledd

**9%** Anabledd wedi'i ddatgan



## Y Bwrdd Rheoli a Pholisi

Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio.


Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cadeirio'r Bwrdd Rheoli a Pholisi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Grŵp, y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae Ysgrifennydd y Gorfforaeth yn bresennol ac mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Cyfarfu'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ddeng gwaith yn 2023/24.

### Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma oedd aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi:

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Y Fonesig Melanie Dawes DCB | Prif Weithredwr |
| Luisa Affuso | Prif Economegydd, Cyfarwyddwr Grŵp Economeg a Dadansoddeg |
| Martin Ballantyne | Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Grŵp Cyfreithiol |
| Aneen Blackmore | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Lindsey Fussell | Cyfarwyddwr Grŵp, Rhwydweithiau a Chyfathrebu |
| Jessica Hill[6] | Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant |
| Cristina Nicolotti Squires[3] | Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a'r Cyfryngau |
| Melissa Tatton CBE | Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Grŵp Corfforaethol |
| Yih-Choung Teh | Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth ac Ymchwil |
| Gill Whitehead | Cyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein |
| David Willis | Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm |

| **Cyn-aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi** | |
|---|---|
| Kevin Bakhurst (hyd at fis Ebrill 2023) | Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a'r Cyfryngau |
| Siobhan Walsh (Ebrill 2023 hyd at fis Ionawr 2024) | Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Darlledu a'r Cyfryngau |
| Kerri-Ann O'Neill (hyd at fis Ionawr 2024) | Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid |

### Amrywiaeth y Bwrdd Rheoli a Pholisi




6 O fis Chwefror 2024 ymlaen

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn cyflawni rôl arwain ehangach o ddydd i ddydd ar draws Ofcom ac mae'n cynnwys pob Cyfarwyddwr Grŵp, Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, a Chyfarwyddwr Cyfathrebu.

## Atebolrwydd

O dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Hefyd, anfonir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom at yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd Brydeinig ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu'n gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus rydym yn ei gael, a'n perthynas â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn y cyswllt hwn, yn cael eu disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r Datganiad Cyfrifon ar sail busnes byw.

## Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ein cynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ein gwefan. Lle bo modd, mae Ofcom yn sicrhau bod y data rydym yn ei greu a'i gasglu yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae data agored Ofcom ar gael ar un porth cyhoeddus ar ein gwefan ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau'r Llywodraeth ganolog a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2023/24, roedd Ofcom wedi ymateb i 459 o geisiadau am wybodaeth (395 o geisiadau yn 2023/23) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 76% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2023/24, cafodd 64 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (62 o geisiadau yn 2022/23) hefyd. Pan fo gennym wybodaeth berthnasol, fe wnaethom ddarparu'r wybodaeth honno.

## Ymgysylltu

Mae Ofcom yn ceisio ystyried safbwyntiau amrywiaeth eang o bartïon sydd â diddordeb wrth wneud penderfyniadau polisi. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, rydym hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys drwy gymryd rhan yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig a'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol), Sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig.

Mae ymgynghori hefyd yn rhan bwysig o broses Ofcom o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnyn nhw, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu sut byddwn yn gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ein holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom, a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2023/24, ar gael yn adran Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom ar dudalennau 47-49 yn yr Adroddiad Perfformiad.

## Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol

Mae lefel y bygythiad a nodir ar hyn o bryd gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a MI5 ar gyfer terfysgaeth ym Mhrydain Fawr ac yng Ngogledd Iwerddon yn sylweddol (mae ymosodiad yn debygol). Mae datganiad archwaeth risg Bwrdd Ofcom ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Ffisegol wedi'i bennu'n "Minimal". Mae asesiadau bygythiadau i safonau ISO27001 yn digwydd drwy'r amser gan ddefnyddio ymgynghoriaeth allanol ac archwilio mewnol. Mae hyn yn cynnal dull cyson a sefydlog o reoli diogelwch ffisegol a phersonol, gan gynnwys risg i unigolion yn sgil niwed ffisegol ac ar-lein.

## Cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr/ adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes

Drwy gydol 2023/2024, fe wnaeth Ofcom barhau i ddangos cadernid yn wyneb heriau a oedd yn achosi trafferthion i'r sefydliad. Mae ein cynlluniau cadarn ar gyfer Rheoli digwyddiadau a pharhad busnes wedi bod yn effeithiol o ran diogelu ein gweithrediadau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu.

Rydym wedi sicrhau bod ein system Rheoli Parhad Busnes yn cyd-fynd ag arferion gorau, ac rydym wedi cynnal asesiadau risg rheolaidd ac wedi cynnal profion ac ymarferion i ddilysu ein cynlluniau. Rydym wedi ymrwymo o hyd i barhau i adolygu a gwella, yn ôl yr angen, ein dulliau o reoli digwyddiadau a pharhad busnes i ddiogelu ein gweithrediadau a diogelu buddiannau ein rhanddeiliaid.

Mae Uwch Dîm Rheoli Ofcom yn dal wedi ymrwymo i Reoli Parhad Busnes, ac mae ein dull rhagweithiol o reoli risg yn ein galluogi i fod yn barod ar gyfer unrhyw heriau yn y dyfodol.

## Diogelwch Gwybodaeth

Mae ein hymrwymiad i Ddiogelwch Gwybodaeth a Seiberddiogelwch yn parhau i fod yn hollbwysig, ac rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i fod yn wyliadwrus ac yn gadarn er mwyn diogelu ein hasedau gwybodaeth a'n seilwaith digidol rhag amrywiaeth o fygythiadau posibl.

Wrth ystyried ein cylch gwaith a'n proffil cyhoeddus ehangach, rydym yn cydnabod y risg uwch o gael ein targedu gan amrywiaeth eang o weithredwyr maleisus.

Yn benodol, mae'r llu o fygythiadau seiber soffistigedig, fel ymosodiadau meddalwedd wystlo, ymosodiadau sy'n tarfu ar wasanaeth (DDoS), a chynlluniau peirianneg gymdeithasol, yn peri heriau sylweddol i'n sefyllfa o ran diogelwch. Mewn ymateb i'r bygythiadau sydd â sawl elfen iddyn nhw, rydym wedi rhoi cyfres gynhwysfawr o fesurau diogelwch ar waith, gan gynnwys rheolyddion mynediad cadarn, protocolau amgryptio, a system darganfod tresmasu. Ar ben hynny, rydym yn cynnal asesiadau rheolaidd o fygythiadau, gan ddefnyddio ffrydiau gwybodaeth am fygythiadau ac efelychiadau sy'n seiliedig ar senarios i nodi mewn modd rhagweithiol y risgiau a'r gwendidau sy'n dod i'r amlwg.

Ar ben hynny, rydym wedi cryfhau ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau ymatebion cyflym ac effeithiol os bydd achos o dorri diogelwch. Mae hyn yn cynnwys sefydlu protocolau uwchgyfeirio clir, cynnal ymarferion rheolaidd i drafod ymateb mewn argyfwng, a meithrin prosesau cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid yn y diwydiant i hwyluso'r gwaith o liniaru bygythiadau a rhannu gwybodaeth. Drwy'r ymdrechion hyn ar y cyd, rydym yn parhau i fod yn gadarn yn ein hymrwymiad i gynnal cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd asedau gwybodaeth hanfodol Ofcom yn wyneb bygythiadau sy'n esblygu i wybodaeth ac i fyd seiber.

Fe wnaethom ymchwilio i 62 achos o dorri rheolau diogelu data yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddau o'r achosion hyn er na chymerwyd camau pellach yn y naill achos na'r llall. Rydym wedi cadw ein hardystiad i'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth (ISO27001).

## Polisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth

Mae ein polisi chwythu'r chwiban yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau. Mae gennym Swyddogion Chwythu'r Chwiban dynodedig ond rydym hefyd yn defnyddio llinell gymorth chwythu'r chwiban, sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol, ac mae hyn yn caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw. Datgelu er lles y cyhoedd

## Datgelu er Lles y Cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond mewn sector rydym yn ei reoleiddio, gysylltu ag Ofcom os oes ganddyn nhw bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2023/24, cafodd Ofcom 77 o ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail gronnus, ac maen nhw'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r sefydliad ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'n ofynnol i mi wneud y canlynol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gyda'i gilydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a'r casgliadau y mae angen eu gwneud er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom.

**"Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac yn cadarnhau eu bod ar y cyfan, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, yn ogystal ag unrhyw gasgliad a ddefnyddir i benderfynu ar y farn hon."**

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau Ofcom, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

25 Gorffennaf 2024

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Yn ystod 2023/24, goruchwyliodd y Pwyllgor y broses gynhwysfawr o adolygu cofrestr risg Ofcom, a oedd yn cyflwyno templed cofrestr risg strategol a ddatblygwyd yn unol ag arferion gorau Llyfr Oren Trysorlys Ei Fawrhydi (Rheoli Risg), chwe risg strategol wedi'u haddasu, a graddfa sgorio effeithiolrwydd rheoli risg.

Fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ar berfformiad Ofcom o'i gymharu â'i gyllideb, ac ar ddrafftio cyllideb a chyflwyno adroddiadau ariannol.

Hefyd, cymerodd y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn 2023/24 ym maes seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth Ofcom, ac mewn rheoli data a gwybodaeth.

## Presenoldeb Aelodau yn ystod 2023/24

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2023/24. Dyma Aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2023/24 a'u presenoldeb:

| **Nifer y Cyfarfodydd** | **5** |
|---|---|
| Angela Dean (y Cadeirydd) | 5 |
| Karen Baxter | 5 |
| Will Harding | 5 |
| David Jones, hyd at fis Rhagfyr 2023 | 4 |

Roedd yr holl Aelodau'n bresennol ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd pan oedden nhw'n Aelod o'r Pwyllgor.

## Trosolwg

Ar ran Bwrdd Ofcom, mae'n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am oruchwylio priodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, llywodraethu risg, rheolaethau a systemau mewnol, a datganiadau ariannol Ofcom. Mae'r Pwyllgor yn cynnal y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), sef archwilwyr allanol Ofcom, gan gynnwys adolygu ei ffioedd a hyd a lled ei archwiliad o ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae hyn yn cynnwys ei asesiad o risgiau camddatganiadau o bwys ac afreoleidd-dra o bwys, ei hannibyniaeth, ei adnoddau ac effeithiolrwydd y broses archwilio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio gyda darparwr archwilio mewnol Ofcom, KPMG, i sefydlu Cynllun Blynyddol i archwilio elfennau penodol o Ofcom, ac wedyn yn monitro cynnydd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny.

Mae Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yn annibynnol ac ystyrir bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r profiad perthnasol ar lefel uwch. Mae gan fwy nag un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol, ac mae gan y Pwyllgor cyfan allu sy'n berthnasol i'r sector cyfathrebiadau y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn 2018, ac yn ogystal â'm profiad fel dadansoddwr ariannol, rwyf wedi bod yn gadeirydd neu'n aelod o nifer o Bwyllgorau Risg ac Archwilio a Phwyllgorau Cyllid, gan gynnwys Cadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau preifat bob blwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, yn ogystal â'r darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel rhan o fy rôl i fel Cadeirydd y Pwyllgor, bûm yn cwrdd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r darparwr archwilio mewnol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd, heb fod Rheolwyr Ofcom yn bresennol. Gall y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gysylltu â mi yn uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno codi unrhyw beth maen nhw'n teimlo na fyddai'n briodol ei godi'n uniongyrchol gyda rheolwyr Ofcom.

Cafodd Deloitte ei ailbenodi'n archwilydd mewnol Ofcom ym mis Mawrth 2024, yn dilyn proses dendro deg ac agored; roedd aeddfedrwydd cynnig Deloitte yn amlwg ac, o blith y rheini a ymatebodd i'r gwahoddiad i dendro, dyma'r un a fyddai'n rhoi'r gwerth gorau am arian i Ofcom. Fel Cadeirydd y Pwyllgor, roeddwn ar y panel tendro ac fe wnes i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

## Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i'w weld **yma**.

Mae gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gyda'r Pwyllgor yn neilltuo ei amser yn 2023/24 fel hyn:

- adrodd ariannol a materion cysylltiedig;
- adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- llywodraethu, gan gynnwys diweddariadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol;
- rheoli risg;
- archwilio mewnol;
- archwilio allanol;
- seiberddiogelwch, diogelwch personol a ffisegol, a TGCh; a
- pethau eraill (er enghraifft, ymgyfreitha, llwgrwobrwyo a thwyll).

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dryloyw ac yn onest. Yn ogystal ag Aelodau penodedig y Pwyllgor, mae gan y canlynol wahoddiadau parhaol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor:

- Ofcom: Y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Llywodraethu
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: cynrychiolwyr Tîm Archwilio Allanol Ofcom
- Deloitte: cynrychiolwyr Archwilydd Mewnol Ofcom

### Datganiadau Ariannol a Pholisïau Cyfrifyddu

Ar y cyd â Rheolwyr Ofcom, y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adolygodd y Pwyllgor y Datganiadau Ariannol a'r dogfennau cysylltiedig i weld a oedd y rhain yn cynnwys camddatganiadau o bwys, ac a oedden nhw wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adrodd ariannol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi herio penderfyniadau Rheolwyr Ofcom, a'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried polisïau cyfrifyddu ariannol Ofcom a'r rhagdybiaethau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gyda'r canlyniadau, gan gynnwys yr asesiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

### Y Fframwaith Risg a Rheolaeth, a Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, ac mae'n cynnwys risgiau strategol a risgiau gweithredol mewn Polisi Rheoli Risg, sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu. Roedd y fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y flwyddyn adrodd ac mae'n cynnwys parhad busnes, rheolaethau ariannol a mecanweithiau i sicrhau cydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau. I sicrhau bod ein Fframwaith Rheolaeth a Rheoli Risg yn effeithiol ac yn gydnaws â'n gofynion, mae adolygiad o'n Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei gynnal yn rheolaidd.

Yn ystod 2023/24, bu'r Pwyllgor yn goruchwylio'r gwaith a wnaethpwyd i ddiweddaru'r Gofrestr Risg Strategol, templedi'r gofrestr risg a Graddfa Sgorio Effeithiolrwydd Rheoli Risg. Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chefnogi'r fframwaith a'r dull gweithredu sy'n sail i'r gofrestr risg strategol newydd, graddfa effeithiolrwydd rheoli risg a'r dull arfaethedig o lywodraethu. Cymeradwyodd y Pwyllgor y gofrestr, gan gynnwys y risgiau strategol i'w cyflwyno i'r Bwrdd. Gweithiodd y Pwyllgor gyda'r Weithrediaeth i sicrhau bod rheoli risg yn parhau i fod yn effeithiol wrth i'r gofrestr risg a'r fframwaith gael eu diweddaru. Ym mis Mai 2024, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Datganiad wedi'i Ddiweddaru ar Agwedd at Risg a Pholisi Rheoli Risg wedi'i ddiweddaru, a'u cymeradwyo i'w cyflwyno i Fwrdd Ofcom. Cafodd y ddau eu cymeradwyo wedyn gan Fwrdd Ofcom.

Mae diweddariad llafar ar faterion sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Ofcom, a bydd unrhyw newidiadau i'r sgoriau risg yn cael eu cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Bwrdd gan y Pwyllgor. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn ymchwilio'n fanwl, i risg strategol fel arfer, yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd.

### Ymchwiliad Manwl a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2023/24

- Rheoleiddiwr Dibynadwy (risg strategol)
- Diogelwch Gwybodaeth a Seiberddiogelwch (risg strategol)
- Canfyddiadau newydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Ddiogelwch Ar-lein
- Rheoli Risg

### Rheolaethau Mewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei ddirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Mae'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw achosion o dorri rheolau ym mhob cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol Ofcom. Mae disgrifiad o system rheolaeth fewnol y sefydliad wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 62.

Yn 2023/24, cyfarfu'r Pwyllgor â'r tîm Cyllid i brofi'r rhagdybiaethau a'r rheolaethau sydd wrth wraidd y broses o gynllunio'r gyllideb, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro cynnydd yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni, ac adolygu'r gyllideb ddrafft cyn ei chyflwyno i'r Bwrdd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch ymrwymiad Ofcom i gynnig gwerth am arian.

Daw rhagor o sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws Ofcom, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Grŵp Llywio Diogelu Data, y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, a'r Grŵp Parhad Busnes. Cafodd Fframwaith Polisi newydd ei gyflwyno yn 2023/24 sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i'r Pwyllgor. Fe wnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro rhaglen sydd ar draws Ofcom i gryfhau prosesau rheoli a chadw data.

### Seiberddiogelwch, Diogelwch Ffisegol, Diogelwch Gwybodaeth a Diogelwch Personol

Fe wnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro pa mor barod yw Ofcom ar gyfer bygythiadau seiber a bygythiadau eraill i'w rwydweithiau diogel. Yn benodol, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod mesurau lliniaru a dulliau Ofcom i fod yn barod ar gyfer ymosodiadau seiber, yn effeithiol ac yn briodol.

Fe wnaeth y Pwyllgor barhau i gael diweddariadau ym mhob cyfarfod ar seiberddiogelwch, diogelwch ffisegol, diogelwch gwybodaeth a diogelwch personol i sicrhau bod y gwaith yn parhau i gyd-fynd â gofynion y safon Diogelwch Gwybodaeth ISO27001.



## Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a Phwyslais Adolygiadau yn 2023/24

Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Archwiliadau Mewnol yn cynnwys rhaglen waith yn seiliedig ar risg ar draws ystod o elfennau rheoli allweddol. Roedd y rheolwyr wedi trafod y rhaglen, ac roedd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor ar sail hanner blwyddyn. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol gan y darparwr archwilio mewnol ar gynnydd ei archwiliadau, ei adroddiadau archwiliad mewnol terfynol (gan gynnwys ymateb Rheolwyr Ofcom i'r canfyddiadau lle bo'n briodol) a'r cynnydd a wnaed i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliadau.

**Meysydd Archwilio Mewnol y rhoddwyd sylw iddyn nhw yn ystod 2023/24**

- Ymchwil
- Gorfodi
- Rheoli Data: Salesforce
- Rheoli Parhad Busnes: Camau dilynol
- Rheolaethau ariannol allweddol
- Rheoli risg

### Elfennau eraill i'w hadolygu

Mae Polisïau Ofcom ar Chwythu'r Chwiban, Atal Llwgrwobrwyo a Thwyll yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r polisi Chwythu'r Chwiban yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gyfleu i'r holl gydweithwyr i'w hatgoffa y gallant godi materion yn ddienw gyda darparwr llinell gymorth chwythu'r chwiban Ofcom. Ni chafodd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban eu cyfeirio a/neu eu hadrodd ers yr adolygiad blynyddol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021.

Rhoddodd y Pwyllgor fewnbwn i'r Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau Cydweithwyr, a oedd yn egluro pam fod gan Ofcom bolisi gwrthdaro rhwng buddiannau a pham roedd angen i gydweithwyr gydymffurfio â'r polisi hwn. Roedd y polisi yn cynnwys gofynion ar gyfer cydweithwyr wrth bostio ar y cyfryngau cymdeithasol (arferai hyn fod yn bolisi ar wahân).

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd ar Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom, Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom (cyn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar newidiadau i'r Fframwaith), a pholisïau cyfrifyddu Ofcom.

### Adrodd i'r Bwrdd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio, rwyf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y prif faterion a drafodir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r adolygiad llawn o gofrestr risg Ofcom a'r gwaith a wnaethpwyd.

### Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Cynhaliwyd adolygiad wedi ei hwyluso'n fewnol o berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor fel rhan o Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol, ac nid oedd dim sgôr gyfartalog o dan '4 – da iawn', ac eithrio adroddiadau ariannol a oedd wedi gwella ers 2022/23 ac a gafodd sgôr o '3.8 – da'. Ystyriwyd bod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol, yn annog trafodaeth agored a her adeiladol. Rhoddwyd sgôr uchel i ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â risg, adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau archwilio allanol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i weithio gyda'r Weithrediaeth i sicrhau bod adroddiadau ariannol yn cael eu datblygu ymhellach.

**Angela Dean**
Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio,
25 Gorffennaf 2024

# Ein gweithwyr

Mae Ofcom yn newid wrth i ni ysgwyddo dyletswyddau newydd a gwella ein galluoedd ar gyfer y dyfodol. Mae llawer o'n swyddi yn unigryw i Ofcom, ac mae ymuno â ni yn gyfle i bobl ddatblygu sgiliau a llwybrau gyrfa newydd.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran meithrin arbenigedd mewnol mewn marchnadoedd digidol, technolegau datblygol a rhai ar-lein a dadansoddi data, yn ogystal â meysydd fel dylunio algorithmig, dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial. Rydym am wneud yn siŵr hefyd fod gan ein pobl amrywiaeth o gefndiroedd a bod ganddyn nhw gymysgedd cryf o brofiad masnachol a diwydiannol i sicrhau rheoleiddio effeithiol. Fel rhan o'n strategaeth ehangach i ddod yn sefydliad mwy amrywiol, rydym yn recriwtio pobl o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Yn 2023/24 fe wnaethom recriwtio 42 rôl ychwanegol i'n swyddfa ym Manceinion, a 18 swydd yng Nghaeredin yn dilyn rhaglen recriwtio i'n helpu i gyflawni ein gwaith diogelwch ar-lein.

Mae ein dull rheoli perfformiad a gyrfaoedd yn parhau i gyfuno ffocws ar ragoriaeth gyda chefnogaeth i'n cydweithwyr. Rydym yn darparu pecyn cynhwysfawr ar ddysgu arwain, i'r holl Reolwyr Perfformiad a Gyrfaoedd ac i gydweithwyr eraill, sy'n cynnwys hyfforddiant ar fod yn hyderus o ran anabledd ac arweinyddiaeth gynhwysol. Nod hwn yw cryfhau ansawdd ein harweinyddiaeth ar draws Ofcom a'n helpu ni i ddenu, tyfu a chadw'r talentau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau, a chyflawni at safon uchel ar draws ein cylch gwaith.

## Amrywiaeth, cynhwysiad a llesiant

Credwn fod yn rhaid i Ofcom fod mor gynrychioladol ag y gallwn fod o wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU, os ydym am wneud ein gwaith a gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig. At y diben hwn, fe wnaethom osod strategaeth bum mlynedd ar amrywiaeth a chynhwysiad yn 2021, gyda thargedau i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a chynlluniau i feithrin diwylliant yn y gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain.

Roedd y strategaeth yn amlinellu ein cynlluniau i greu:

- gweithlu mwy amrywiol
- diwylliant cynhwysol
- prosesau, systemau a pholisïau teg
- cydweithwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros amrywiaeth a chynhwysiad
- arweinwyr sy'n dangos esiampl
- cysylltiadau cryfach â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar bum gwerth hirsefydlog Ofcom, sef rhagoriaeth, cydweithio, hyblygrwydd, grymuso a pharch. Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd. Rydym wedi trawsnewid ein dull recriwtio i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ni fod yn fwy amrywiol wrth i ni dyfu gyda dyletswyddau newydd. Rydym wedi ffurfio partneriaeth â chwmni recriwtio allanol sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein canlyniadau recriwtio amrywiaeth ac mae'n ein cefnogi i ystyried amrywiaeth drwy gydol y broses o recriwtio rheolwyr. O ganlyniad, rydym wedi rhagori ar ein targed i gael 16% o bobl hŷn o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig erbyn 2026, dair blynedd yn gynnar. Rydym wedi gosod targed newydd mwy heriol o 19% erbyn 2026 i sicrhau ein bod yn cynnal y cynnydd.

Yn ogystal, rydym wedi canolbwyntio mwy ar gyflogi pobl sydd ar ddechrau eu gyrfa, ac mae gennym bartneriaethau newydd i estyn allan at gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar gyfer ein cyfleoedd gwaith. Yn 2023/24, fe wnaethom recriwtio 22 o interniaid o dan y rhaglen 10,000 Black Interns, 24 o brentisiaid a 34 o raddedigion.

Rydym yn ceisio meithrin diwylliant yn y gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain. Rydym yn mesur cynhwysiad drwy adrodd yn rheolaidd gan gynnwys yn ein harolwg staff blynyddol. Roedd cynnydd yn ein mynegai cynhwysiad ac ymgysylltiad mewnol eleni, sy'n cael ei fesur gan gwmni allanol. Mae ein polisïau a'n harferion gwaith yn cael eu hadolygu'n gyson, a thrwy gydweithio â'n rhwydweithiau amrywiaeth staff, rydym wedi ymrwymo o hyd i wneud yn siŵr ein bod yn dal i wella a thyfu fel sefydliad ac yn cyflawni ein gwaith ar ran defnyddwyr a dinasyddion.

### Cefnogi llesiant cydweithwyr

Mae ein rhaglen llesiant Thrive@Ofcom yn dal i ganolbwyntio ar gefnogi llesiant yn y gwaith. Rydym yn cynnig mynediad at wasanaeth cymorth i weithwyr sydd ar gael 24 awr y dydd, yn ogystal â gwasanaeth meddygon teulu rhithwir, sydd ar gael 365 diwrnod y flwyddyn. Mae gennym fynediad hefyd at wasanaeth meddygol preifat, sy'n darparu mynediad at therapyddion a chwnselwyr sydd wedi cael hyfforddiant, a chyfrif am ddim ar gyfer yr ap myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar, Calm.

Rydym wedi cyfuno ein cymorth llesiant drwy 18 o gynghreiriaid sydd wedi'u hyfforddi ar gam-drin domestig yn Ofcom a saith cynghorydd cam-drin domestig ochr yn ochr â 73 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl sy'n darparu gwybodaeth a chyngor am sut mae rheoli llesiant meddyliol.

### Monitro ac adrodd ar ein cynnydd

Rydym yn monitro ein polisïau, ein harferion a'n prosesau drwy ddadansoddi data ac adroddiadau mewnol, ac arolygon blynyddol i gydweithwyr. Rydym yn defnyddio meincnodau allanol ar amrywiaeth a chynhwysiad, yn cynnal archwiliad rheolaidd ar gyflog cyfartal, ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog. Yn 2023, cawsom ein cydnabod ymysg y 50 Cyflogwr Gorau ar gyfer Menywod gan The Times, cawsom wobr efydd ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall, a chawsom sgôr ragorol gan y meincnod Buddsoddi mewn Ethnigrwydd. Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2), ac mae gennym achrediad Hyder mewn Gofal (Lefel 2).

### Cynnwys ac ymgynghori â chydweithwyr

Mae ein cydweithwyr yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gan Ofcom safbwyntiau amrywiol yn ei ffordd o weithredu yn y gweithle. Mae ein dulliau ffurfiol ac anffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â phobl sy'n gweithio yn Ofcom yn cynnwys:

- Mae'r Grŵp Ymgynghori ar y Cyd yn gyfarfod bob deufis o Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig cydweithwyr ar draws Ofcom, a chynrychiolwyr o'n hundeb llafur cydnabyddedig, Prospect.
- Arolygon cydweithwyr, sy'n gofyn i gydweithwyr rannu eu safbwyntiau'n ddienw am amrywiaeth o bynciau sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i ddatblygu ein sefydliad.
- Ein wyth rhwydwaith amrywiaeth cydweithwyr sy'n ymwneud â nifer o faterion a chymunedau.
- Fforymau agored gyda'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli.
- Mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob lleoliad.
- Cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â phobl o bob cwr o Ofcom, ac i glywed ganddyn nhw.

## Tabl A: Cynnydd o ran cynrychioli amrywiaeth

| | Sefyllfa gychwynnol Blwyddyn 1 (Diwedd Mawrth 2022) | Y sefyllfa ar ddiwedd Blwyddyn 3 (Mawrth 2024) | Uchelgais Terfynol Mawrth 2026 |
|---|---|---|---|
| Menywod mewn rolau uwch | 44% | 46% | Cydbwysedd cyfartal |
| Ethnigrwydd mewn rolau uwch | 11% | 17% | 19% (16% yn wreiddiol) |
| Anabl – ar draws Ofcom | 12% | 12% | 15% |

Sylfaen: Pob cydweithiwr ar ddiwedd Mawrth 2024. Mae'r rolau uwch yn cynnwys staff ar raddfeydd Pennaeth a graddfeydd uwch reolwyr ac arbenigwyr.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Yn Ofcom, rydym yn credu y dylai pawb ar bob lefel weithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a grymusol. Mae ein prosesau a'n polisïau yn cael eu hadolygu drwy'r amser i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion cyfraith cyflogaeth, ac yn adlewyrchu arferion gorau a'n gwerthoedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom gyflwyno nifer o bolisïau cymorth newydd, gan gynnwys polisi ar y menopos. Rydym wedi diwygio ein polisi rheoli straen, polisi cymorth gyda cham-drin domestig, ac wedi cyflwyno rhaglen cynghreirio i gefnogi unrhyw gydweithiwr sy'n wynebu cam-drin domestig gartref. Fe wnaethom hefyd gyflwyno polisi newydd, sy'n adlewyrchu ein rôl ehangach mewn Diogelwch Ar-lein, ar gyfer y rheini sy'n gorfod gweithio gyda chynnwys sy'n peri gofid, gan gynnwys fideos a delweddau annymunol, fel rhan o'u rôl, i leihau'r risg iddyn nhw a'u cefnogi i wneud y gwaith hwn yn ddiogel.

## Ymgysylltu â gweithwyr a throsiant

Rydym yn cadw golwg ar lefelau ymgysylltu â gweithwyr drwy arolwg blynyddol annibynnol o gydweithwyr. Ym mis Mehefin, roedd hyn yn 75% (+3pwynt o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Rydym wedi cofnodi lefelau uchel o falchder ymysg cydweithwyr sy'n gweithio yn Ofcom, ac mae'r sgôr hon wedi bod yn gyson dros 80% ar gyfer y flwyddyn hon a'r blynyddoedd blaenorol. Rydym yn ategu hyn gydag adolygiad manwl bob mis o'n data lle rydym yn adrodd ar lefel trosiant gweithwyr ac yn edrych ar y rhesymau a gawn drwy ddata gadael. Ar gyfer 2023/24, roedd ein trosiant gros ar draws Ofcom yn 10.4% sy'n cyd-fynd â blynyddoedd blaenorol, ac mae o fewn ein lefel goddefgarwch sefydlog.

## Absenoldeb

Ein nod yw trin pobl sy'n sâl yn deg a gyda thosturi gan roi cefnogaeth iddyn nhw, lle bo modd, i'w helpu i wella a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2023/24, roedd gweithwyr Ofcom yn colli 4.8 diwrnod gwaith y flwyddyn (2022/23 = 4.3 diwrnod), o'i gymharu â chyfartaledd y sector cyhoeddus o 8.1 diwrnod y flwyddyn ar ddiwedd mis Mawrth 2023.



# Adroddiad taliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n ymarferol ac yn briodol ag Atodlen 8 o Reoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae dull gweithredu'r Bwrdd yn seiliedig ar egwyddorion penodol a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig, ac mae'n diwallu gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol. Nid yw'n ofynnol i Ofcom weithredu gofynion atebolrwydd Seneddol FReM yn ei adroddiadau blynyddol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn un o is-bwyllgorau Bwrdd Ofcom. Mae'n cynnwys yr aelodau canlynol:

- Ben Verwaayen, Cadeirydd
- Maggie Carver (gadawodd Fwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Pobl ar 29/01/2024) ;
- Angela Dean ;
- Bob Downes ;
- Michael Grade ; a
- David Jones (gadawodd Fwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Pobl ar 07/01/2024)

Byddai'r Pwyllgor hefyd fel arfer yn disgwyl i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth fynychu cyfarfodydd. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Pobl hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr yn Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol. Ni fydd yr un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi Taliadau

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Pobl y dylai Ofcom, gan ystyried ei fod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau sefydlog a fydd yn denu ac yn cadw'r bobl o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Nid yw Ofcom yn darparu cynllun cymhelliant tymor hir ar gyfer ei weithwyr o gwbl, nac yn talu bonws ymuno.

## Elfennau taliadau

Mae prif elfennau tâl Cyfarwyddwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr yn cyd-fynd â'n dull o ymdrin â thâl pob cydweithiwr, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol, cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr, ac amrywiaeth o fuddion hyblyg sy'n cynnwys yswiriant bywyd lwfans arian parod, yswiriant incwm grŵp, yswiriant meddygol preifat, ac archwiliad iechyd blynyddol fel elfennau safonol.

1. **Cyflog sylfaenol**
2. **Buddion safonol a hyblyg**
   - Yswiriant meddygol preifat
   - Yswiriant bywyd
   - Gwarchodaeth incwm grŵp
   - Archwiliad iechyd blynyddol
3. **Cynllun Bonws Blynyddol**
4. **Pensiwn**
   - Cynllun pensiwn a'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr
   - Lwfans pensiwn fel % o'r cyflog

## Cyflog sylfaenol

Pennir cyflog sylfaenol pob gweithiwr drwy ystyried cyfrifoldebau, sgiliau a phrofiad pob cydweithiwr, ynghyd â dadansoddiad meincnodi o dueddiadau'r farchnad berthnasol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei ystyried yn flynyddol, a daw unrhyw newid i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn fel arfer. Rydym yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynyddol o ran rhywedd ac ethnigrwydd.

## Buddion Hyblyg

Mae Ofcom yn cynnig lwfans buddion hyblyg i gydweithwyr ar sail eu graddfa. At ddibenion y tablau taliadau, dim ond gwerth yswiriant meddygol preifat sydd wedi'i gynnwys. Nid yw cyfanswm gwerth y warchodaeth incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael eu datgelu o dan fuddion o fath arall gan nad yw Cyllid a Thollau EF yn trin y rhain fel budd cyflogaeth sy'n drethadwy.

## Cynllun Bonws Blynyddol

Mae gennym gynllun bonws blynyddol ar waith ar gyfer pob cydweithiwr sy'n gwobrwyo cydweithwyr os bydd Ofcom yn cyflawni ei flaenoriaethau sefydliadol a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Pobl yn cymeradwyo'r gyllideb, y blaenoriaethau a'r dyfarniadau. Mae'r bonws blynyddol yn cael ei dalu ym mis Gorffennaf ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae ffigur y bonws yn cael ei gronni'n flynyddol.

Bydd cydweithwyr cymwys yn cael dyfarniad fel swm penodol fesul graddfa ar sail pro rata.

## Pensiwn

Mae Ofcom yn cynnig pensiwn cyfranddeiliaid (cyfraniad wedi ei ddiffinio) i bawb. Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cael lwfans pensiwn, sy'n cael ei bennu fel % o'r cyflog sylfaenol. Gellir buddsoddi hyn mewn un o ddau gynllun pensiwn – y Brif Ymddiriedolaeth a'r Cynllun Pensiwn Grŵp (mae'r ddau gynllun yn caniatáu i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud drwy ildio cyflog) neu eu cymryd fel cyflog ychwanegol. [7] Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Datgeliad cyflog teg (wedi'i archwilio)

Mae Ofcom yn credu mewn cyflog teg. Rydym yn cadw golwg ar hyn drwy fonitro cymhareb cyflog teg, sy'n cymharu'r unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweddill y sefydliad. Mae'r data'n cael ei gyfrifo a'i gyflwyno yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

Ar gyfer datgeliadau cyflog teg, cymerir cyfanswm y ffigur tâl ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n cynnwys cyflog, tâl perfformiad heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau ac nid yw'n cynnwys lwfans hawl pensiwn ac unrhyw daliadau diswyddo. Nid yw'r tâl canolrifol yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

| | | 2023/24 | | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|---|
| % newid o ran y cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf | band tâl (£'000) | 365-370 | | 345-350 | |
| | cyflog a lwfansau | 6.43% | | 2.33% | |
| | tâl perfformiad a thaliadau bonws sy'n daladwy | (29.41%) | | - | |
| % newid o ran pob gweithiwr | cyflog a lwfansau | 1.89% | | 3.61% | |
| | tâl perfformiad a thaliadau bonws sy'n daladwy | 5.06% | | 426.97% | |
| Cymhareb Tâl cyflog a buddion cyfan | 25ain canradd | 8.15 | £45,116 | 8.09 | £42,941 |
| | Canolrif | 5.87 | £62,658 | 5.75 | £60,422 |
| | 75ain canradd | 4.24 | £86,587 | 4.07 | £85,338 |
| Cymhareb Tâl elfen cyflog a lwfans | 25ain canradd | 9.07 | £40,498 | 8.92 | £38,973 |
| | Canolrif | 6.68 | £54,978 | 6.57 | £52,901 |
| | 75ain canradd | 4.83 | £76,035 | 4.67 | £74,470 |
| Taliadau | Cyfanswm y taliadau | £109.4m | | £100.0m | |
| | Ystod | £21,587 - £368,581 | | £20,461 - £349,191 | |

## Newidiadau mewn cymarebau cyflogau

Mae'r cynnydd yn y flwyddyn bresennol yng nghyflog a lwfansau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf o 6.43% wedi digwydd oherwydd cynnydd yn eu cyflog, a'r gostyngiad mewn taliadau bonws sy'n daladwy o 29.41% wedi digwydd oherwydd bonws is o'i gymharu â'r hyn a dalwyd yn 2022/23. Mae'r cynnydd yn y tâl perfformiad (1.89%) a'r taliadau bonws (5.06%) sy'n daladwy i bob gweithiwr wedi digwydd oherwydd cynnydd mewn cyflog a bonysau.

Roedd y cynnydd o 426.97% yn y tâl perfformiad a'r taliadau bonws a oedd yn daladwy i'r holl weithwyr rhwng 2021/22 a 2022/23 wedi digwydd oherwydd nad oedd taliadau bonws yn cael eu talu i gydweithwyr oherwydd pandemig Covid, ond roedd taliad cyfartalog o £291.37 yn gysylltiedig â pherfformiad wedi cael ei roi i rai gweithwyr. Yn 2022/23, pan gafodd y cynllun bonws ei adfer, y swm cyfartalog oedd £1,535.43.

7 I gael rhagor o fanylion am bensiynau, gweler Nodyn 20 i'r cyfrifon ar dudalen 136

## Tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd aelodau'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Cyfarwyddwyr Grŵp wedi eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd cyffredinol, ac maen nhw wedi eu nodi yn y tablau a'r nodiadau a ganlyn.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau parhaol o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n Gyfarwyddwyr Grŵp.

Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rôl am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2023/24 neu 2022/23.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/ Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 65-69), dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau.

Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys unrhyw dâl ychwanegol y tu hwnt i'w ffioedd. Mae Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom hefyd yn cael offer TG os oes angen.

### Tabl 1: Taliadau Aelodau Anweithredol, Bwrdd Ofcom

| Math | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2023/24 | Ffioedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Angela Dean** | 1 | 42,519 | 42,519 |
| **Ben Verwaayen** | 1 | 42,519 | 42,519 |
| **Bob Downes** | 1 | 42,519 | 42,519 |
| **Clive Jones** | 1,2 | 5,708 (42,519) | - |
| **David Jones +** | 1, 2 | 32,660 | 42,519 |
| **Graham Mather +** | 1, 2 | - | 38,976 |
| **Karen Baxter** | 1 | 42,519 | 42,519 |
| **Maggie Carver +** | 1, 2 | 57,826 | 74,167 |
| **Michael Grade** | 1 | 142,500 | 130,625 (142,500) |
| **Will Harding** | 1 | 42,519 | 21,260 (42,519) |
| **CYFANSYMIAU** | | **451,289** | **477,623** |

## Nodyn Canllaw 1:

Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn Nhabl 1 yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008. Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn (+), pan adawodd/ymunodd yr Aelod Anweithredol â Bwrdd Ofcom.

## Nodyn Canllaw 2:

Daeth cyfnod Maggie Carver i ben fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ofcom a Dirprwy Gadeirydd ar 29 Ionawr 2024.

Daeth tymor David Jones i ben fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ofcom ar 7 Ionawr 2024.

Daeth tymor Graham Mather i ben fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ofcom ar 28 Chwefror 2023.

Ymunodd Clive Jones fel Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 12 Chwefror 2024, a chafodd £5,708 ei dalu am y cyfnod adrodd ym mis Mai 2024.

## Tabl 2: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Bwrdd Cynnwys Ofcom | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2023/24 | Ffioedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Dekan Apajee | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Jonathan Baker + | 3, 4 | 8,400 | 16,800 |
| Kim Shillinglaw | 4 | 16,800 | 16,800 |
| Maggie Cunningham | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Maria McCann | 3 | 16,800 | 6,109 (16,800) |
| Monisa Shah + | 3, 4 | 8,400 | 16,800 |
| Peter Horrocks | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Rachel Coldicutt + | 3, 4 | 7,467 | 16,800 |
| Ruth McElroy | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Simon Bucks + | 3, 4 | 9,800 | - |
| Stephen Nuttall | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Tobin Ireland + | 3, 4 | 9,800 | 16,800 |
| **CYFANSYMIAU** | | **161,467** | **174,109** |

### Nodyn Canllaw 3:

Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

Y ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yw £16,800 y flwyddyn.

Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn (+), pan adawodd/ymunodd yr Aelod Anweithredol â Bwrdd Ofcom.

### Nodyn Canllaw 4:

Gadawodd Jonathan Baker y Bwrdd Cynnwys ar 30 Medi 2023.

Ymunodd Simon Bucks â'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Medi 2023.

Gadawodd Rachel Coldicutt y Bwrdd Cynnwys ar 11 Medi 2023.

Gadawodd Tobin Ireland y Bwrdd Cynnwys ar 31 Hydref 2023.

Gadawodd Monisa Shah y Bwrdd Cynnwys ar 30 Medi 2023.

## Tabl 3: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom (2023/24)

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd £ | Lwfans/hawl pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2023/24 £ | Cyfanswm y taliadau 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Melanie Dawes | 5 | 12 | 342,058 | 68,412 | 15,000 | 3,694 | 6,000 | 435,164 | 413,097 |
| Lindsey Fussell | 5 | 12 | 265,350 | 39,803 | 15,000 | 3,694 | 6,000 | 329,847 | 316,562 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **765,011** | **729,659** |

Bonws perfformiad a ddyfarnwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, a dalwyd ym mis Gorffennaf 2023

## Tabl 4: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi | Total salary paid £ | Pension entitlement/ allowance £ | Flexible benefits allowance £ | Benefits in kind £ | Annual performance bonus £ | Total remuneration paid 2023/24 £ | Total remuneration paid 2022/23 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alison Marsden | 5 | 12 | 160,294 | 24,044 | 15,000 | 3,694 | 4,000 | 207,032 | 198,472 |

## Tabl 5: Taliadau Cyfarwyddwr Grŵp Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd £ | Hawl pensiwn/ | Lwfans buddion hyblyg | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2023/24 £ | Cyfanswm y taliadau 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Luisa Affuso | 5 | 12 | 248,746 | 37,312 | 15,000 | 3,694 | 6,000 | 310,752 | 298,276 |
| Martin Ballantyne | 5 | 12 | 245,348 | 36,802 | 15,000 | 3,694 | 6,000 | 306,844 | 289,163 |
| Yih-Choung Teh | 5 | 12 | 240,450 | 36,068 | 15,000 | 3,694 | 6,000 | 301,212 | 289,163 |
| Gillian Whitehead | 5 | 12 | 295,688 | 44,353 | 15,000 | 3,694 | 6,000 | 364,735 | 51,414 |
| Cristina Nicolotti Squires + | 5, 6 | 2 | 44,758 | 6,714 | 2,500 | 463 | - | 54,435 | - |
| David Willis | 5 | 12 | 243,812 | 36,572 | 15,000 | 2,955 | 3,500 | 301, 839 | 167,602 |
| Melissa Tatton | 5 | 12 | 240,450 | 36,068 | 15,000 | 2,955 | 6,000 | 300,473 | 288,545 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **1,940,290** | **1,348,163** |

### Nodyn Canllaw 5:

Dangosir cyfanswm y taliadau blynyddol ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom sydd, neu a oedd, yn Gyfarwyddwyr Grŵp yn ystod cyfnod adrodd 2023/24. Y ffigur hwn yw'r hawl am dâl am y cyfnod adrodd felly bydd yn llai na'r cyfwerth ag amser llawn os na chafodd blwyddyn lawn ei gweithio fel Cyfarwyddwr Grŵp.

Mae cyfanswm y tâl blynyddol yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynyddol, lwfans buddion hyblyg, canran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn a buddion trethadwy o fath arall sy'n adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat ar gyfer pob gweithredwr.

### Nodyn Canllaw 6:

Ymunodd Cristina Nicolotti Squires ag Ofcom yn Gyfarwyddwr Grŵp, Grŵp Darlledu a Chyfryngau ar 15 Ionawr 2024 ar gyflog cyfwerth ag amser llawn o £268,550. Mae'r cyflog a'r buddion a ddangosir yn Nhabl 5 yn rhai pro rata ar gyfer y cyfnod adrodd (Ebrill 2023 – Mawrth 2024).

## Tabl 6: Cyfarwyddwyr Grŵp Dros Dro a'r sawl a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd: 2023/24

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd £ | Hawl pensiwn/ lwfans £ | Lwfans buddion hyblyg | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2023/24 £ | Cyfanswm y taliadau 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sachin Jogia + | 7 | 6 | 114,812 | 17,222 | 6,310 | 1,802 | - | 140,146 | 332,405 |
| Kevin Bakhurst + | 7 | 4 | 69,012 | 10,352 | 4,048 | 901 | 6,000 | 90,313 | 316,562 |
| Siobhan Walsh | 7 | 10 | 145,036 | 19,777 | 11,688 | 3,033 | 4,000 | 183,534 | - |
| Helen Hearn | 7 | - | - | - | - | - | - | - | 86,705 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **413,993** | **735,672** |

### Nodyn Canllaw 7:

Mae'r symiau a ddangosir yn Nhabl 6 uchod yn rhai pro rata ar gyfer y cyfnod y cyflogwyd y Cyfarwyddwyr yn y flwyddyn ariannol 2023/24.

Gadawodd Sachin Jogia ar 1 Medi 2023 ar gyflog cyfwerth ac amser llawn o £272,950 a chafodd daliad ex-gratia o £52,500, sydd wedi'i gynnwys uchod.

Camodd Kevin Bakhurst i lawr o'r Bwrdd ym mis Ebrill, a gadael Ofcom ar 9 Gorffennaf 223 ar gyflog cyfwerth ag amser llawn o £255,750.

Penodwyd Siobhan Walsh yn Gyfarwyddwr Grŵp Dros Dro ar gyflog cyfwerth ag amser llawn o £171,261 am y cyfnod rhwng 20 Ebrill 2023 a 31 Ionawr 2024.

Bu Helen Hearn yn Gyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Sbectrwm, a dychwelodd i'w swydd barhaol ym mis Medi 2022 ar ôl i David Willis gael ei benodi.

## Tabl 7: Cyfanswm costau Taliadau Blynyddol ar gyfer holl Swyddogion Gweithredol Ofcom yn ystod y cyfnod adrodd

| Cyfanswm y cyflog gwirioneddol a dalwyd £ | Hawl pensiwn/ lwfans £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2023/24 £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2,655,814 | 413,499 | 159,546 | 37,967 | 59,500 | 3,326,326 | 3,047,966 |

Mae'r tabl uchod yn gyfanswm rhifyddeg tablau 3-6 uchod.

Mae'r bonws a delir i Gyfarwyddwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr yn cynrychioli 2.8% o gyfanswm y bonws a dalwyd yn 2023/24 i bob cydweithiwr.

## Taliadau Neilltuol

Ni roddwyd blaensymiau na benthyciadau i staff sy'n ennill mwy na £100,000 yn ystod y cyfnod adrodd (2022/23: dim). Mae treuliau a hawlir gan y Prif Weithredwr, y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys ac Uwch Arbenigwyr Rheoli yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan[8]

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Mae Ofcom yn defnyddio staff dros dro i ategu'r adnoddau sydd ei angen ar gyfer ei waith pan fydd prinder staff oherwydd amgylchiadau annisgwyl ac i helpu i reoli'r pwysau ar ei staff yn ystod cyfnodau prysur o waith.

Mae Ofcom hefyd, o bryd i'w gilydd, yn ymgysylltu ag unigolion i ddarparu arbenigedd masnachol, digidol, technegol neu reoli prosiectau. Fel rhan o'r broses ymgysylltu, bydd Ofcom yn ystyried a yw'r unigolion hyn yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres ai peidio.

Cyflogi gweithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael eu talu'n dda ar 31 Mawrth 2024 sy'n ennill £245 y diwrnod neu fwy.

| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd** | **9** |
|---|---|
| Ac o'u plith, mae rhai wedi bodoli: | |
| Am lai na blwyddyn adeg adrodd | 3 |
| Am gyfnod o rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg adrodd | 5 |
| Am gyfnod o rhwng dwy a thair blynedd adeg adrodd. | 0 |
| Am gyfnod o rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd | 1 |
| Am bedair blynedd neu fwy adeg adrodd. | 0 |

Ffynhonnell: Dadansoddi cyllid a data partneriaid allanol

Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael eu talu'n dda ac yn cael eu cyflogi ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, sy'n ennill £245 y diwrnod neu fwy

| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd** | **31** |
|---|---|
| Ac: | |
| Nad ydynt yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres | 0 |
| Yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu fel eu bod yn rhan o gwmpas IR35 | 31 |
| Yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu fel eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | 0 |
| Ac: | |
| Y mae nifer o'r rhai a gyflogwyd wedi cael eu hailasesu at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Ac: Y mae nifer o'r rhai a gyflogwyd wedi gweld newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad | 0 |

Ffynhonnell: dadansoddi cyllid a data partneriaid allanol

Ni chafodd unrhyw aelodau'r Bwrdd nac uwch reolwyr gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol eu cyflogi oddi ar y gyflogres rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

8 https://www.ofcom.org.uk/cy/about-ofcom/annual-reports-and-plans/other-financial-reporting/?language=cy

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd Ofcom £1.1m ar ymgynghoriaeth yn 2023/24. Mae defnyddio ymgynghoriaeth wedi'i gyfyngu i'r cyngor a'r arbenigedd pwrpasol sy'n ofynnol er mwyn i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac mae ei gwmpas yn benodol ac yn rhwym wrth derfynau amser. Bydd ymgynghoriaeth yn cael ei chomisiynu lle nad yw sgiliau allanol ar gael yn fewnol, ond os rhagwelir y bydd angen sgiliau o'r fath yn y tymor hwy, bydd Ofcom yn ceisio recriwtio unigolion parhaol. Y prif feysydd gwariant ar ymgynghoriaeth yn 2023-34 oedd Diogelwch Ar-lein, Economeg, Polisi a Strategaeth.

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi eu penodi am dymor penodol gydag ymrwymiad amser i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am y Cadeirydd sy'n neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd sy'n neilltuo hyd at ddeuddydd a hanner yr wythnos). Fel y nodwyd uchod, mae rôl y Dirprwy Gadeirydd yn wag ar hyn o bryd ar ôl i Maggie Carver adael ym mis Ionawr 2024.

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Pobl sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwyr Grŵp perthnasol. Ar draws pob cydweithiwr, mae gennym bolisi ar waith lle nad oes unrhyw daliadau ex-gratia mewn perthynas â therfynu cynnar yn fwy na £95,000. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Cyfeirir at fanylion ein dull gweithredu o ran gwrthdaro rhwng buddiannau, gan gynnwys buddiannau allanol ar gyfer Aelodau Anweithredol a Chydweithwyr, yn adran Lywodraethu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

## Colledion a thaliadau arbennig (archwiliwyd)

Yn unol â rheoli arian cyhoeddus, mae'n rhaid i Ofcom ddatgelu colledion unigol a thaliadau arbennig dros £300,000. Nid oedd dim colledion na thaliadau arbennig y mae angen eu datgelu yn 2023/24 (2022/23: dim).

Ar ran Ofcom,

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu,

**Ben Verwaayen**

Cadeirydd y Pwyllgor Pobl,

25 Gorffennaf 2024



## Yn Ofcom, rydym yn credu y dylai pawb ar bob lefel weithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a grymusol.

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y dogfennau canlynol ar gyfer y Swyddfa Gyfathrebiadau'

- Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y Deyrnas Unedig.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2024, a'i diffyg ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maen nhw wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd Brydeinig, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Fe wnes gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Moesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi defnyddio'r sail busnes byw yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol nac ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf ar ôl awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae adrannau perthnasol y dystysgrif hon yn disgrifio fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes byw.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ar wahân i'r hyn a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau o bwys o'r fath neu gamddatganiadau o bwys amlwg, mae'n rhaid i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod yr wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan mewn ffordd o bwys, mae'n rhaid i mi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol, ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnyn nhw i chi os, yn fy marn i:

- cafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw gan Ofcom neu beidio, a bod ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer yr archwiliad wedi'u derbyn gan unrhyw drydydd parti;
- ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, at ddibenion ein harchwiliad;
- oes ansicrwydd sylweddol yn bodoli sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu Ofcom i barhau fel busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol; ac
- a yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EF. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiad hwn yn cynnwys yr holl risgiau a rheolaethau, nac yn ffurfio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol na'i weithdrefnau risg a rheoli.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau bod dulliau rheoli mewnol o'r fath ar waith fel yr ystyrir yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiad o bwys ynddyn nhw, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol Ofcom, sy'n rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a'r cyfarwyddiadau a wnaethpwyd gan Drysorlys EF;
- paratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau, yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a'r cyfarwyddiadau a wnaethpwyd gan Drysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyrid bod yr archwiliad yn gallu dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth ganfod ac asesu risgiau o gamddatganiad o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i'r canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Swyddfa Gyfathrebiadau.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar:
  - » ganfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - » canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
  - » rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'n ymwneud â chydymffurfedd y Swyddfa Gyfathrebiadau â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a:
  - » oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - » oedden nhw'n gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll, neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr pensiwn ynghylch sut a ble gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion posibl i dwyllo yn y Swyddfa Gyfathrebiadau, a gwelais fod y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn yr elfennau canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), mae'n ofynnol i mi hefyd ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg bod rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Swyddfa Gyfathrebiadau a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn gweithredu ynddyn nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddf Gwasanaethau Post 2011, Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf yr Economi Ddigidol 2017, y gyfraith cyflogaeth, y ddeddfwriaeth treth, a'r ddeddfwriaeth pensiwn.

### Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

I ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a'r gwaith profi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifiwyd uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;

- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a chwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, y Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profais briodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes; ac

Fe wnes i gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwydd o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddyn nhw yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**

27 Gorffennaf 2024

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

# DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r adran hon yn amlinellu ein datganiadau ariannol a'r nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

## ADRAN C

# Datganiad incwm a gwariant

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | 188,972 | 179,445 |
| Incwm clirio sbectrwm | 3 | 1,179 | - |
| **Cyfanswm incwm** | | **190,151** | **179,445** |
| | | | |
| Costau staff | 4 | (127,149) | (108,055) |
| Gwariant gweithredu arall | 6 | (62,645) | (67,165) |
| Gwariant clirio sbectrwm | 4,6 | (1,179) | - |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **(190,973)** | **(175,220)** |
| | | | |
| **Gwarged gweithredol** | | **(822)** | **4,225** |
| | | | |
| Incwm cyllid | 14 | 65 | 66 |
| Costau cyllid | 17,18 | (816) | (876) |
| Incwm llog pensiwn | 20 | 509 | 510 |
| **(Diffyg) / Gwarged cyn treth am y flwyddyn** | | **(1,064)** | **3,925** |
| Trethiant | 7 | - | - |
| **(Diffyg)/Gwarged ar ôl treth am y flwyddynw** | | **(1,064)** | **3,925** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 110-146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **(1,064)** | **3,925** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (1,829) | (9,284) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr** | | **(2,893)** | **(5,359)** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 110-146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y sefyllfa ariannol

## Ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 14,000 | 15,186 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 33,227 | 35,663 |
| Asedau anniriaethol | 10 | 109 | 154 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol | 12 | 874 | 2,023 |
| Symiau derbyniadwy les: asedau anghyfredol | 14 | 1,387 | 1,620 |
| Asedau buddion ymddeol | 20 | 10,564 | 11,458 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **60,161** | **66,104** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol | 11 | 14,877 | 12,621 |
| Symiau derbyniadwy les: asedau cyfredol | 14 | 233 | 220 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 13 | 8,270 | 13,396 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **23,380** | **26,237** |
| **Cyfanswm asedau** | | **83,541** | **92,341** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol | 15 | 23,404 | 27,895 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 17 | 4,774 | 4,892 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau anghyfredol | 18 | 13 | 12 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **28,191** | **32,799** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol | 16 | 1,215 | 237 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 17 | 31,939 | 34,163 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau anghyfredol | 18 | 97 | 106 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 20 | 760 | 804 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **34,011** | **35,310** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **62,202** | **68,109** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **21,339** | **24,232** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | 21,339 | 24,232 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **21,339** | **24,232** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 110-146yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2024.

**Yr Arglwydd Michael Grade**
**Cadeirydd**

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**

# Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | | **29,591** |
| | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2022/23** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (9,284) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 3,925 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2022/23** | | **(5,359)** |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **24,232** |
| | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2023/24** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (1,829) |
| Diffyg / ar gyfer y flwyddyn | | (1,064) |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2023/24** | | **(2,893)** |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **21,339** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 110-146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y llifoedd arian parod

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| (Diffyg)/Gwarged weithredol | | (822) | 4,225 |
| | | | |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 8 | 3,159 | 2,266 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 5,015 | 5,098 |
| Amorteiddio | 10 | 45 | 22 |
| (Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol | 6 | (3) | 104 |
| | | | |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 11,12 | (1,107) | 6,570 |
| Lleihad mewn symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 15,16 | (3,513) | (13,929) |
| Lleihad mewn darpariaethau | 18 | (13) | (12) |
| Cynnydd mewn pensiwn ymddeol | 20 | (470) | (824) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **2,291** | **3,520** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (1,973) | (5,281) |
| Prynu rhwymedigaethau asedau hawl | | (87) | (111) |
| Prynu asedau anniriaethol | 10 | - | (141) |
| Enillion o werthu asedau anghyfredol | 6 | 5 | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,055)** | **(5,533)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Derbynneb ar gyfer les derbyniadwy | 14 | 285 | 104 |
| Taliadau rhwymedigaethau lesoedd | 17 | (5,647) | (5,615) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(5,362)** | **(5,511)** |
| | | | |
| **Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(5,126)** | **(7,524)** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | **13,396** | **20,920** |
| Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn | | (5,126) | (7,524) |
| **Cronfeydd net terfynol** | 13 | **8,270** | **13,396** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 110-146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

## 1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

**Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)** yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Mae datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2024 wedi cael eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ar gyfer ailbrisio rhai asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol sy'n cael eu mesur yn ôl symiau wedi eu hailbrisio neu werth teg, os oes o gwbl, o dan gyfarwyddyd cyfrifon yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, i'r fil agosaf, sef yr arian y mae Ofcom yn ei ddefnyddio.

### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safonau a'r datganiadau isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo oedd dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2022. Nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar ein ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

- IFRS 17 Contractau Yswiriant sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023 neu ar ôl hynny.
- Diwygiadau i IFRS 17 (Defnyddio Gwybodaeth Gymharol IFRS 17 ac IFRS 9 i ddechrau, sy'n berthnasol i gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023). Mae hyn yn helpu i osgoi diffyg cyfatebiaeth cyfrifyddu dros dro drwy ganiatáu opsiwn sy'n ymwneud â gwybodaeth gymharol am asedau ariannol a gyflwynir wrth ddefnyddio IFRS 17 i ddechrau.
- Diwygiadau i Ddatganiad Ymarfer 2 IAS 1 ac IFRS (Datgelu Polisïau Cyfrifyddu, sy'n berthnasol i gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023). Mae hyn yn newid y gofynion o ddatgelu polisïau cyfrifyddu 'sylweddol' i bolisïau cyfrifyddu 'materol' ac yn rhoi esboniadau ac arweiniad ar sut mae adnabod polisïau cyfrifyddu perthnasol.
- Diwygiadau i IAS 8 (Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu, sy'n berthnasol i gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023). Mae hyn yn egluro sut mae gwahaniaethu rhwng newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu a newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu.

Mae safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau eraill i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith faterol ar ddatganiadau ariannol Ofcom ac mae'r rhain yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- Diwygiadau i IAS 1 (Dosbarthu Atebolrwydd fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024). Mae hyn yn egluro y dylai dosbarthiad atebolrwydd fel cyfredol neu anghyfredol fod yn seiliedig ar hawliau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd.
- Diwygiadau i IAS 1 (Atebolrwydd Anghyfredol gyda Chyfamodau, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024). Mae hyn yn egluro mai dim ond y cyfamodau hynny y mae'n rhaid i endid gydymffurfio â nhw ar neu cyn diwedd y cyfnod adrodd sy'n effeithio ar ddosbarthiad atebolrwydd fel un cyfredol neu anghyfredol.
- Diwygiadau i IFRS 16 (Atebolrwydd Les mewn Gwerthiant neu Adles, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024). Mae hyn yn pennu'r gofynion sy'n ymwneud â mesur atebolrwydd y les mewn trafodiad gwerthu ac adles ar ôl dyddiad y trafodiad.
- Diwygiadau i IAS 7 ac IFRS 7 (Trefniadau Cyllid Cyflenwr, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024). Mae hyn yn mynnu bod endid yn darparu datgeliadau ychwanegol am ei drefniadau cyllid cyflenwyr.

### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y daw buddion economaidd i'r endid yn y dyfodol.

Mae goblygiadau mabwysiadu IFRS 15 yn uniongyrchol wedi cael ei asesu. Fodd bynnag, o ystyried natur gweithgareddau Ofcom a bod IFRS 15 yn ymwneud â sefydliadau masnachol, nid oedd yn cael ei ystyried yn gwbl briodol. Yn unol â hynny, mae'r Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 8(10) wedi cael ei defnyddio i addasu IFRS 15 i gyd-destun y Sector Cyhoeddus, er mwyn datblygu polisi cyfrifyddu sy'n darparu gwybodaeth berthnasol a dibynadwy. Wrth wneud hynny, mae'r diffiniad o gontract wedi cael ei ehangu i gynnwys deddfwriaeth a rheoliadau.

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cynnwys model pum cam ar gyfer cydnabod incwm sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd oedd cydnabod incwm er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Roedd Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y ffordd mae incwm yn cael ei gydnabod:

- Mae gweithgareddau rheoleiddio Ofcom yn cael eu cyflawni ar lefel sector ac felly nid ydynt yn benodol i gwsmeriaid unigol ag eithrio'r BBC. Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau mae Ofcom yn eu hwynebu wrth reoleiddio'r sector hwnnw, ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan randdeiliaid.
- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Gwaith a gyhoeddir. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn cael eu bodloni pan fydd Ofcom wedi cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio.
- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwyso ei gostau gyda'i incwm. Er mwyn sicrhau bod incwm yn adlewyrchu costau i'r sector priodol, mae costau'n cael eu dyrannu i sectorau/rhanddeiliaid yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Codi Tâl.
- Mae Ofcom yn diweddaru'r amcangyfrif o'r incwm i gynrychioli'n ffyddlon yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn ariannol; ac mae'n cyhoeddi'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y tablau tariff.
- Felly, mae incwm yn cael ei gyfrifo a'i gydnabod yn y flwyddyn y mae'r goblygiadau perfformiad (costau) yn berthnasol iddi, ar sail adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom, a'u haddasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Cyfrifir y rhain yn y drefn honno fel incwm cronedig mewn asedau ac incwm gohiriedig mewn rhwymedigaethau, gan nad oes llawer o ansicrwydd, os o gwbl, ynghylch adennill incwm cronedig ac ad-dalu incwm gohiriedig sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol.
- Mae incwm hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) yn unol ag adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad Egwyddorion Cyllido.
- Mae polisi cydnabod incwm Ofcom yn briodol ac yn unol â gofynion IFRS 15 fel y'i haddaswyd drwy IAS 8(10) a dehongliad Trysorlys EF ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

Ffynonellau incwm Ofcom yw cymorth grant, cadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr 2006 (WTA), incwm rhanddeiliaid, ac incwm arall.

**Cymorth Grant gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg**

Darperir cymorth grant gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i ariannu rhaglen clirio band 700MHz. Mae'r rhaglen hon yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EF.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

**Cadw Derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)**

Telir ffioedd i Ofcom mewn perthynas â'n swyddogaeth rheoli sbectrwm. Yn dilyn gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol 2017, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu'r costau o gyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall. Fel y cytunwyd â Thrysorlys Ei Fawrhydi a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, bydd derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu defnyddio hefyd i gyllido gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd fel Llwyfannau Rhannu Fideo a Diogelwch Ar-lein. Mae'r swm misol a gedwir yn dibynnu ar y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus, a bydd y swm a gedwir ar gyfer y mis canlynol yn cael ei addasu os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

## Incwm rhanddeiliaid

### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau post, rhwydweithiau a gwasanaethau

Caiff y ffioedd hyn eu codi ar randdeiliaid yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau ynghyd â'r gwasanaethau post sy'n gweithredu o dan gyfundrefn heb drwydded, ond sy'n dod o dan bwerau rheoleiddio Ofcom. Mae'r costau hyn yn gyfuniad o wariant a gynlluniwyd ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, fel y nodir yn y Cynllun Gwaith, ac addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Ar ôl penderfynu'n derfynol ar y costau ar ddiwedd y flwyddyn, bydd incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Yn groes i hynny, os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebir i ddeiliaid trwyddedau darlledu ar gyfer ein gwaith rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys unrhyw addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n fwy na'r arian parod sydd wedi'i wario yn y sector darlledu ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd ymgeisio

Am resymau ymarferol, rydym yn codi ffioedd penodedig ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ar wahân sydd o dan reolaeth rhanddeiliaid unigol (er enghraifft, cais am drwydded ddarlledu), neu lle nad yw'r trosiant perthnasol yn sail briodol dros godi ffi (er enghraifft, radio cymunedol). Ni ellir ad-dalu'r ffioedd hyn, ac felly fe'u cofnodir fel refeniw pan ddaw cais y rhanddeiliad i law. Fodd bynnag, os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, caiff hynny ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm costau'r sector yn y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, os yw cyfanswm y gwariant ar gyfer ceisiadau radio yn fwy na'r refeniw o'r ceisiadau, bydd y costau sydd heb gael eu hadennill yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm y costau rheoleiddio radio sydd i'w hadennill gan dalwyr ffi'r drwydded radio.

### Rhwydweithiau a systemau gwybodaeth (NIS)

Mae incwm gan randdeiliaid rhwydweithiau a systemau gwybodaeth yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan weithredwyr dynodedig gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Yn unol â rheoliadau NIS, mae'r incwm hwn yn cael ei adennill mewn ôl-daliadau; felly bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm cronedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Incwm arall

Rhoddir cyfrif am incwm anstatudol ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn cynhyrchu datganiad o incwm a dderbynnir, incwm sy'n ddyledus, incwm sy'n debygol o gael ei dalu neu ei adennill, a'r costau mewn perthynas â'i swyddogaethau rheoleiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 2 y datganiadau ariannol, sy'n darparu tryloywder ar incwm gohiriedig a chronedig Ofcom fesul sector.

## c) MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, mae'r symiau mae Gweinidogion yr Alban yn eu talu i Ofcom yn cael eu talu wedyn gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg a reolir gan MG Alba. O ganlyniad, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom.

## d) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau.

Cesglir yr incwm o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr
- Ffioedd sbectrwm Adran Llywodraeth
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Rhifau daearyddol

Cafodd yr incwm a gasglwyd (ac eithrio'r incwm a gadwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EF, yr Adran Cyllid a Phersonél – Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 ac 1709 yn y drefn honno, yn uniongyrchol neu drwy'r adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd Brydeinig.

Felly, ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau sy'n gysylltiedig â'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn Natganiadau Ariannol Ofcom o ran trafodiadau sy'n gysylltiedig ag Adran 400, oni bai fod y taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol. Er enghraifft, mae caledwedd cyfrifiadurol sefydlog fel gweinyddion, muriau cadarn a switshis rhwydwaith a ddefnyddir mewn swyddfeydd yn cael eu cyfalafu. Ar y llaw arall, mae cyfarpar TG symudol ag oes fer ac sy'n isel mewn gwerth yn cael ei gofnodi fel gwariant, oherwydd nad oes gan Ofcom reolaeth dros yr amgylchedd ffisegol na'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Ar gyfer mesuriadau dilynol o'i holl eiddo, offer a chyfarpar, mae Ofcom yn dilyn y dull costio, fel y caniateir o dan IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau Lesddaliad | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad Incwm a Gwariant, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## f) Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd

Ar gyfer unrhyw gontract newydd, mae Ofcom yn ystyried a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Diffinnir les fel contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod yn gyfnewid am dâl cydnabyddiaeth. I gymhwyso'r diffiniad hwn, mae Ofcom yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri gwerthusiad allweddol, sef:

- a yw'r contract yn cynnwys ased dynodedig, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg y bydd yr ased ar gael i Ofcom.
- a oes gan Ofcom yr hawl i gael yr holl fanteision economaidd o ddefnyddio'r ased dynodedig drwy gydol y cyfnod defnyddio, wrth ystyried ei hawliau o fewn cwmpas diffiniedig y contract.

- a oes gan Ofcom yr hawl i fynnu sut mae'r ased dynodedig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio. Mae Ofcom yn asesu a oes ganddo'r hawl i fynnu 'sut ac at ba ddiben' y mae'r ased yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae Ofcom yn cydnabod y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth lesoedd, heb gynnwys TAW, ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur yn ôl cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth lesoedd, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y les, ac unrhyw daliadau les a wnaed cyn dyddiad cychwyn y les (net o unrhyw gymelliadau a dderbyniwyd) hyd at ddiwedd y les neu'r cyfnod ymestyn, pa un bynnag yw'r hwyraf, neu hyd at derfynu'r les os oes rhai.

Mae Ofcom yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnyddio ar sail llinell syth ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau o'r mis y mae ased yn cael ei roi ar waith, hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les – pa un bynnag yw'r cynharaf. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Mae Ofcom hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnyddio am amhariad pan fydd dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500, a chofnodir asedau hawl i ddefnyddio ar sail cyfanswm costau contract y les, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion yn sgil amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Ar ôl gwneud y mesuriadau cychwynnol, caiff swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu yn ôl yr un swm â'r addasiad i werth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd. Nid oes enillion na cholledion yn syth, ond bydd y llifoedd arian parod diwygiedig yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant dros weddill cyfnod y les. Mae eithriadau i'r egwyddor hon: pan fydd gostyngiad yng ngwerth cario ymlaen rhwymedigaeth les yn fwy na gwerth cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio perthnasol ar adeg yr ail-fesur – os felly caiff yr ased ei ostwng i ddim, a bydd y swm dros ben yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant – ac mewn sawl achos lle mae addasiad i les yn lleihau cwmpas les bresennol. Bydd ailbrisiadau o asedau hawl i ddefnyddio, os oes rhai, yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio.

Mae Ofcom yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd ar werth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y les os yw'r gyfradd honno ar gael yn hwylus, neu yn unol â chyfradd Trysorlys EF o 4.72% ar gyfer blwyddyn galendr 2024 (3.51% ar gyfer blwyddyn galendar 2023)

Mae taliadau lesoedd sy'n cael eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth lesoedd yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys taliadau sefydlog gwirioneddol) ac, os oes rhai, y taliadau amrywiol ar sail mynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddyn nhw fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n eithaf sicr o gael eu harfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir ac yn cynyddu ar gyfer llog. Caiff ei hail-fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog gwirioneddol. Pan gaiff rhwymedigaeth les ei hail-fesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnyddio, neu'r Datganiad Incwm a Gwariant os yw'r ased hawl i ddefnyddio eisoes wedi'i leihau i sero.

Mae Ofcom wedi dewis rhoi cyfrif am lesoedd tymor byr ac am lesoedd asedau isel eu gwerth gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn hytrach na chydnabod rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Mae rhwymedigaeth am lesoedd nad ydynt wedi dechrau eto, y mae Ofcom wedi ymrwymo iddyn nhw, yn cael ei chofnodi yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn unig o ddyddiad cytundeb les wedi'i llofnodi

## Cost uniongyrchol gychwynnol

Mae hyn yn golygu'r costau cynyddrannol o gael les na fyddent wedi codi oni bai am y les. Gall gynnwys costau fel ffioedd canfyddwr, comisiynau i asiantau ar gyfer sefydlu'r les, a ffioedd ymlaen llaw. Mae Ofcom wedi wynebu costau o'r fath o ganlyniad i lofnodi lesoedd newydd yn ystod y flwyddyn, ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at yr asedau hawl i ddefnyddio yn y datganiadau ariannol.

## Defnyddio ôl-ddoethineb

Gall endid ddefnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y les os bydd y contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn y les neu i ddod â hi i ben. Dim ond pan fydd endid yn dilyn dull ôl-weithredol wedi ei addasu y bydd modd gwneud hynny. Un o fanteision allweddol dull ôl-weithredol wedi ei addasu yw y gall endid drosglwyddo ei lesoedd gweithredol gan ddefnyddio gwybodaeth ar y dyddiad y mae'n dechrau ei ddefnyddio.

## Is-lesoedd

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i leswyr canolradd ddosbarthu is-lesoedd fel les cyllid neu les weithredol fel a ganlyn:

- Os yw'r brif les yn les tymor byr, mae'r is-les yn cael ei dosbarthu fel les weithredol;
- Fel arall, mae'r is-les yn cael ei dosbarthu gan gyfeirio at yr ased hawl i ddefnyddio sy'n deillio o'r brif les, yn hytrach na chan gyfeirio at yr ased sylfaenol.

Mae Ofcom wedi dosbarthu ei is-lesoedd fel les cyllid ac felly:

- Mae'n datgydnabod yr ased hawl i ddefnyddio sy'n ymwneud â'r brif les y mae'n ei throsglwyddo i ddaliwr yr is-les, ac mae'n cydnabod y buddsoddiad net yn yr is-les.
- Mae'n cydnabod unrhyw wahaniaeth rhwng yr ased hawl i ddefnyddio a'r buddsoddiad net yn yr is-les yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel (Enillion)/Colledion wrth waredu asedau anghyfredol.
- Mae'n cadw'r rhwymedigaeth lesoedd sy'n ymwneud â'r brif les yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, sy'n cynrychioli taliadau'r les sy'n ddyledus i'r prif brydlesydd.

Yn ystod yr is-les, mae Ofcom, sef y prydlesydd canolradd, yn cydnabod y gwariant llog ar y brif les (rhwymedigaeth les) ac incwm cyllid ar yr is-brydles yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## g) Asedau anniriaethol

Ar ôl cydnabod ased anniriaethol i gychwyn, caiff ei gario ar ei gost, llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff cost datblygu ei chofnodi fel gwariant yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff amorteiddiad ar asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei gofnodi ar y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o dair i bum mlynedd. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## h) Amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar, asedau anniriaethol ac asedau hawl i ddefnyddio

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth cario ymlaen asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth cario ymlaen yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff swm cario ymlaen ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adenilladwy os yw swm cario ymlaen yr ased yn fwy na'r amcangyfrif o'r swm adenilladwy.

Wrth fabwysiadu IFRS 16, cafodd yr holl lesoedd beichus ac amhariadau ar draws eiddo sydd eisoes yn cael ei lesio eu hailfesur er mwyn ystyried effaith newid y safonau cyfrifyddu ar gyfer lesoedd ar y broses o fesur amhariadau. Ni chafodd y rhagdybiaethau sylfaenol eu newid yn ystod yr ailfesuriad hwn.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

## i) Offerynnau ariannol

**Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill**

Symiau derbyniadwy drwy fasnach yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill, a chânt eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad. Mae enillion a cholledion wrth fesur wedi hynny yn cael eu cydnabod fel gwerth teg yn llwyr yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond nad yw'r buddion ohonyn nhw wedi cael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm

**Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

**Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill**

Ystyr symiau taladwy drwy fasnach yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill, ac maen nhw'n cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

Incwm gohiriedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm.

**Risgiau ariannol ac amhariad ar offerynnau ariannol**

Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod yr endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un lefel o risgiau ariannol y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddyn nhw. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid yw mabwysiadu IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofcom. Nid oes gan symiau derbyniadwy drwy fasnach nac asedau contract Ofcom ddim elfen gyllido sylweddol, ac nid ydynt yn agored chwaith i risgiau credyd, oherwydd os na fydd digon o ffioedd rhanddeiliaid wedi cael eu hadennill mewn blwyddyn, byddan nhw'n cael eu hadennill drwy dariffau'r blynyddoedd dilynol. Mae Ofcom wedi asesu'r lwfans colledion wrth gydnabod hyn i gychwyn ar swm sy'n cyfateb i'r golled credyd ddisgwyliedig am oes, ac roedd y canlyniad yn amherthnasol. Felly, er mwyn sicrhau bod hyn yn aros yr un fath drwy gydol oes y swm derbyniadwy, mae Ofcom yn parhau i werthuso cadernid ei reolaeth credyd fisol a'r amhariad ar asedau ariannol, os o gwbl, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

## j) Buddion gweithwyr

**Pensiynau**

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

**Cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio**

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel y'u hwynebwyd. Gall staff newydd ymuno â'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

**Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio**

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio, lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddyn nhw yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill am y cyfnod maen nhw'n aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Mae colledion ac enillion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn llawn o dan incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y byddan nhw'n codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddwyr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun aml-gyflogwr gydag Ofcom, S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) fel cyflogwyr sy'n cymryd rhan. Mae'r datganiadau ariannol yn cynrychioli cyfran Ofcom o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol o dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

**Cynlluniau heb eu cyllido**

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, un cyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

**Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr**

Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y bydd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr yn codi. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan weithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos.

Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1 Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## k) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a darpariaethau cyfreithiol eu cydnabod fel a ganlyn:

Pan fydd y pecyn diswyddo ar gyfer rhai gweithwyr a symudodd i Ofcom ar hen delerau ac amodau cyflogaeth y Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddarparu o'r dyddiad ymddeol yn gynnar tan yr oedran ymddeol. Bydd y gweithiwr yn cael taliad iawndal blynyddol sy'n hafal i'r pensiwn a gedwir, sy'n cael ei dalu drwy randaliadau misol mewn ôl-daliadau fel pensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

Mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan fernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen cael all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac mae'r amcangyfrif o'r swm yn un dibynadwy. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried y dosbarth rhwymedigaethau yn ei gyfanrwydd. Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod hyd yn oed os gall y tebygolrwydd o all-lif mewn perthynas ag unrhyw un eitem sydd wedi'i chynnwys yn yr un dosbarth o rwymedigaethau, fod yn fach.

## l) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodiadau a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

## m) Y dreth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu.  O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

## n) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, oherwydd mae holl weithgareddau Ofcom yn cael eu cynnal yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

## o) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (k)
- Cydnabod incwm ac asesu incwm heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r meysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (j)
- Barn ynghylch a yw contract yn cynnwys les (f)



## 2. Dadansoddiad o'r Sectorau

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei baratoi yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt IFRS 8 Segmentau Gweithredu, yn unol â pholisi cyfrifyddu Nodyn 1 (n).

| | Rheoli Sbectrwm £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Ffeilio Lloerennau £'000 | Gwybodaeth am y rhwydwaith a gwasanaethau £'000 | Rhwydweithiau a gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Diogelwch Ar-lein £'000 | Rheoleiddio post £'000 | Gweithgareddau rheoleiddio eraill £'000 | Cyfanswm 2023/24 £'000 | Cyfanswm 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedu, rheoleiddio a gweinyddu | - | - | 240 | - | 39,311 | 22,058 | - | 5,886 | - | 67,495 | 71,333 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | - | - | 90 | 132 | - | - | - | 222 | 399 |
| Cymorth Grant (GIA) | - | 1,356 | - | - | - | - | - | - | - | 1,356 | 1,356 |
| Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw | 53,968 | - | - | - | - | - | 55,150 | - | 13,917 | 123,035 | 108,867 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (1,319) | (177) | 614 | 381 | (4,103) | 1,675 | (869) | (958) | 1,498 | (3,258) | (2,931) |
| **Incwm gweithredu** | **52,649** | **1,179** | **854** | **381** | **35,298** | **23,865** | **54,281** | **4,928** | **15,415** | **188,850** | **179,024** |
| Incwm arall | 148 | - | 3 | 1 | 105 | 71 | 161 | 15 | 154 | 658 | 323 |
| Llog sydd i'w dderbyn | 173 | - | 3 | 1 | 123 | 83 | 189 | 17 | 54 | 643 | 98 |
| **Incwm ar ffurf arian parod** | **52,970** | **1,179** | **860** | **383** | **35,526** | **24,019** | **54,631** | **4,960** | **15,623** | **190,151** | **179,445** |
| Addasiadau i'r gwariant gweithredu | (321) | - | (6) | (2) | (228) | (154) | (350) | (32) | (208) | (1,301) | (421) |
| Costau eraill | (52,649) | (1,179) | (854) | (381) | (35,298) | (23,865) | (54,281) | (4,928) | (15,415) | (188,850) | (179,024) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | **(52,970)** | **(1,179)** | **(860)** | **(383)** | **(35,526)** | **(24,019)** | **(54,631)** | **(4,960)** | **(15,623)** | **(190,151)** | **(179,445)** |
| Setliad Cyfreithiol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **(52,970)** | **(1,179)** | **(860)** | **(383)** | **(35,526)** | **(24,019)** | **(54,631)** | **(4,960)** | **(15,623)** | **(190,151)** | **(179,445)** |
| **Gwarged ar sail costau arian parod** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | **(52,970)** | **(1,179)** | **(860)** | **(383)** | **(35,526)** | **(24,019)** | **(54,631)** | **(4,960)** | **(15,623)** | **(190,151)** | **-** |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | (54,529) | - | (822) | (268) | (40,545) | (22,362) | (45,511) | (4,703) | (10,705) | (179,445) | - |

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch prawf budd cyhoeddus, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr, gwaith paratoi ar gyfer y ddyletswydd diogelwch ar-lein a chostau ein dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau; defnyddir derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i gyllido'r categorïau cost hyn;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed y sbectrwm; ac
- incwm rhent o is-osod gofod dros ben mewn adeiladau.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn Nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, mae cymorth grant a derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu dyrannu a'u cyfateb i gostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff y tabl ar dudalen 119 ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad.

Mae ffioedd trwyddedu a gweinyddol Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian parod. Pan geir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid. Fel arall, pan geir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Codi Tâl.

Mae darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC.

Nid oedd unrhyw Incwm na Gwariant yn y gwaith Clirio Sbectrwm yn 2023/24 gan y bydd cam olaf ein gwaith yn ailddechrau yn 2024/25

Mae Incwm a Gwariant ar gyfer Diogelwch Ar-lein wedi cynyddu wrth i Ofcom fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi yn y sector hwn.



## Cysoni'r gwariant gweithredu â'r alldro costau gweithredu terfynol

| | Nodiadau | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu – Datganiad Incwm a Gwariant** | | **190,973** | **175,220** |
| Addasiadau o ran rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | | 386 | 749 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,10 | (1,231) | 3,134 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (5,015) | (5,098) |
| Symiau derbyniadwy les | 14 | (285) | (104) |
| Taliadau lesoedd | 17 | 5,647 | 5,615 |
| Addasiadau eraill | | (324) | (71) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | | **190,151** | **179,445** |
| Clirio sbectrwm | 4,6 | (1,179) | - |
| Tanysgrifiad yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) | | (2,826) | (2,638) |
| Incwm Anweithredol | - | (1,301) | (418) |
| **Alldro costau gweithredu cyllid** | | **184,845** | **176,389** |

Mae addasiadau eraill yn adlewyrchu symudiadau mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag arian parod yn ystod y flwyddyn.

Mae'r incwm anweithredol yn cynnwys y llog banc uwch a gafwyd, mae hyn oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog.

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011, mae'r tabl isod yn dangos yr arian parod a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a'r swm sy'n ddyledus ar gyfer y sectorau Rhwydweithiau a gwasanaethau, Darlledu a'r Post.

| | Arian parod a dderbyniwyd yn 2023/24 £'000 | Swm sy'n ddyledus £'000 |
|---|---|---|
| **Sectorau** | | |
| Rhwydweithiau a gwasanaethau | 29,359 | 20 |
| Darlledu | 21,667 | 56 |
| Post | 4,839 | 425 |
| **Cyfanswm** | **55,865** | **501** |

## 3. Incwm

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2023/24 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg** | | | | | | |
| Clirio sbectrwm | - | 1,179 | 1,179 | - | - | - |
| **Cyfanswm cymorth grant** | **-** | **1,179** | **1,179** | **-** | **-** | **-** |
| **Derbyniadau WTA sydd wedi'u Cadw** | | | | | | |
| Rheoli Sbectrwm | 52,649 | - | 52,649 | 54,273 | - | 54,273 |
| Diogelwch Ar-lein | 54,281 | - | 54,281 | 45,452 | - | 45,452 |
| Ôl-gystadleuaeth | 1,506 | - | 1,506 | 444 | - | 444 |
| Galwadau niwsans | 26 | - | 26 | 52 | - | 52 |
| Amddiffyn Defnyddwyr | 1 | - | 1 | 3 | - | 3 |
| Llwyfan rhannu fideos | 4,031 | - | 4,031 | 5,095 | - | 5,095 |
| Prawf Budd y Cyhoedd | 270 | - | 270 | - | - | - |
| Dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau | 6,649 | - | 6,649 | 4,773 | - | 4,773 |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 267 | - | 267 | 95 | - | 95 |
| HFSS | 277 | - | 277 | 207 | - | 207 |
| Deddf Cyfryngau | 920 | - | 920 | 24 | - | 24 |
| Perchnogaeth cyfryngau | 848 | - | 848 | - | - | - |
| Gwasanaethau cyfradd premiwm | 620 | - | 620 | - | - | - |
| Ffeilio Lloerennau | 854 | - | 854 | 821 | - | 821 |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **123,199** | **-** | **123,199** | **111,239** | **-** | **111,239** |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 35,298 | - | 35,298 | 40,493 | - | 40,493 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 23,631 | - | 23,631 | 21,974 | - | 21,974 |
| Rheoleiddio Post | 4,928 | - | 4,928 | 4,696 | - | 4,696 |
| Incwm Fideo Ar-Alw | 234 | - | 234 | 359 | - | 359 |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 381 | - | 381 | 268 | - | 268 |
| Incwm is-lesoedd | 144 | - | 144 | 14 | - | 14 |
| Incwm arall | 1,157 | - | 1,157 | 402 | - | 402 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **65,773** | **-** | **65,773** | **68,206** | **-** | **68,206** |
| **Cyfanswm incwm** | **188,972** | **1,179** | **190,151** | **179,445** | **-** | **179,445** |

Mae ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC. Mae'r incwm Clirio Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd

## 4. Costau Staff

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2023/24 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 104,145 | - | 104,145 | 88,405 | - | 88,405 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 11,761 | - | 11,761 | 10,197 | - | 10,197 |
| Costau pensiwn | 10,299 | - | 10,299 | 9,017 | - | 9,017 |
| Costau ailstrwythuro | 944 | - | 944 | 436 | - | 436 |
| **Cyfanswm costau staff** | **127,149** | **-** | **127,149** | **108,055** | **-** | **108,055** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn cafodd 13 (2022/23: 18) o weithwyr secondiad i sefydliadau eraill. Felly, mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2023/24 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer 18 o weithwyr (2022/23: 10) ac mae'n cynnwys costau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn sy'n ymwneud â 6 gweithiwr (2022/23: 2).

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn uwch swyddogion gweithredol a Chyfarwyddwyr Grŵp ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 132-139.

## 5. Nifer y Gweithwyr

| | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) | 1,424 | 1,256 |

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan Ofcom 1,483 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2022/23: 1,353), sy'n fwy na'r llynedd – yn bennaf oherwydd y gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswydd newydd yn ymwneud â Diogelwch Ar-lein.

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi cael secondiad i Ofcom.

## 6. Gwariant gweithredu arall

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2023/24 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 136 | - | 136 | 130 | - | 130 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 18 | - | 18 | 17 | - | 17 |
| Ffioedd proffesiynol | 3,530 | - | 3,530 | 5,980 | - | 5,980 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 14,758 | - | 14,758 | 12,168 | - | 12,168 |
| Ymchwil cynulleidfaoedd a defnyddwyr | 6,767 | - | 6,767 | 7,822 | - | 7,822 |
| Ymchwil dechnolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 491 | - | 491 | 1,184 | - | 1,184 |
| Cynllun clirio sbectrwm | - | 1,179 | 1,179 | - | - | - |
| Staff dros dro a recriwtio | 3,707 | - | 3,707 | 5,787 | - | 5,787 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,994 | - | 1,994 | 1,868 | - | 1,868 |
| Costau eiddo | 6,912 | - | 6,912 | 7,496 | - | 7,496 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 8,215 | - | 8,215 | 8,760 | - | 8,760 |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 7,751 | - | 7,751 | 8,227 | - | 8,227 |
| Cerbydau | 146 | - | 146 | 190 | - | 190 |
| Drwgddyledion a dyledion amheus | 4 | - | 4 | 46 | - | 46 |
| Amorteiddiad | 45 | - | 45 | 22 | - | 22 |
| Dibrisiant | 3,159 | - | 3,159 | 2,266 | - | 2,266 |
| Dibrisiant asedau les Hawl i Ddefnyddio | 5,015 | - | 5,015 | 5,098 | - | 5,098 |
| (Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol | (3) | - | (3) | 104 | - | 104 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu arall** | **62,645** | **1,179** | **63,824** | **67,165** | **-** | **67,165** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i wariant gweithredu arall Ofcom, sy'n gostau craidd, er mwyn bod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd. Mae'r costau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r gwaith datgomisiynu sy'n cael ei wneud ar safle'r mast dros dro yn Emley Moor.

Mae'r gostyngiad mewn ffioedd proffesiynol yn ganlyniad i gostau is ar Drwydded Strategaeth Data a Diogelwch Ar-lein.

Mae'r cynnydd mewn gwasanaethau o'r tu allan wedi'i sbarduno'n bennaf gan ddyletswyddau Diogelwch Ar-lein sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn.

## 7. Trethiant

| | 2023/24<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni'r tâl treth** | | |
| (Diffyg)/Gwarged cyn treth | (1,064) | 3,925 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 25% (2022/23: 19%) | (266) | 746 |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | (47,316) | (34,070) |
| Costau na thelir treth arnynt | 47,804 | 33,349 |
| Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | (222) | (25) |
| **Costau treth** | - | - |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £10,267k (2022/23: £11,155k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig yn cael eu cydnabod yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn ei erbyn.

## 8. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliad £'000 | Gosodiadau a Ffitiadau £'000 | Offer swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **8,324** | **1,991** | **10,890** | **2,301** | **736** | **2,981** | **27,223** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,305 | 235 | 1,559 | 22 | - | 2,160 | 5,281 |
| Gwarediadau | (19) | - | (88) | (19) | - | - | (126) |
| Trosglwyddiadau | 386 | 12 | 2,411 | 1,344 | - | (4,153) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **9,996** | **2,238** | **14,772** | **3,648** | **736** | **988** | **32,378** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 231 | 11 | 262 | - | - | 1,469 | 1,973 |
| Gwarediadau | (107) | (15) | - | (500) | (26) | - | (648) |
| Trosglwyddiadau | 715 | - | 540 | 610 | - | (1,865) | - |
| **Costau ar 31 Mawrth 2024** | **10,835** | **2,234** | **15,574** | **3,758** | **710** | **592** | **33,703** |
| | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **2,884** | **1,033** | **8,776** | **1,666** | **678** | **-** | **15,037** |
| Tâl am y flwyddyn | 677 | 271 | 906 | 356 | 56 | - | 2,266 |
| Gwarediadau | (4) | - | (88) | (19) | - | - | (111) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **3,557** | **1,304** | **9,594** | **2,003** | **734** | **-** | **17,192** |
| Tâl am y flwyddyn | 906 | 294 | 1,129 | 828 | 2 | - | 3,159 |
| Gwarediadau | (107) | (15) | - | (500) | (26) | - | (648) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **4,356** | **1,583** | **10,723** | **2,331** | **710** | **-** | **19,703** |
| **NBV 31 Mawrth 2024** | **6,479** | **651** | **4,851** | **1,427** | **-** | **592** | **14,000** |
| NBV 31 Mawrth 2023 | 6,439 | 934 | 5,178 | 1,645 | 2 | 988 | 15,186 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

## 9. Asedau hawl i ddefnyddio

Mae Ofcom yn lesio asedau, gan gynnwys adeiladau, cerbydau a chyfarpar swyddfa. Cyflwynir isod wybodaeth am lesoedd y mae Ofcom yn lesddeiliad arnynt.

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **53,136** | **757** | **240** | **54,133** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 3,105 | - | - | 3,105 |
| Gwarediadau | (3,165) | (159) | (115) | (3,439) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **53,076** | **598** | **125** | **53,799** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 2,573 | 8 | - | 2,581 |
| Gwarediadau | (341) | (22) | (11) | (374) |
| **Costau ar 31 Mawrth 2024** | **55,308** | **584** | **114** | **56,006** |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **14,085** | **266** | **159** | **14,510** |
| Tâl am y flwyddyn | 4,950 | 123 | 25 | 5,098 |
| Gostyngiad | (1,198) | (159) | (115) | (1,472) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **17,837** | **230** | **69** | **18,136** |
| Tâl am y flwyddyn | 4,874 | 118 | 23 | 5,015 |
| Gostyngiad | (341) | (20) | (11) | (372) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **22,370** | **328** | **81** | **22,779** |
| **NBV 31 Mawrth 2024** | **32,938** | **256** | **33** | **33,227** |
| NBV 31 Mawrth 2023 | 35,239 | 368 | 56 | 35,663 |

Ymrwymodd Ofcom i lesoedd newydd ar gyfer y swyddfeydd presennol ym Manceinion a Chaerdydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

## 10. Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **5,112** | **17,675** | **4** | **22,791** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | 55 | 86 | 141 |
| Gwarediadau | (734) | (5,375) | - | (6,109) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **4,378** | **12,355** | **90** | **16,823** |
| Gwarediadau | - | (2) | - | (2) |
| Trosglwyddiadau | 4 | 86 | (90) | - |
| **Costau ar 31 Mawrth 2024** | **4,382** | **12,439** | **-** | **16,821** |
| | | | | |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **5,112** | **17,644** | **-** | **22,756** |
| Tâl am y flwyddyn | - | 22 | - | 22 |
| Gwarediadau | (734) | (5,375) | - | (6,109) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **4,378** | **12,291** | **-** | **16,669** |
| Tâl am y flwyddyn | 1 | 44 | - | 45 |
| Gwarediadau | - | (2) | - | (2) |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **4,379** | **12,333** | **-** | **16,712** |
| | | | | |
| **NBV 31 Mawrth 2024** | **3** | **106** | **-** | **109** |
| NBV 31 Mawrth 2023 | - | 64 | 90 | 154 |

## 11. Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

| | **Ar 31 Mawrth 2024** £'000 | **Ar 31 Mawrth 2023** £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 804 | 232 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 80 | 70 |
| Rhagdaliadau | 7,199 | 7,474 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | 36 | 36 |
| Incwm Cronedig - Arall | – | 9 |
| Incwm Cronedig – Rhanddeiliad | 2,487 | 980 |
| Incwm cronedig – Derbyniadau WTA | 4,271 | 3,820 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **14,877** | **12,621** |

Roedd y cynnydd mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach yn deillio o anfonebau post ac anfonebau eraill a godwyd yn ystod wythnos olaf mis Mawrth 2024.

Mae'r cynnydd mewn 'Incwm Cronedig – Rhanddeiliad' yn deillio o weithgarwch uwch yn y sector Darlledu.

## 12. Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

| | **Ar 31 Mawrth 2024** £'000 | **Ar 31 Mawrth 2023** £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Cronedig – Rhanddeiliad | 874 | 2,023 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **874** | **2,023** |

Mae'r gostyngiad yn deillio o'r ffaith bod y costau gwirioneddol yn cyd-fynd yn well â'r rhagolwg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## 13. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 8,270 | 13,396 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **8,270** | **13,396** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian parod sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedu ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

Mae'r balans terfynol ar 31 Mawrth 2024 yn cynnwys £765k mewn buddion yswiriant bywyd a dderbynnir gan y cwmni yswiriant, a fydd yn cael ei dalu i fuddiolwyr dau gydweithiwr.

## 14. Symiau derbyniadwy lesoedd

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o symiau derbyniadwy taliadau lesoedd ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgowntio a llifoedd arian parod net wedi'u disgowntio:

### Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Y flwyddyn gyntaf | 289 | **284** |
| Yr ail flwyddyn | 296 | 290 |
| Y drydedd flwyddyn | 302 | 296 |
| Y bedwaredd flwyddyn | 308 | 301 |
| Y bumed flwyddyn | 314 | 308 |
| Mwy na phum mlynedd | 319 | 634 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: heb eu disgowntio** | **1,828** | **2,113** |
| Incwm cyllid ar gyfer is-lesoedd | (208) | (273) |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi'u disgowntio** | **1,620** | **1,840** |

## Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau cyfredol | 233 | 220 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau anghyfredol | 1,387 | 1,620 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi'u disgowntio** | **1,620** | **1,840** |

## Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth2023 £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar symiau derbyniadwy lesoedd (wedi ei gynnwys o dan incwm cyllid) | (65) | (66) |
| Incwm o asedau hawl i ddefnyddio is-lesoedd (wedi'u cynnwys o dan incwm) | (144) | (14) |

## Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y mewnlif arian ar gyfer is-lesoedd | 285 | 104 |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 4.72% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2024 (2023: 3.51%).

Mae contract y les yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r manteision o ddefnyddio'r gofod o Ofcom i'r is-denant. Mae hyn yn golygu mai dim ond yr is-denant gaiff ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio o dan gontract, a rhaid iddo ddychwelyd yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd yr is-les. Yn ogystal â'r rhent a dalwyd gan yr is-denant, bydd costau cynnal a chadw a chostau rhedeg cysylltiedig eraill hefyd yn cael eu had-dalu iddo. Nid oes unrhyw effaith ar delerau ac amodau'r les wreiddiol rhwng Ofcom a'r landlord a bydd Ofcom yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau i'r landlord.

## 15. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy drwy fasnach | 1,029 | 1,163 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | - | 7 |
| Symiau taladwy eraill | 1,177 | 239 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | 210 | 152 |
| Croniadau | 9,539 | 9,683 |
| Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad | 4,745 | 11,567 |
| Incwm Gohiriedig – Cymorth grant | 177 | 1,360 |
| Incwm Gohiriedig – Derbyniadau WTA | 6,527 | 3,724 |
| **Cyfanswm symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **23,404** | **27,895** |

Mae'r symiau taladwy eraill yn cynnwys £765k mewn buddion yswiriant bywyd a dderbynnir gan y cwmni yswiriant, a fydd yn cael ei dalu i fuddiolwyr dau gydweithiwr.

Mae'r 'Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad' yn uwch yn 2022/23 oherwydd credydau hanesyddol yn y sector Rhwydweithiau a Gwasanaethau.

Nid oes dim cymorth grant wedi cael ei hawlio ar gyfer 'Incwm gohiriedig – Cymorth grant' yn 2022/23 a 2023/24. Yn hytrach, rydym wedi mynd ati'n effeithiol i ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r incwm gohiriedig o 2021/22.

Mae'r cynnydd mewn 'Incwm gohiriedig – Derbyniadau WTA' yn deillio o'r ffaith bod y gwir wariant ar gyfer y flwyddyn yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y Sectorau Rheoli Sbectrwm a Diogelwch Ar-lein.

## 16. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad | 1,215 | 237 |
| **Cyfanswm symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **1,215** | **237** |

Mae'r cynnydd yn deillio o'r ffaith bod y gwir wariant ar gyfer y flwyddyn yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y Sectorau Rhwydweithiau a Gwasanaethau.

## 17. Rhwymedigaethau lesoedd

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o'r rhwymedigaethau lesoedd ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgownito:

| Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 5,454 | 106 | 24 | 5,584 | 5,708 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 24,039 | 106 | 6 | 24,151 | 22,371 |
| Mwy na phum mlynedd | 10,470 | - | - | 10,470 | 14,737 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: heb eu disgowntio** | **39,963** | **212** | **30** | **40,205** | **42,816** |

Nid yw Ofcom yn wynebu risg sylweddol o ran hylifedd yng nghyswllt ein rhwymedigaethau lesoedd.

| Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 4,774 | 4,892 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 31,939 | 34,163 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi'u disgowntio** | **36,713** | **39,055** |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 4.72% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2024 (2023: 3.51%, 2022: 0.95%, 2021: 0.91%, 2020: 1.27%). Mae lesoedd a oedd wedi newid i IFRS 16 cyn Ionawr 2020 ac yn ystod blwyddyn galendr 2019 yn cael eu disgowntio ar gyfradd ddisgownt y flwyddyn flaenorol, sef 1.99%, yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi.

Yn ystod y flwyddyn 2023/24, fe wnaeth Ofcom lofnodi 2 gontract les newydd er mwyn cael aros yn hirach yn y swyddfeydd presennol ym Manceinion ac yng Nghaerdydd. Bydd y les newydd ar gyfer Manceinion yn dechrau ar 22 Ebrill 2024 a bydd yn rhedeg tan 21 Ebrill 2034 gyda 14 mis heb rent ar y cychwyn, gan ychwanegu £2,436k at yr asedau hawl i ddefnyddio a £2,357k i rwymedigaethau'r les. Bydd y les newydd ar gyfer Caerdydd yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2024 a bydd yn rhedeg tan 30 Mehefin 2029 gydag 8 mis heb rent ar y cychwyn, gan ychwanegu £250k at yr asedau hawl i ddefnyddio a £242k i rwymedigaethau'r les.

Yn gyffredinol, mae pob les yn gosod cyfyngiad – oni bai fod gan Ofcom hawl gontractiol i isosod yr ased i barti arall, dim ond Ofcom all ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio. Ni ellir canslo lesoedd, neu ni ellir eu canslo heb dalu ffi terfynu sylweddol. Mae rhai lesoedd yn cynnwys opsiwn i brynu'r ased sylfaenol sy'n cael ei lesio ar ddiwedd y les, neu i ymestyn y les am gyfnod arall. Mae Ofcom wedi'i wahardd rhag gwerthu nac ymrwymo'r asedau sylfaenol sy'n cael eu lesio fel gwarant. O ran lesoedd adeiladau, rhaid i Ofcom gadw'r eiddo hwnnw mewn cyflwr da a dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les. Ar ben hynny, rhaid i Ofcom yswirio asedau hawl i ddefnyddio a thalu ffioedd cynnal a chadw ar asedau o'r fath, yn unol â chontract y les.

| Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd (wedi ei gynnwys o dan gostau cyllid) | 811 | 901 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 5 | 14 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd asedau isel eu gwerth (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 27 | 27 |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod** | | |
| Cyfanswm y llif arian parod allan ar gyfer lesoedd | (5,647) | (5,615) |

## 18. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **155** | **–** | **155** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | (25) | – | (25) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (12) | – | (12) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **118** | **–** | **118** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 5 | - | 5 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (13) | | (13) |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2024** | **110** | **-** | **110** |

| Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian parod | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfredol** | | | |
| Llai na blwyddyn | 13 | - | 13 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **13** | **-** | **13** |
| **Anghyfredol** | | | |
| Rhwng un a phum mlynedd | 46 | - | 46 |
| Mwy na phum mlynedd | 51 | - | 51 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **97** | **-** | **97** |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2024** | **110** | **-** | **110** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £110k (2022/23: £118k) ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol, sy'n rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol. Bydd disgownt o 2.45% ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2022/23: 1.70%) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 4.26% (2022/23: 3.27%), a bydd gan ddarpariaethau sydd â therfyn amser o bump i 10 mlynedd gyfradd tymor canolig o 4.03% (2022/23: 3.20%).

Mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

## 19. MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £13,525k (2022/23: £13,380k) i Ofcom. Nid yw'r symiau wedi'u hadlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom, gan fod Ofcom yn eu talu wedyn i'r Gronfa Darlledu Gaeleg o dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi adroddiadau a datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Dau Dŷ'r Senedd Brydeinig a Senedd yr Alban yn y drefn honno.

## 20. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

### a) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio – cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £9,674k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (2022/23: £8,251k). Mae'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio hefyd yn cynnwys adran cyfraniadau wedi'u diffinio. Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

### b) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlodd Ofcom ei Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi eu Diffinio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 oedd £3k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2022/23: £4k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £360k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (2022/23: £960k); a
- Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 oedd £7k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2022/23: £11k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £197k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (2022/23: £1,580k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian parod Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau 2004, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2021, eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roedden nhw'n dangos diffyg o £0.6m gyda'i gilydd.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun o ganlyniad i'r prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, mae disgwyl i Ofcom gyfrannu £565k at y ddau gynllun â'r buddion wedi eu diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Mae Ofcom hefyd yn ad-dalu'r Cynlluniau ar gyfer ardollau sy'n gysylltiedig â phensiwn.

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi arian o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ein dau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt).

Mae arian sy'n cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud, ond wedyn mae modd defnyddio'r arian hwn mewn cyfnodau sydd i ddod. Bydd yr arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo yn cael ei ddefnyddio'n benodol i dalu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, cyfrannodd Ofcom £1,000k at yr Ymddiriedolaeth Bwydo (2022/23: £1,500k). Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2024 oedd £8,363k (2022/23: £7,762k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

**Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu**

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddyfarnodd ei bod yn rhaid i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, fe wnaeth Ofcom gymryd effaith bosibl hyn i ystyriaeth ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn wedi cael ei ganiatáu ar gyfer cost gwasanaeth yn y gorffennol yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Roedd lwfans o £284k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (Hen Gynllun ITC), ac roedd lwfans o £14k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Ofcom â Buddion wedi'u Diffinio. Mae Ymddiriedolwyr y Cynlluniau'n dal i wneud cynnydd i gydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu. Ni fyddwn yn gwybod faint fydd hyn yn ei gostio i gyd nes byddan nhw wedi cael eu cydraddoli'n llawn (ac mae'n siŵr na fydd hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer).

**Gwerthoedd Hanesyddol cydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu**

Ar 20 Tachwedd 2020, gwnaeth yr Uchel Lys ei ddyfarniad diweddaraf ar gydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu mewn perthynas â thaliadau gwerth trosglwyddo. Daeth i'r casgliad y bydd yn rhaid i drosglwyddiadau hanesyddol ers 17 Mai 1990, a oedd yn cynnwys Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwn, gael eu cydraddoli. Nid oes dadansoddiad wedi ei wneud i sefydlu atebolrwydd posibl y Cynlluniau o ganlyniad i'r dyfarniad diweddaraf gan mai cymharol gyfyngedig fu'r gweithgarwch gwerth trosglwyddo yn y gorffennol, ac felly ni ddisgwylir i'r atebolrwydd ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw werth trosglwyddo hanesyddol fod yn sylweddol.

**Gweithred Diwygio 2018**

Darparwyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol o £377,000 yn y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2019. Roedd hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau sy'n bensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynnydd yn eu buddion. O ganlyniad i gyfrifiadau diwygiedig fel rhan o'r ymarfer hwn, fe wnaeth gyfanswm yr addasiad godi ym Mlwyddyn Ariannol 2022 a chafodd £500k ei gydnabod yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022. Ar ôl cwblhau ymarfer yr Ymddiriedolwyr, mae taliadau ôl-ddyledion a chodiadau i bensiynau a dalwyd rhwng 1 Mehefin 2022 a 31 Mawrth 2024 wedi cael eu cynnwys fel taliadau buddion yn natganiad IAS19 blwyddyn ariannol 2024. Effaith yr ymarfer wedi'i hailgyfrifo ar 31 Mawrth 2024 oedd £500k. Mae'r cynnydd o £100k o'i gymharu â'r lwfans o £400k a wnaed ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol wedi cael ei gydnabod o dan Incwm Cynhwysfawr Arall.

**Newidiadau posibl i'r Mynegai Prisiau Manwerthu**

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) wedi dweud ei fod yn bwriadu newid y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), erbyn 2030 fan hwyraf, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CPIH (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr). Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater yn ystod 2020, a oedd yn edrych ar yr amseru a'r fethodoleg i'w defnyddio mewn unrhyw newid. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu rhyddhau ar 25 Tachwedd 2020. Daeth i'r casgliad y bydd RPI yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r CPIH gyda'r trawsnewid yn digwydd yn ystod 2030, ac na fyddai iawndal yn cael ei dalu i ddeiliaid giltiau mynegrifol. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cafodd tarddiad rhagdybiaethau chwyddiant RPI a CPI eu hadolygu ar 31 Mawrth 2021. Bydd Ofcom yn parhau i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad i bennu'r rhagdybiaethau chwyddiant a ddefnyddir i bennu'r DBO at ddibenion cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2024.

Mae Ofcom wedi penderfynu bod cromlin chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), sy'n seiliedig ar y farchnad, yn dal yn sail resymol ar gyfer amcangyfrif cynnydd tymor hir mewn pensiynau sy'n gysylltiedig ag RPI ar 31 Mawrth 2024, gan gynnwys y newidiadau ym mynegai RPI i CPIH. Mae tarddiad rhagdybiaethau chwyddiant RPI ar 31 Mawrth 2024 wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. I darddu'r rhagdybiaeth CPI, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol cynnal y dull a fabwysiadwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at wahaniaeth rhwng RPI a CPI o 0.65% ar 31 Mawrth 2024, gan ystyried nodweddion a phroffiliau aelodaeth y cynlluniau DB.

**Virgin Media yn erbyn NTL Pension Trustees II Limited**

Ym mis Mehefin 2023, roedd yr Uchel Lys o'r farn bod diwygiadau a wnaed i gynllun Virgin Media yn annilys oherwydd nad oedd actiwari'r cynllun wedi darparu'r dystysgrif Adran 37 gysylltiedig a oedd yn angenrheidiol. Os caiff penderfyniad yr Uchel Lys ei gadarnhau, gallai arwain at oblygiadau ehangach, gan effeithio ar gynlluniau eraill a oedd yn cael eu contractio allan ar sail cyflog, a newidiadau a wnaed rhwng Ebrill 1997 ac Ebrill 2016.

Mae rhagor o ansicrwydd o hyd ynghylch gwrandawiad yn y Llys Apêl ar gyfer yr achos a bennwyd ar gyfer 25 Mehefin 2024, yn ogystal â'r posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn disodli'r hyn sydd gan y llywodraeth. O ganlyniad, mae'r Cwmni wedi dechrau casglu gwybodaeth am unrhyw newidiadau i fuddion yn ystod y cyfnod ond nid yw'r Cwmni (nac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau) eto wedi ymchwilio i'r goblygiadau posibl o ran cyfrifon y Cwmni yn fanwl.

Gan nad oes ymchwiliadau manwl wedi cael eu cynnal eto, mae'r Cwmni o'r farn na ellir mesur yn ddigon dibynadwy beth fydd maint unrhyw effaith bosibl ar y DBO. Felly, nid oes dim ystyriaeth wedi'i rhoi i'r achos hwn wrth gyfrifo'r DBO. Bydd y Cwmni'n ailedrych ar hyn ar ddiwedd y flwyddyn 2025.

## Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau Ofcom â'r buddion wedi'u diffinio

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2024 | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu h ariannu ar 31 Mawrth 2024 | Cyfanswm y buddion ymddeol ar 31 Mawrth 2024 | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2023 | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar 31 Mawrth 2023 | Cyfanswm y buddion ymddeol ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (45,696) | - | (45,696) | (45,814) | - | (45,814) |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (146,248) | (760) | (147,008) | (158,150) | (804) | (158, 954) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(191,944)** | **(760)** | **(192,704)** | **(203,964)** | **(804)** | **(204,768)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 202,508 | - | 202,508 | 215,422 | - | 215,422 |
| **Statws ariannu** | **10,564** | **(760)** | **9,804** | **11,458** | **(804)** | **10,654** |

Mae'n ofynnol o dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Mae'r holl warged yn y trefniadau ariannu yn gallu cael ei gydnabod oherwydd mae modd i Ofcom ei adennill.

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2023** | **(203,964)** | **215,422** | **11,458** | **(804)** | **10,654** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(624)** | **(624)** | **-** | **(624)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(9,561)** | **10,106** | **545** | **(36)** | **509** |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | **-** | **1,010** | **1,010** | **-** | **1,010** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 12,713 | (12,713) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 84 | 84 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **12,713** | **(12,713)** | **-** | **84** | **84** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | **8,868** | **(10,693)** | **(1,825)** | **(4)** | **(1,829)** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2024** | **(191,944)** | **202,508** | **10,564** | **(760)** | **9,804** |

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2022** | **(253,250)** | **272,938** | **19,688** | **(1,084)** | **18,604** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(766)** | **(766)** | **-** | **(766)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(6,939)** | **7,478** | **539** | **(29)** | **510** |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | **-** | **1,515** | **1,515** | **-** | **1,515** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 13,474 | (13,474) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 75 | 75 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **13,474** | **(13,474)** | **-** | **75** | **75** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | **42,751** | **(52,269)** | **(9,518)** | **234** | **(9,284)** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2023** | **(203,964)** | **215,422** | **11,458** | **(804)** | **10,654** |

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2024** | | | |
| Incwm/(cost) llog | 545 | (36) | 509 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **545** | **(36)** | **509** |
| Costau gweinyddu | (624) | - | (624) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(79)** | **(36)** | **(115)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2024** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 1,169 | (4) | 1,165 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 9,929 | - | 9,929 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (2,230) | - | (2,230) |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **8,868** | **(4)** | **8,864** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (10,693) | - | (10,693) |
| **Enillion/(colledion) net** | **(1,825)** | **(4)** | **(1,829)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2023** | | | |
| Incwm/(cost) llog | 539 | (29) | 510 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **539** | **(29)** | **510** |
| Costau gweinyddu | (766) | - | (766) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(227)** | **(29)** | **(256)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2023** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 65,949 | 234 | 66,183 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (888) | - | (888) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (22,310) | - | (22,310) |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **42,751** | **234** | **42,985** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (52,269) | - | (52,269) |
| **Enillion/(colledion) net** | **(9,518)** | **234** | **(9,284)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun Dyfynbrisiau Lefel 1:

| | 31 Mawrth 2024 Cyfanswm £'000 | 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Ecwitïau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) Lefel 2 | 3,654 | 3,007 |
| Ecwitïau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) Lefel 2 | 3,765 | 3,021 |
| Giltiau Mynegrifol Lefel 2 | 1,093 | 1,151 |
| Cronfa dwf wedi'i harallgyfeirio Lefel 2 | 4,986 | 4,887 |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau Lefel 2 | 16,105 | 19,296 |
| Blwydd-daliadau Lefel CANT | 163,939 | 175,739 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod Lefel 1 | 8,966 | 8,321 |
| **Cyfanswm** | **202,508** | **215,422** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau, ac mae gan Gynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

## Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth2024 (%) Y Cynllun DB (Buddion wedi'u Diffinio) | 31 Mawrth 2024 (%) Y Cynllun ITC | 31 Mawrth 2023 (%) Y Cynllun DB (Buddion wedi'u Diffinio) | 31 Mawrth 2023 (%) Y Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 4.85 | 4.85 | 4.80 | 4.85 |
| Chwyddiant Prisiau Adwerthu | 3.20 | 3.35 | 3.25 | 3.30 |
| – Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI uchafswm 5%) | 2.95 | 3.05 | 2.90 | 2.95 |
| – Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 2.05 | 2.10 | 1.95 | 1.95 |

## Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân, a dyma'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Cynllun DB | | Cynllun ITC | |
|---|---|---|---|---|
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** |
| – Gwryw | 28 | 27 | 28 | 27 |
| – Benyw | 31 | 29 | 31 | 30 |

## Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd

| | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllun DB | | | Cynllun ITC | | |
| | Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio | Asedau | Gwarged statws ariannu | Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio | Asedau | Funded status surplus |
| **Newid mewn rhagdybiaethau** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostwng £3,337 | gostwng £4,793 | gostwng £1,456 | gostwng £6,241 | gostwng £6,241 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | codi £3,710 | codi £5,361 | codi £1,651 | codi £6,794 | codi £6,794 | Dim newid |
| **Chwyddiant Prisiau Adwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codi £3,294 | codi £5,196 | codi £1,902 | codi £5,412 | codi £5,412 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | gostwng £2,935 | gostwng £4,652 | gostwng £1,717 | gostwng £4,937 | gostwng £4,937 | Dim newid |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | codi £1,767 | codi £1,067 | gostwng £700 | codi £7,762 | codi £7,762 | Dim newid |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostwng £1,767 | gostwng £1,067 | codi £700 | gostwng £7,762 | gostwng £7,762 | Dim newid |


### Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Mae'r siartiau'n dangos y buddion disgwyliedig sy'n daladwy gan y Cynlluniau perthnasol ar 31 Mawrth 2021.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.


Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian parod wrth ymddeol.

## Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio




Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 14 mlynedd.

## Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt)




Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 10 mlynedd.

## 21. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol yn egluro sut dylid cyflwyno offerynnau ariannol, ac yn mynnu ei bod yn rhaid datgelu'r rôl maen nhw wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth cario ymlaen y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, mae symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd, wedi cael eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 22. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddyn nhw fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodiadau rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Darperir manylion yr holl refeniw cymorth grant gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn Nodyn 2, 3, 11 ac 15 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, sef S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 20 am ddatgeliad pellach.

Ni wnaeth Ofcom unrhyw hawliadau am gymorth grant ar gyfer clirio sbectrwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd oedi yng nghyfnod terfynol y rhaglen, yn benodol datgomisiynu'r mast dros dro yn Emley Moor. Ar 31 Mawrth 2024, y balans a ddelir mewn perthynas â chymorth grant a dalwyd gan yr adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yw £177k ar gyfer clirio sbectrwm (2022/23: £1,356k). Bydd y balans gohiriedig hwn yn gwrthbwyso rhywfaint o'n costau a gyllidebwyd ar gyfer 2024/25.

Ni chafwyd dim trafodiadau partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 23. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2024, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £35k yn ymwneud â phrynu cerbyd (2022/23: £626K yn ymwneud â gwella lesddaliadau ar gyfer swyddfeydd Llundain a Chaeredin).

## 24. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r gronfa gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £8,629k (2022/23: £56,299k) o Daliadau Ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £126,658k (2022/23: £112,147k) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 o £344,812k (2022/23: £989,113k) eu hanfon i'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.

## 25. Rhwymedigaethau wrth gefn

Ym mis Mehefin 2023, penderfynodd yr Uchel Lys bod diwygiadau i fuddion pensiwn a wnaed i gynllun Virgin Media yn annilys oherwydd diffyg tystysgrif Adran 37 angenrheidiol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhwymedigaeth wrth gefn yn codi os bydd unrhyw effaith bosibl ar y DBO. Edrychwch ar Nodyn 20 am ddatgeliad pellach.

## 26. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

## 27. Busnes byw

Bydd rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael eu hariannu drwy dariffau sector blynyddol gan randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a drwy gadw derbyniadau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a gesglir drwy gyfrifon Adran 400 ac a gedwir gan Ofcom i dalu am weithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm ynghyd â gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy dariffau, fel y nodir yn Adran 401 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Trysorlys Ei Fawrhydi a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn cytuno ar gap gwariant Ofcom, ac mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn 2024/25 eisoes wedi cael eu cymeradwyo. Felly, ystyriwyd ei bod hi'n briodol mabwysiadu dull busnes byw er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.



# ATODIADAU

ADRAN

D

# A1. Datganiadau rheoleiddio

## Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2023/24, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid

### Darlledu

| | |
|---|---|
| B | Datganiad: talkSPORT – cynigion i leihau darpariaeth AM |
| B | Datganiad: Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth |
| B | Datganiad: Niferoedd hysbysebion teledu a sut maen nhw'n cael eu hamserlennu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus |
| B | Datganiad: Newidiadau i'n fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y BBC |
| B | Datganiad: Kiss East – Cais i newid Fformat |
| B | Datganiad: Rheoleiddio hysbysebion bwyd a diod sy'n llai iach |
| B | Datganiad: Cynigion y BBC ar gyfer BBC Radio Cymru 2 |
| B | Datganiad: Cais gan Sunrise Radio i ychwanegu ei drwydded AM ar gyfer Llundain Fwyaf at y rhestr o "drwyddedau cymeradwy" |
| B | Datganiad: Cais i amrywio'r ardal drwyddedig ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach yng Nghaer-wynt |
| B | Datganiad: Cais i amrywio'r ardal drwyddedig ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach yn Bradford |
| B | Datganiad: Cais Community Voice FM i newid ei brif ymrwymiadau |

### Post

| | |
|---|---|
| B | Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024 |

### Sbectrwm

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Mynediad sbectrwm ar gyfer uwch systemau Llywio Pell (eLoran) ar 90-110 kHz |
| B | Datganiad: Galluogi sbectrwm mmWave ar gyfer defnydd newydd |
| B | Datganiad: Trwyddedau Rhwydwaith Gorsaf Ddaear Lloeren |
| B | Datganiad: Galluogi i ddefnyddio'r sbectrwm 2100 MHz (1899.9-1920 Mhz) sydd heb ei baru yn y dyfodol |
| B | Datganiad: Dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol - Newidiadau i Reoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr 2022 |
| C | Datganiad: Diweddaru'r fframwaith trwyddedu radio amatur |
| C | Datganiad: Rivada Space Networks GmbH – cais am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaear heb fod yn ddaearsefydlog |

**Allwedd i'r datganiadau rheoleiddio**

- A Mwy o reoleiddio/ rheoleiddio newydd
- B Cymysg/dim newid/ parhaus
- C Wedi symleiddio/ cyd-reoleiddio
- D Llai o reoleiddio

## Telegyfathrebiadau

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Gwella gwybodaeth am fand eang i ddefnyddwyr |
| A | Datganiad: Cod Cyfathrebiadau Electronig – diwygiadau arfaethedig i Hysbysiadau Templed |
| B | Datganiad: Cynnig arfaethedig FTTP Openreach i ddechrau ar 1 Ebrill 2023 (Equinox 2) |
| B | Datganiad: Newidiadau i Ganllawiau NIS ar y trothwyon adrodd ar ddigwyddiadau ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol |
| B | Datganiad: Ansawdd gwasanaeth ar gyfer ether-rwyd a ffeibr tywyll |
| B | Datganiad: Adolygiad o Niwtraliaeth y Rhyngrwyd |
| B | Datganiad: Defnyddio symudol wrth grwydro – Cryfhau gwarchodaeth i gwsmeriaid |

## Arall

| | |
|---|---|
| B | Datganiad: Astudiaeth o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cwmwl (adroddiad terfynol) |

**Allwedd i'r datganiadau rheoleiddio**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio/ rheoleiddio newydd | B | Cymysg/dim newid/ parhaus | C | Wedi symleiddio/ cyd-reoleiddio | D | Llai o reoleiddio |

## Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2023/24 lle'r oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith

| |
|---|
| talkSPORT – Cynigion i leihau darpariaeth AM |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i ServerHouse Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Smartfibre Broadband Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i NIO Net Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i X-Fibre Ltd |
| Cynnig arfaethedig FTTP Openreach i ddechrau ar 1 Ebrill 2023 (Equinox 2) |
| Galluogi sbectrwm mmWave ar gyfer defnydd newydd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Dense Air Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Trenches Wayleave Ltd |
| Niferoedd hysbysebion teledu a sut maen nhw'n cael eu hamserlennu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus |
| Trwyddedau Rhwydwaith Gorsaf Ddaear Lloeren |
| Newidiadau i'n fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y BBC |
| Mynediad sbectrwm ar gyfer uwch systemau Llywio Pell (eLoran) ar 90-110 kHz |
| Newidiadau Ofcom i Ganllawiau NIS ar y trothwyon adrodd ar ddigwyddiadau ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol |
| Rheoleiddio hysbysebion bwyd a diod sy'n llai iach |
| Gwella gwybodaeth am fand eang i ddefnyddwyr |
| Galluogi i ddefnyddio'r sbectrwm 2100 MHz (1899.9-1920 Mhz) sydd heb ei baru yn y dyfodol |
| Cod Cyfathrebiadau Electronig - diwygiadau arfaethedig i Hysbysiadau Templed |
| Ansawdd gwasanaeth ar gyfer ether-rwyd a ffeibr tywyll |
| Adolygiad o Niwtraliaeth y Rhyngrwyd |
| Diweddaru'r fframwaith trwyddedu radio amatur |
| Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024 |
| Dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol - Newidiadau i Reoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr 2022 |
| Cais i amrywio'r ardal drwyddedig ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach yng Nghaer-wynt |
| Cais i amrywio'r ardal drwyddedig ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach yn Bradford |
| Cais Community Voice FM i newid ei brif ymrwymiadau |
| Cynllun Gwaith Ofcom 2024/25 |
| Defnyddio symudol wrth grwydro - Cryfhau gwarchodaeth i gwsmeriaid |

## Ymgynghoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2023/24 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle nad oedd datganiad terfynol wedi cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2024

| |
|---|
| Dilysu Adnabod Llinell y Galwr - dull posibl o ganfod a rhwystro rhifau sy'n cael eu ffugio a'u camfeddiannu |
| Rhannu hybrid: galluogi defnyddwyr symudol a Wi-Fi sydd â thrwydded i gael mynediad at y band 6 GHz uchaf |
| Cod Ymarfer Cyfathrebiadau Electronig |
| Cwpan Rygbi'r Byd 2023 (Digwyddiadau Rhestredig) |
| Sicrhau ansawdd gwasanaethau mynediad ar y teledu ac ar-alw |
| Atal cynnydd mewn prisiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant |
| Canllawiau ar gadernid |
| Adnewyddu Trwydded Channel 4 |
| Canllawiau i ddarparwyr gwasanaeth sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig |
| Ymgynghoriad pellach ar rannu refeniw |
| Helpu i ddefnyddio mwy o sbectrwm a rennir |
| Rheoleiddio gwasanaethau talu dros ffôn yn y dyfodol |
| Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein |
| Cais i newid Prif Ymrwymiadau ar gyfer B Radio (Farnborough) |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Artemis Fibre Limited |
| Hysbysiad o gynigion i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) (Diwygio) 2024 |
| Cod Technegol Radio Analog |
| Mynd i'r afael â galwadau sgam – disgwyl i ddarparwyr rwystro mwy o alwadau gyda rhifau ffug |
| Radio Cymunedol - dull gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y Prif Ymrwymiadau |
| Cais NSLComm Ltd am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaear heb fod yn ddaearsefydlog |

## Ymchwil Diogelwch Ar-lein a wnaethpwyd yn 2023/24

| | Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| | **Ebrill 23** | | |
| 1 | Arolygon Ymwybyddiaeth Plant o'r Cyfryngau, meintiol ac ansoddol. Arolygon rheolaidd o raglenni. Mae'n darparu tystiolaeth ar ddefnydd ar-lein/cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymysg plant yn y DU, gan gynnwys barn eu rhieni. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 29 Maw 23 |
| 2 | Arolygon Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau, meintiol ac ansoddol. Arolygon rheolaidd o raglenni. Mae'n darparu tystiolaeth ar ddefnydd ar-lein/cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymysg oedolion yn y DU. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 29 Maw 23 |
| 3 | Traciwr Profiadau Ar-lein Ton 3. Arolwg rheolaidd o raglenni. Data meintiol cadarn sy'n mesur effaith, cymeriad a pha mor gyffredin yw profiadau cadarnhaol a negyddol ar-lein. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 18 Ebr 23 |
| | **Mai 23** | | |
| 4 | Twyll a sgamiau sy'n cael eu hysgogi gan gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr (ACE). Nodi'r mesurau lliniaru presennol sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â thwyll ar-lein. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer Codau a'n dull o asesu effaith a chymesuredd. Gweld cyflwyniad i'r ymchwil. | Twyll a sgamiau | Cyhoeddwyd 17 Mai 23 |
| 5 | Lliniaru niwed anghyfreithlon: cipolwg (ACE). Cyfweliadau â llwyfannau, cyn-gydweithwyr o lwyfannau ac arbenigwyr pwnc i brofi pa fesurau lliniaru mae llwyfannau'n eu defnyddio yn y gofod hwn, beth nad ydyn nhw'n ei wneud, a beth y gellid ei wneud. Gweld cyflwyniad i'r ymchwil. | Niwed Anghyfreithlon | Cyhoeddwyd 17 Mai 23 |
| | **Mehefin - Gorffennaf 23** | | |
| 6 | Cynllun peilot: Ymchwil rhithffurf ar blant dan 13 oed. Deall profiadau plant ar-lein ac asesu dichonoldeb y dull rhithffurf. | Amddiffyn plant | Cyhoeddwyd 22 Meh 23 |
| 7 | Cynllun peilot: Ymchwil ysgolion ar blant dan 13 oed. Deall y niwed y mae plant 8-12 oed yn ei brofi a sut mae hyn yn effeithio arnyn nhw. Ansoddol gyda 12 o blant a meintiol gyda 100 o blant. | Amddiffyn plant | Cyhoeddwyd 22 Meh 23 |
| 8 | Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau, Technoleg Ymgolli a'r Dyfodol. Helpu a datblygu dealltwriaeth Ofcom o lwyfannau a thechnoleg ymgolli, gan edrych ar eu rôl bresennol ym mywydau pobl, sut gallai hyn esblygu yn y dyfodol, a'r heriau posibl o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 28 Meh 23 |

| | Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| 9 | Pôl piniwn sydyn: Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Pôl piniwn sydyn ynghylch a yw defnyddwyr rhyngrwyd y DU wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ac, os ydyn nhw, ar gyfer beth maen nhw'n eu defnyddio, a sut maen nhw'n teimlo am yr effaith y gallai'r dechnoleg hon ei chael ar gymdeithas yn y dyfodol. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 5 Gorff 23 |
| 10 | Gwerthuso systemau argymell mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol. Comisiynodd Ofcom Pattrn.AI i edrych ar y dulliau posibl o werthuso effaith systemau argymell. Mae'r ymchwil yn cynnwys cyfuniad o ymchwil desg, cyfweliadau a gweithdai arbenigol gyda pheirianwyr a gwyddonwyr data. | Swyddogaethau | Cyhoeddwyd 6 Gorff 23 |
| 11 | Rhoi hwb i ddiogelwch defnyddwyr ar-lein: Microdiwtorialau (Treialon hybu). Roedd y papur trafod hwn gan dîm Deall Ymddygiad Ofcom yn canolbwyntio ar yr hyn a ddysgom o hap-dreial ar-lein dan reolaeth a oedd yn profi effaith microdiwtorialau ar ymddygiad defnyddwyr wrth adrodd ar gynnwys. | Effeithiolrwydd mesurau diogelwch | Cyhoeddwyd 7 Gorff 23 |
| 12 | Effeithiau diofyn a negeseuon rhybudd (Treial diofyn). Mae'r papur trafod hwn gan dîm Deall Ymddygiad Ofcom yn cyflwyno canlyniadau hap-dreial ar-lein dan reolaeth. Cynhaliodd y tîm dreial i weld yr effaith ar ymddygiad defnyddwyr wrth roi gosodiadau diofyn mewn negeseuon rhybudd a oedd yn gadael i wylwyr naill ai allu gwylio cynnwys a allai fod yn niweidiol, neu ddim. | Effeithiolrwydd mesurau diogelwch | Cyhoeddwyd 14 Gorff 23 |
| | **Awst - Medi 23** | | |
| 13 | Pôl piniwn sydyn: Telerau llwyfannau a hygyrchedd. Pôl piniwn sydyn i weld a yw defnyddwyr wedi edrych ar y telerau gwasanaeth, y canllawiau cymunedol neu unrhyw fath arall o ddogfen bolisi ar wefannau neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a pha anawsterau maen nhw'n dod ar eu traws. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 9 Awst 23 |
| 14 | Astudiaeth dechnegol ar effeithiolrwydd mesurau sicrhau oedran (gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Gwerthuso cywirdeb ac effeithiolrwydd amrywiaeth o ddulliau sicrhau oedran. | Sicrhau oedran | Cyhoeddwyd 22 Awst 23 |
| 15 | Cymedroli cynnwys mewn gwasanaethau ar-lein defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. (Cynllun peilot metrigau llwyfan) Ymgysylltu ag amrywiaeth o lwyfannau ar-lein i ddeall y metrigau maen nhw'n eu defnyddio i olrhain a mesur niwed. Meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwybodaeth sylfaen ar gyfer trafodaeth. | Effeithiolrwydd mesurau diogelwch | Cyhoeddwyd 14 Medi 23 |

| | Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| 16 | Deall profiadau credoau lleiafrifol ar-lein. Mae'n edrych ar effaith, a sut mae ymddygiad sy'n ymwneud â chamwybodaeth/twyllwybodaeth yn amrywio gyda gwahanol gyd-destunau a rhwng grwpiau. Pobl 18 oed a hŷn. | Camwybodaeth/ twyllwybodaeth | Cyhoeddwyd 18 Medi 2023 |
| 17 | Gwerthu nwyddau gwaharddedig ar wasanaethau chwilio. (Pa mor gyffredin ydyn nhw wrth chwilio: nwyddau anghyfreithlon). Deall pa mor gyffredin yw'r amrywiol niwed sydd wedi'u rhestru ar beiriannau chwilio i'w bwydo i'r Gofrestr Risg, Mesurau Lliniaru a Chodau. | Chwilio | Cyhoeddwyd 18 Medi 2023 |
| 18 | Cynnwys ar-lein a ddefnyddir wrth gyflawni twyll – argaeledd trwy wasanaethau chwilio. (Pa mor gyffredin ydyn nhw wrth chwilio: twyll). Deall pa mor gyffredin yw twyll ar beiriannau chwilio i'w fwydo i'r Gofrestr Risg, Mesurau Lliniaru a Chodau. | Chwilio | Cyhoeddwyd 18 Medi 23 |
| 19 | Asesu'r risg o ddylanwad tramor yng nghanlyniadau chwilio'r DU (Gwasanaethau chwilio ac ymyriant dramor). Y nod yw dysgu am ba mor gyffredin yw ymyriant dramor a'i effaith ar wasanaethau chwilio, a sut mae gweithredwyr yn ceisio manteisio ar wendidau gwasanaethau chwilio. | Chwilio / ymyriant dramor | Cyhoeddwyd 19 Medi 23 |
| 20 | Casineb y Genedl: Mapio Tirwedd yr Iaith y Gellir Arsylwi ei bod yn Gredadwy o Atgas ar y Cyfryngau Cymdeithasol. Dadansoddiad o ba grwpiau gwarchodedig sy'n cael eu targedu gan gasineb ar-lein. | Casineb a therfysgaeth | Cyhoeddwyd 19 Medi 23 |
| 21 | Gwead Gwamal y We: Y dirwedd gydgysylltiedig ar-lein o iaith casineb, eithafiaeth, terfysgaeth a mudiadau cynllwyn niweidiol yn y Deyrnas Unedig (Galwad i Niwed). Mae'n mapio pa mor gyffredin yw'r math hwn o gynnwys ar draws saith llwyfan ar-lein, gan ddeall sut mae'r gweithredwyr a'r cynnwys ei hun yn cysylltu â'i gilydd. | Casineb a therfysgaeth | Cyhoeddwyd 19 Medi 23 |
| 22 | Swyddogaeth gwasanaethau pornograffi ar-lein (gyda BBFC). Edrych ar swyddogaeth gwasanaethau pornograffi ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae cynnwys yn cael ei lwytho i fyny/dangos. | Pornograffi | Cyhoeddwyd 9 Tach 23 |
| | **Hydref – Tachwedd 23** | | |
| 23 | Traciwr Profiadau Ar-lein Ton 4. Arolwg rheolaidd o raglenni. Data meintiol cadarn sy'n mesur effaith, cymeriad a pha mor gyffredin yw profiadau cadarnhaol a negyddol ar-lein. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 9 Hyd 23 |
| 24 | Adnodd Mesur Goddefol Ar-lein i Blant. Treialu adnodd mesur goddefol i ddeall pa safleoedd/apiau y mae plant 8-12 oed yn ymweld â nhw ar-lein. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Wedi cwblhau (Cyhoeddwyd yn Ein Gwlad Ar-lein) |

| | Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| 25 | Agweddau defnyddwyr at ymyriadau ar-lwyfan. Ymchwil ansoddol gyda 100 o bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion i fesur dealltwriaeth a barn defnyddwyr ar-lein am ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lwyfannau. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar bum math eang o ymyriadau: labeli, troshaenau, hysbysiadau, adnoddau ac awgrymiadau. | Effeithiolrwydd mesurau diogelwch | Cyhoeddwyd 31 Hyd 23 |
| 26 | Rhwystrau rhag profi oedran ar safleoedd oedolion. Ail gylch o ymchwil i ddeall agweddau ac ymddygiad a chanfod rhwystrau posibl rhag bod defnyddwyr yn cydymffurfio â thechnolegau sicrhau oedran ar safleoedd oedolion. Cyfranogwyr 16 oed a hŷn sy'n defnyddio pornograffi/safleoedd oedolion. | Sicrhau oedran | Cyhoeddwyd 9 Tach 23 |
| 27 | Deall cyfathrebu ar-lein ymysg plant (meintiol). Deall sut mae plant yn gwneud cysylltiadau ar-lein, pa mor aml y ceir negeseuon amhriodol, agweddau sy'n cael eu hystyried wrth dderbyn ceisiadau gan ffrind/ateb. | Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol | Cyhoeddwyd 9 Tach 23 |
| 28 | Deall buddsoddwyr a'u barn am risgiau diogelwch ar-lein (ACE). Mae ACE yn cynnal arolygon/cyfweliadau byr gyda'u rhwydwaith i ddysgu sut mae risg yn cael ei gweld a'i mesur gan fuddsoddwyr gwasanaethau sy'n debygol o fod o fewn cwmpas y Bil Diogelwch Ar-lein (OSB). | Goruchwyliaeth | Cyhoeddwyd 9 Tach 23 |
| 29 | Pôl piniwn sydyn: Mynd ar-lein er lles – pobl hŷn yn eu harddegau ac oedolion. A yw defnyddwyr yn mynd ar-lein i wella eu lles ac, os felly, pa wasanaethau maen nhw'n eu defnyddio. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd13 Tach 23 |
| 30 | Pôl piniwn sydyn: Mynd ar-lein er lles – plant. A yw defnyddwyr rhwng 8 a 15 oed ym Mhrydain Fawr yn mynd ar-lein i wella eu lles ac, os felly, pa wasanaethau maen nhw'n eu defnyddio. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 13 Tach 23 |
| 31 | Pôl piniwn sydyn: Microflogio. A yw defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau microflogio: gwasanaethau sy'n galluogi defnyddwyr i gyfnewid elfennau bach o gynnwys fel brawddegau byr, delweddau unigol neu ddolenni fideo. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 13 Tach 233 |
| 32 | Ein Gwlad Ar-lein 2023. Mae ein hadroddiad blynyddol yn edrych ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar-lein, sut wasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gan ddarparwyr cynnwys a llwyfannau ar-lein, a'u hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau ohoni. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 28 Tach 23 |
| 33 | Oedran defnyddwyr plant ar-lein Ofcom 2023. Arolwg meintiol i ymchwilio i % y plant ag oedran proffil ar wefan/ap cyfryngau cymdeithasol sy'n wahanol i'w hoedran go iawn. Plant 8-17 oed. | Sicrhau oedran | Cyhoeddwyd 28 Tach 23 |

| | Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| | **Rhagfyr 23** | | |
| 34 | Edrych ar ymwybyddiaeth fanwl o'r cyfryngau ymysg oedolion a phlant Mae'n edrych ar sut beth yw ymwybyddiaeth fanwl o'r cyfryngau mewn gwirionedd. Ymchwil ansoddol (Cymysgedd o fonitro goddefol/dyddiadur ac yna cyfweliad/cyfweliadau wedi'u paru) gydag oedolion/pobl ifanc 13 oed a hŷn. | Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau | Cyhoeddwyd 5 Rhag 2023 |
| | **Ionawr - Mawrth 24** | | |
| 35 | Clicio Unwaith: astudiaeth ar gyffredinoldeb cynnwys hunan-niweidio nad yw'n hunanladdiad, hunanladdiad, ac anhwylderau bwyta sy'n hygyrch drwy beiriannau chwilio. Deall pa mor gyffredin yw'r amrywiol niwed sy'n brif flaenoriaeth i blant ar beiriannau chwilio. | Amddiffyn plant / Chwilio | Cyhoeddwyd 31 Ion 24 |
| 36 | Traciwr Ymwybyddiaeth Plant o'r Cyfryngau: tablau data. Arolygon rheolaidd o raglenni. Mae'n darparu tystiolaeth ar ddefnydd ar-lein/cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymysg plant a rhieni yn y DU. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 1 Chwef 24 |
| 37 | Telerau ac amodau rheoli cynnwys Ymchwil wedi'i chomisiynu i gefnogi ein treialon deall ymddygiad sydd ar y gweill ar Delerau Gwasanaeth a Dulliau Rheoli Defnyddwyr. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 28 Chwef 24 |
| 38 | Edrych ar ymwybyddiaeth fanwl o'r cyfryngau ymysg plant 8-12 oed. Mae'n edrych ar sut beth yw ymwybyddiaeth fanwl o'r cyfryngau mewn gwirionedd. Cyfweliadau sy'n seiliedig ar dasgau gyda phlant 8-12 oed. | Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau | Cyhoeddwy 15 Maw 24 |
| 39 | Cynnwys niweidiol sy'n cael blaenoriaeth ymysg plant: Anhwylderau bwyta, hunan-niweidio, hunanladdiad. Deall pa gynnwys allai fod yn 'hyrwyddo diogelwch' o'i gymharu â bod yn niweidiol, ac agweddau tuag at fesurau lliniaru. Ymchwil ansoddol gydag oedolion a phlant 13 oed a hŷn. | Amddiffyn plant | Cyhoeddwyd 15 Maw 24 |
| 40 | Cynnwys niweidiol sy'n cael blaenoriaeth ymysg plant: Seiberfwlio, cam-drin, aflonyddu. Deall y llwybrau i blant at seiberfwlio, cam-drin ac aflonyddu ar-lein, ac agweddau tuag at fesurau lliniaru. Ymchwil ansoddol gydag oedolion a phlant 13 oed a hŷn. | Amddiffyn plant | Cyhoeddwyd 15 Maw 24 |
| 41 | Deall cynnwys treisgar ar-lein ymysg plant (Meintiol). Y nod yw deall y llwybrau i blant 8-17 oed at gynnwys ar-lein sy'n dangos neu'n annog trais, er mwyn tynnu sylw at swyddogaethau neu bwyntiau 'risg' yn y daith i blant a bod yn sail i asesiadau risg llwyfannau a mesurau lliniaru mewn Codau Ymarfer. | Amddiffyn plant | Cyhoeddwyd 15 Maw 24 |

| | Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| 42 | **Asesu effeithiolrwydd ymyriadau cymedroli cynnwys ar iaith casineb**. Mae'n asesu effeithiolrwydd gwahanol fesurau cymedroli cynnwys ar lefelau iaith casineb ar YouTube. Mae'n helpu i ddatblygu dulliau i werthuso llwyddiant ymyriadau ar lwyfannau, fel dod i gasgliad achosol o ymyriadau llwyfannau a dosbarthwyr iaith casineb. | Casineb a therfysgaeth | Cyhoeddwyd 12 Mawrth 24 |
| 43 | **Adroddiad ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau** Mae'r adroddiad yn seiliedig yn bennaf ar ein harolygon meintiol Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth o ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau tuag atyn nhw, a dealltwriaeth ohonyn nhw ymysg oedolion yn y DU sy'n 16 oed a hŷn. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 19 Ebrill 24 |
| 44 | **Y Cyfryngau ym Mywyd Plant** Mae prosiect Y Cyfryngau ym Mywyd Plant yn dilyn, cyn belled ag y bo modd, yr un grŵp o 21 o blant rhwng 8 ac 17 oed, gan gynnal cyfweliadau wedi'u ffilmio gyda nhw bob blwyddyn i ddysgu am eu hagweddau a'u harferion ar y cyfryngau. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 19 Ebrill 24 |
| 45 | **Plant a Rhieni: Agweddau a Defnydd o'r Cyfryngau** Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth plant a phobl ifanc 3-17 oed o'r cyfryngau. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 19 Ebrill 24 |
| 46 | **Y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion** Mae'r cyfweliadau'n rhoi tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n eu cymell i ddefnyddio cyfryngau a chyd-destun hynny, a sut mae dyfeisiau a gwasanaethau cyfryngau yn rhan o fywyd bob dydd ac amgylchiadau domestig. | Defnydd ac agweddau ar-lein | Cyhoeddwyd 19 Ebrill 24 |

# A2. Gweithgarwch Gorfodi

Mae Tîm Gorfodi Ofcom yn delio ag amrywiaeth o faterion ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys Telegyfathrebiadau, Llwyfannau Rhannu Fideos, Post, a Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau. Mae'r materion hyn yn ymwneud ag ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio, ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae Tabl 1 yn dangos cyfanswm yr ymchwiliadau a agorwyd yn ffurfiol a gafodd sylw gan y tîm. Mae Tabl 2 yn dangos cyfanswm y materion a gafodd eu hystyried, gyda'r mwyafrif yn cael eu cau ar sail blaenoriaeth weinyddol neu oherwydd nad oedd gweithredu ffurfiol yn cael ei ystyried yn ymateb priodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2024.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddyn nhw o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi ym Mwletin Competition and Enforcement Ofcom sydd ar gael yn: **www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/competition-bulletins**

## Rhaglenni ac Ymchwiliadau Agored

| Sector wedi'i Reoleiddio | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm a agorwyd | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2024) |
|---|---|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 12 | 8 | 5 | 7 |
| Llwyfannau Rhannu Fideos | 5 | 4 | 1 | 4 |
| Post | 2 | 1 | 2 | - |
| **Cyfanswm** | **19** | **13** | **8** | **11** |

## Cyfanswm y materion a gafodd eu hystyried gan y Tîm Gorfodi

| Sector wedi'i Reoleiddio | Achosion ar agor ar 1 Ebrill 23 | Achosion newydd a agorwyd yn ystod y flwyddyn | Achos wedi'u cau yn ystod y flwyddyn | Gweithgarwch agor (ar 31/3/2024) |
|---|---|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 36 | 38 | 59 | 15 |
| Llwyfannau Rhannu Fideos | 10 | 8 | 16 | 2 |
| Post | 1 | - | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **47** | **46** | **76** | **17** |

# A3. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion gan wrandawyr a gwylwyr am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, ac S4C hefyd. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC. Rydym hefyd yn gorfodi safonau cynnwys ar wasanaethau fideo ar-alw yn y DU[9].

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn cydymffurfio neu beidio â rheolau'r Cod Darlledu, neu godau eraill Ofcom.

Yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion, gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain hefyd. Rydym yn defnyddio'r un gweithdrefnau i ddelio ag ymchwiliadau yn sgil cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gennym ni ein hunain.

Mae cwynion unigol a gaiff Ofcom yn cael eu neilltuo i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Yn y cyfnod dan sylw, derbyniwyd cyfanswm o 69,807 o gwynion, a arweiniodd at 9,960 o achosion yn cael eu hasesu.

### Safonau cynnwys

Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

### Asesiad cychwynnol o gwynion

Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac, yn y rhan fwyaf o achosion, ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw amodau'r Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Broadcast and On Demand.

Aseswyd 9,960 o achosion (69,807 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd.

### Ffigur 1 – cwynion ac achosion a aseswyd yn ôl blwyddyn

| Math | 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwynion** | **69,807** | 36,908 | 99,562 | 142,660 | 34,545 |
| **Achosion** | **9,960** | 8,725 | 11,932 | 11,778 | 7,829 |

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 8 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

[9] O dan y fframwaith statudol, gelwir y rhain yn "wasanaethau rhaglenni ar-alw".

## Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion posib yn unol â'n rheolau, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

O'r 9,960 o achosion, fe wnaethom gyfeirio 53 achos ar gyfer ymchwiliad o dan ein rheolau yn y cyfnod adrodd.

Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd 48 ymchwiliad gennym[10]. O'r 48 ymchwiliad a gwblhawyd gennym, cafodd 17 eu lansio cyn 2023/24. Cafodd yr 31 arall eu lansio a'u cwblhau yn 2023/24.

### Ffigur 2: Cwynion, achosion ac ymchwiliadau yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu [11]

| Math | Cwynion | Achosion | Ymchwiliadau | Torri amodau | Breaches |
|---|---|---|---|---|---|
| Tramgwyddo | | 46,394 | 4,555 | 20 | 19[12] |
| Niwed | | 9,642 | 1,061 | 7 | 3 |
| Didueddrwydd Dyladwy | | 10,693 | 1,821 | 10 | 9 |
| Amddiffyn pobl ifanc dan oed | | 3,700 | 642 | 18 | 17[13] |
| Arall [14] | | 1,177 | 888 | 9 | 6 |
| **Cyfanswm** | | **71,606** | **8,967** | **65** | **54** |

Canfu Ofcom:

- bod 39 o achosion yr ymchwiliwyd iddyn nhw wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri;
- bod un achos yr ymchwiliwyd iddo wedi cael ei ddatrys[15]; a
- nad oedd wyth o achosion yr ymchwiliwyd iddyn nhw wedi torri amodau'r codau neu ni fwriwyd ymlaen â'r ymchwiliadau.

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddyn nhw cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 95.3 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Roedd hyn oherwydd cymhlethdod gweithdrefnol a chyfreithiol llawer o'r achosion roeddem wedi ymchwilio iddyn nhw.

[10] Gall ymchwiliad gael ei gwblhau dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gan ddibynnu ar ffactorau fel pryd cafodd ei lansio a chymhlethdod yr ymchwiliad.

[11] Mae'r cyfanswm yn Ffigur 2 yn uwch na'r cyfeiriadau mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol oherwydd y ffordd rydym yn categoreiddio achosion o iaith dramgwyddus, y mae rhai ohonynt yn dod o dan reolau'r Cod Darlledu ar ddiogelu pobl ifanc dan oed a thramgwyddo.

[12] Roedd 15 o'r achosion hyn o dorri amodau yn gysylltiedig ag iaith dramgwyddus.

[13] Roedd 15 o'r achosion hyn o dorri amodau yn gysylltiedig ag iaith dramgwyddus.

[14] Mae mathau eraill o achosion yn cynnwys cyfeiriadau masnachol, apeliadau elusennau a munudau hysbysebu.

[15] Gellir defnyddio canlyniad 'datryswyd' mewn achosion, er enghraifft, pan fydd darlledwr wedi cymryd camau priodol ar unwaith i unioni achos o dorri amodau'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall Ofcom ystyried ei bod yn briodol peidio â chofnodi torri'r amodau, a phenderfynu mai'r canlyniad priodol yw penderfynu bod yr achos wedi'i 'ddatrys'. Mae 'datryswyd' yn cael ei gadw ar gofnod ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ystyried os bydd rhagor o bryderon ynghylch darlledwr penodol o ran cydymffurfio.

## Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn ymwneud â thriniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddyn nhw). Bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch. Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

Yn 2023/24, fe wnaethom ystyried 196 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

## Penderfyniadau i Ystyried

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, bu Ofcom yn asesu ac yn penderfynu a ddylid ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a hynny cyn pen 17.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, byddwn yn ymchwilio i'r mater i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Bydd dyfarniad terfynol yn cael ei wneud ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a deunydd perthnasol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 23 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. O'r rhain:

- roedd pump o gwynion wedi'u cadarnhau;
- roedd 14 o gwynion heb eu cadarnhau;
- cafodd dau gŵyn eu datrys; a
- ni fwriwyd ymlaen â dau gŵyn, neu tynnwyd y cwynion yn ôl.

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnyn nhw, o fewn 90 diwrnod gwaith i ystyried y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnyn nhw, cyn pen 90.7 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae gan Ofcom amrywiaeth o sancsiynau ar gael, gan gynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb, cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, rhoi cosb ariannol[16], cwtogi trwydded neu ei hatal (ar gyfer rhai categorïau trwyddedau), a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Islam Channel o ran ei wasanaeth Islam Channel – cosb ariannol o £40,000 a chyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu'r rhaglen, ac i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom; a
- Ahlebait TV Networks o ran ei wasanaeth Ahlebait TV – cosb ariannol o £10,000, a chyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu'r rhaglen, ac i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.

[16] Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EF i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

## Safonau ac ymchwiliadau i gynnwys y BBC

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Mae hyn yn golygu os oes gan rywun gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed ar raglen deledu, radio neu ar-alw gan y BBC, mae'n rhaid iddyn nhw gwyno wrth y BBC yn gyntaf fel rheol.[17] Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddan nhw'n anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae modd cyfeirio cwyn hefyd os yw'r sawl sy'n cwyno'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn yn erbyn y BBC.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cael ac wedi asesu 2,709 o gwynion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion safonau ar gynnwys y BBC. O'r rhain:

- Cafodd 2,556 eu cyfeirio at y dull 'BBC yn gyntaf', ac
- aeth 153 drwy broses Safonau'r BBC.

Roedd 1,256 o achosion i gyd, gyda 1,127 ohonyn nhw'n rhai 'BBC yn Gyntaf' a 129 wedi dilyn ein proses Safonau'r BBC, ac nid oedd yr un ohonyn nhw'n codi materion a oedd yn cyfiawnhau camau pellach gan Ofcom.

## Deunydd ar-lein y BBC

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein.[18] Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos, ac maen nhw wedi'u diffinio yn y ddogfen Trefniadau Ar-lein y BBC Ofcom. Nid yw'r diffiniad yn ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC ac nid yw'n cynnwys y rhaglenni ar BBC iPlayer a BBC Sounds sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 fe wnaethom asesu a chau cyfanswm o 45 cwyn am ddeunydd ar-lein y BBC. Nid oedd angen i ni gyhoeddi barn mewn perthynas ag unrhyw un o'r cwynion a gafodd eu cau yn ystod y cyfnod adrodd yma.

Roedd 355 o gwynion eraill am ddeunydd ar-lein y BBC wedi cael eu cyfeirio at y BBC o dan y dull 'BBC yn Gyntaf', neu y tu allan i'n cylch gwaith. Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 18.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Roedd Adolygiad Canol Tymor Llywodraeth y DU o'r BBC yn argymell bod Ofcom yn cael pwerau gorfodi llawn o ran Deunydd Ar-lein y BBC. Dros y misoedd nesaf, bydd Ofcom yn dechrau'r broses o lunio ac ymgynghori ar God Deunydd Ar-lein y BBC, a fydd yn adlewyrchu adrannau gwahanol y Cod Darlledu yn fras[19]

## Gwasanaethau rhaglenni ar-alw

Rydym hefyd yn ystyried cwynion am safonau cynnwys ar wasanaethau rhaglenni ar-alw hysbysedig[20] yn unol â dogfen Ofcom Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri rheolau gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Yn 2023/24, fe wnaethom asesu 851 o gwynion, a arweiniodd at 621 o achosion am gynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alw. O'r achosion hyn, penderfynodd Ofcom fod un mater a godwyd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach o dan y rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Llywodraeth y Bil Cyfryngau drafft[21] sy'n cynnwys manylion y fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer rheoleiddio Fideo Ar-alw. Cafodd y ddeddfwriaeth newydd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024, ac mae'n cynnig darpariaeth i Ofcom ddrafftio a gorfodi Cod Fideo ar Alw newydd sy'n debyg i'r Cod Darlledu a fydd yn berthnasol i ddarparwyr mwy. Bydd gan Ofcom ddyletswydd barhaus hefyd i asesu mesurau diogelu cynulleidfaoedd ar wasanaethau fideo ar-alw.

[17] Nid yw'r fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf' yn berthnasol i gwynion tegwch a phreifatrwydd am gynnwys y BBC.

[18] Rydym yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.

[19] Adolygiad Canol Tymor o'r BBC, Ionawr 2024.

[20] Ac eithrio Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan y BBC, ac sy'n dod o dan y Cod Darlledu, mae'n rhaid i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alw yr hysbysir Ofcom amdanyn nhw gydymffurfio â set o Reolau Statudol sydd ar wahân i'r Cod Darlledu.

[21] Bil Cyfryngau Drafft, Mawrth 2023.

# A4. Sicrwydd Sbectrwm a Chydymffurfedd

**Dangosydd perfformiad allweddol**

## Prif Weithgareddau

| Digwyddiad/Gweithgarwch Rhaglen Waith | Ebrill 23 – Mawrth 24 | Ebrill 22 – Mawrth 23 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[22] | 1,723 | 1,674 |
| Gwirio cydymffurfedd â thrwyddedau systemau radio[23] | 3,177 | 1,953 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd[24] | 18 | 1 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[25] | 1 | 0 |

## Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant

| Dangosydd Perfformiad Allweddolr | Blaenoriaeth Achos | Targed | Targed wedi'i gyflawni<br>Ebrill 23 – Mawrth 24 | Targed wedi'i gyflawni<br>Ebrill 22 – Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 1 | 8 awr | 100% | 100% |
| | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 ddiwrnod gwaith | 99% | 100% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 99% | 100% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 99% | 100% |
| | 6 | Dim targed | | |
| **Datrysiad:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser pan fydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 1 | 2 ddiwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 2 | 3 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 99% | 100% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 97% | 94% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 99% | 99% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 99% | 100% |

[22] Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau.

[23] Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau, neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd.

[24] Fel arfer, rhoddir Hysbysiadau Cosb Benodedig yn hytrach na chychwyn achosion cyfreithiol. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol.

[25] Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig.

# A5. Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn neilltuo amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn – Syml DU (dim gorsaf ganolog) | 1,727 | 1,685 | 14,820 | 14,801 |
| Radio Busnes – Safle Syml | 977 | 1,124 | 8,926 | 8,813 |
| Radio Busnes – Cyflenwyr Ysgafn | 90 | 117 | 1,154 | 1,213 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 51 | 47 | 347 | 346 |
| Dyfais Mwyhau GNSS | 14 | 30 | 414 | 400 |
| Heddlu a Thân | 1 | 1 | 121 | 122 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,860** | **3,004** | **25,782** | **25,695** |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol | 39,314 | 27,982 | 303,898 | 295,099 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **42,174** | **30,986** | **329,804** | **320,918** |
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 97% | 99% | – | – |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 95% | 99% | – | – |

## Categori B

| **Trwyddedau lle mae gofyn neilltuo amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol** | **Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24** | **Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23** | **Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24** | **Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23** |
|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 46 | 58 | 497 | 463 |
| Radio Busnes wedi'i Neilltuo fesul Ardal | 18 | 44 | 387 | 426 |
| Radio Busnes wedi'i Neilltuo'n Dechnegol | 7 | 1662 | 309 | 21,876 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) Ardal wedi'i Diffinio | 21 | 5 | 384 | 9 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | 59 | 6 | 657 | 379 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | 1 | 17 | 63 | 375 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | 17 | 61 | 148 | 622 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | 0 | 12 | 5 | 312 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) Ardal wedi'i Diffinio | 127 | 2 | 422 | 13 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | 218 | 0 | 420 | 5 |
| Radar Profi'r Tir | 1,524 | 35 | 21,564 | 231 |
| Radar a Chymhorthion Llywio Morol | 26 | 26 | 426 | 141 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 7 | 3 | 17 | 64 |
| Telemetreg Sganio | 0 | 1 | 9 | 28 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | 26 | 16 | 241 | 146 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Isel) | 1 | 143 | 27 | 1,126 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Canolig) | 16 | 272 | 138 | 539 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **2,114** | **2,363** | **25,714** | **26,755** |
| DPA ar gyfer Categori B     1100% mewn 42 diwrnod | 91% | 96% | – | – |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn neilltuo amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | | 1,935 | 2,124 | 18,224 | 18,199 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear Barhaol) | | 6 | 14 | 104 | 144 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear Gludadwy) | | 28 | 47 | 81 | 103 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaear) | | 9 | 8 | 63 | 63 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear heb fod yn sefydlog) | | 0 | 2 | 15 | 15 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear heb fod yn sefydlog) | | 1 | 10 | 7 | 10 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **1,979** | **2,205** | **18,494** | **18,534** |
| Cyfartaledd DPA ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 97% | 87% | – | – |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 100% | 98% | – | – |

## Trwyddedau awyrenegol

| Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau awyrenegol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Awyrenegol | 2,163 | 1,738 | 12,558 | 14,211 |
| **Cyfanswm ar gyfer Awyrenegol** | **2,163** | **1,738** | **12,558** | **14,211** |
| DPA ar gyfer Awyrenegol (100% mewn 7 niwrnod) | 95% | 100% | – | – |

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE | 36,664 | 35,258 | 7,582 | 7,383 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **36,664** | **35,258** | **7,582** | **7,383** |
| DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | – | – |

## Trwyddedau Arloesi a Threialon

| Trwyddedau ac awdurdodiadau ar gyfer arbrofi, ymchwil ac arddangos | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Ymchwil ac Arloesi | 401 | 405 | 410 | 543 |
| Trwydded Treialu ac Arddangos | 224 | 236 | 165 | 271 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **625** | **641** | **575** | **814** |
| DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | – | – |

## Trwyddedau band eang di-wifr a symudol[26]

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad i Sbectrwm: 412 - 414 MHz | – | – | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 700 MHz | – | – | 3 | 3 |
| Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz | – | – | 6 | 6 |
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | – | – | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1452 - 1492 MHz | – | – | 2 | 2 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | -1[27] | – | 0 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm:2100 Mhz | – | – | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm :2.3 GHz | – | – | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 3.4-3.6, 3.5,3.6,3.6-3.8GHz | – | -1 [+1][28] | 13 | 13 |
| Myndediad i Sbectrwm: 3.9GHz | – | 1[29] | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 10, 28, 32, 40 GHz | -3[30] | -1[31] | 14 | 17 |
| Mynediad i Sbectrwm ar y Môr | 1 | – | 13 | 12 |
| Mynediad Lleol i Sbectrwm | | 10 | 29 | 36 |
| Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel[32] | – | – | 2 | 2 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **-10** | **9** | **93** | **102** |

[26] Nid yw trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn

[27] Trwydded wedi dod i ben.

[28] Cafodd trwydded 3.6/3.9 GHz UK Broadband ei disodli gan drwydded 3.6 Ghz-yn unig.

[29] Cafodd sbectrwm 3.9 GHz UK Broadband ei ailgyhoeddi o dan y drwydded newydd.

[30] Cafodd nifer o drwyddedau 28 GHz eu rhesymoli'n drwyddedau unigol fesul gweithredwr, a chafodd sbectrwm 10/32/40 GHz MBNL ei ailgyhoeddi o dan drwyddedau ar wahân.

[31] Ildiodd Arqiva drwydded 28 Ghz rhanbarth Llundain – y cyfrifwyd amdani yng nghyfanswm mis Mawrth 2024.

[32] Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU a'r twnnel i gyfeiriad y DU o Ffrainc.

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | – | – | 33 | 33 |
| Mynediad Sbectrwm (Jersey) 700 MHz, 3.4-3.8 GHz | 4 | – | 4 | 0 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 1 | -1 | 8 | 7 |
| **Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **5** | **-1** | **45** | **40** |

## Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 23 – Mawrth 24 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 24 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | – | – | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | – | – | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **0** | **0** | **2** | **2** |
| | | | | |
| **TCyfanswm y trwyddedau - pob categori** | **85,714** | **73,199** | **394,867** | **388,759** |

# A6. Cynaliadwyedd

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr, 2017/18 i 2023/24

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e)** | Allyriadau ar gyfer cwmpas 1 | 400 | 327 | 185 | 108 | 115 | 140 | 148 |
| | Allyriadau ar gyfer cwmpas 2 | 809 | 528 | 308 | 189 | 172 | 398 | 340 |
| | Allyriadau ar gyfer cwmpas 3 | 519 | 555 | 594 | 7 | 57 | 347 | 674 |
| | **Cyfanswm yr allyriadau** | **1,728** | **1,410** | **1,087** | **304** | **344** | **886** | **1,162** |
| **Defnydd ynni cysylltiedig** | Tanwydd Fflyd (litrau) | 73,659 | 64,710 | 62,665 | 35,465 | 35,406 | 57,175 | 58,578 |
| | Nwy (kWh) | 1,014,202 | 802,709 | 120,016 | 95,613 | 148,858 | 41,671 | 90,344 |
| | Trydan (kWh) | 2,103,652 | 1,720,333 | 1,112,349 | 747,108 | 809,159 | 2,059,489 | 1,759,447 |
| **Data teithio busnes cysylltiedig (km)** | Hedfan - domestig | 581,902 | 537,247 | 725,261 | - | 50,324 | 284,544 | 569,197 |
| | Hedfan - rhyngwladol | 1,617,386 | 1,776,192 | 1,680,572 | 653 | 108,509 | 1,062,786 | 1,758,892 |
| | Rheilffyrdd neu reilffyrdd tanddaearol | 1,793,809 | 1,784,741 | 2,000,504 | 13,146 | 437,355 | 1,109,722 | 1,277,695 |
| | Teithio ar y ffyrdd | 244,308 | 220,376 | 254,311 | 32,544 | 68,955 | 247,452 | 274,043 |
| **Dangosyddion ariannol (£'k)** | Tanwydd Fflyd | £94k | £90k | £85k | £43k | £49k | £98k | £88k |
| | Nwy | £25k | £27k | £11k | £12k | £12k | £8k | £13k |
| | Trydan | £340k | £287k | £158k | £128k | £146k | £909k | £997k |
| | Teithio Busnes | £706k | £743k | £838k | £5k | £139k | £660k | £998k |

**Cwmpas 1** – Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom. Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Bydd Ofcom yn talu am danwydd petrol a diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

**Cwmpas 2** – Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018), Warrintgon, Manceinion a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

**Cwmpas 3** – Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi, ac mae'n cynnwys teithiau gan bob cydweithiwr ni waeth ble maen nhw wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithio ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithio ar ffyrdd i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am deithiau hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig a rhyngwladol, yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys. O fis Mehefin 2017, mae cost gwastraff wedi'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli'n gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 183 | 198 | 189 | 69 | 161 | 72 | 143 |
| | Cyfanswm heb ei ailgylchu | - | - | - | - | - | - | - |
| | Cyfanswm wedi'i ailgylchu | 125 | 71 | 92 | 38 | 79 | 21 | 55 |
| | Cyfanswm wedi'i gompostio | - | - | - | 3 | 0 | 15 | 41 |
| | Cyfanswm gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 58 | 127 | 98 | 28 | 82 | 36 | 46 |
| **Materion Ariannol** | **Gwastraff** | **£7,004** | **£43,805** | **£35,000** | **£12,470** | **£27,569** | **£26,949** | **£25,440** |

## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock (a wnaeth gau yn 2018). Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny.

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | Defnydd dŵr (m3) | 9,379 | 13,988 | 18,874 | 6,375 | 13,075 | 20,842 | 9,469 |
| | Rimiau papur | 3,915 | 2,579 | 2,446 | 23 | 16 | 168 | 183 |
| | Rimiau A3 | 50 | 127 | 106 | 0 | 1 | 9 | 6 |
| | Rimiau A4 | 3,865 | 2,452 | 2,305 | 23 | 15 | 159 | 177 |
| | Rimiau A5 | - | - | 35 | - | - | - | - |
| **Materion Ariannol** | **Dŵr** | **£6,929** | **£19,583** | **£23,321** | **£14,820** | **£25,049** | **£35,851** | **£16,288** |

# Ein Swyddfeydd


**Prif Swyddfa Ofcom**

Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

**Switsfwrdd**
+44 (0)300 123 3000
+44 (0)20 7981 3000

**Ffôn testun**
+44 (0)20 7981 3043

**Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom**

+44 (0)300 123 3333 or
+44 (0)20 7981 3040

**Manceinion**

6th Floor
1 Circle Square
Oxford Road
Manceinion M1 7ED

+44 (0)289 026 5509

**Yr Alban**

Quartermile 1
15 Lauriston Place
Caeredin EH3 9EP

+44 (0)131 220 7300

**Cymru**

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

+44 (0)29 2046 7200

**Gogledd Iwerddon**

Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT7 2JD

+44 (0)28 9041 7500


ofcom.org.uk


Of613 07/2024
E03151595
978-1-5286-5044-1


Ofcom